# Gorsafoedd radio cerddoriaeth newydd: Prawf Budd y Cyhoedd

Cyflwyno Prawf Budd y Cyhoedd y BBC

21 Tachwedd 2024

## Tabl Cynnwys


**1. Crynodeb gweithredol ..... 4**

1.1 Mae'r BBC yn ymgynghori ar lansio pedair gorsaf radio cerddoriaeth newydd y BBC 4

1.2 Lansio ffrydiau Sounds-yn-unig ..... 5

1.3 Bydd y gorsafoedd newydd yn darparu gwerth cyhoeddus uchel – yn unigol ac ar y cyd 6

1.4 Mae effaith y gorsafoedd newydd ar y farchnad yn gymharol isel ar draws y farchnad gyfan, gyda'r estyniad arfaethedig i Radio 2 yn cael effaith fwy sylweddol ar gystadleuwyr agosach ..... 6

1.5 Prawf Budd y Cyhoedd ..... 6

**2. Cyd-destun ein cynigion ..... 8**

2.1 Hanes byr radio cerddoriaeth ..... 8

2.2 Effaith ffrydio cerddoriaeth ..... 9

2.3 Mae darlledwyr radio yn y DU wedi ymateb i'r heriau hyn ..... 11

2.4 Sut mae'r newidiadau hyn wedi effeithio ar ymddygiad gwrando ar y radio yn y DU 13

2.5 Datblygiadau ers ein hymgynghoriad ..... 14

**3. Cynigion cyntaf y BBC ar gyfer gorsafoedd radio cerddoriaeth newydd ar DAB+ ac ar-lein ..... 17**

3.1 Rhesymeg gyffredinol dros y gorsafoedd newydd ..... 17

3.2 Ein cynigion cychwynnol ar gyfer estyniad Radio 1 Dance ..... 19

3.3 Ein cynigion cychwynnol ar gyfer estyniad Radio 1 Anthems ..... 20

3.4 Ein cynigion cychwynnol ar gyfer estyniad Radio 2 ..... 20

3.5 Ein cynigion cychwynnol ar gyfer estyniad Radio 3 Unwind ..... 21

3.6 Ein cynigion cychwynnol ar gyfer dosbarthu'r gorsafoedd arfaethedig ..... 21

3.7 Ein cynigion cychwynnol ar gyfer cyllideb y gorsafoedd arfaethedig ..... 21

**4. Adborth rhanddeiliaid ..... 23**

4.1 Adborth rhanddeiliaid ar gynulleidfaoedd nad ydyn nhw'n cael eu gwasanaethu'n ddigonol ..... 23

4.2 Adborth rhanddeiliaid ar ein cyllideb arfaethedig ..... 25

4.3 Adborth rhanddeiliaid ar yr Effaith Gystadleuol ..... 27

4.4 Adborth rhanddeiliaid ar Natur Unigryw ..... 29

4.5 Adborth rhanddeiliaid ar Ddosbarthu ..... 32

4.6 Materion eraill a godwyd ..... 32

**5. Cynigion terfynol y BBC ar gyfer gorsafoedd cerddoriaeth arfaethedig ..... 35**

5.1 Strategaeth gyffredinol ..... 35

5.2 Dosbarthiad ....................................................................................................... 35
5.3 Cyllideb ............................................................................................................ 35
5.4 Radio 1 Dance: Cynigion terfynol fel gorsaf radio lawn ........................................... 37
5.5 Radio 1 Anthems: Cynigion terfynol fel gorsaf radio lawn ....................................... 41
5.6 Estyniad Radio 2: Cynigion terfynol fel gorsaf radio lawn ........................................ 44
5.7 Radio 3 Unwind: Cynigion terfynol fel gorsaf radio lawn ......................................... 48

**6. Asesiad o werth cyhoeddus ........................................................................ 52**

6.1 Cyflawni Cenhadaeth y BBC ................................................................................. 52
6.2 Ein Fframwaith Gwerth Cyhoeddus ........................................................................ 52
6.3 Ein damcaniaeth gwerth cyhoeddus ........................................................................ 53
6.4 Ymchwil Cynulleidfa ............................................................................................ 55
6.5 Gwell gwerth i bob cynulleidfa .............................................................................. 55
6.6 Ystod ac amrywiaeth o gerddoriaeth ...................................................................... 70
6.7 Cerddoriaeth newydd ........................................................................................... 73
6.8 Cerddoriaeth a thalentau o Brydain ....................................................................... 74
6.9 Cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi'i recordio'n arbennig ................................... 77
6.10 Rhaglenni sy'n cael eu harwain gan ddeunydd llafar ............................................. 79
6.11 Newyddion ....................................................................................................... 80
6.12 Cefnogi arloesi technolegol mewn darllediadau radio ............................................ 82
6.13 Gwerth cyhoeddus sy'n cael ei ildio ..................................................................... 83
6.14 Dal y BBC i gyfrif am ei berfformiad .................................................................... 83
6.15 Casgliad ar werth cyhoeddus ............................................................................... 85

**7. Effaith bosib ar gystadleuaeth deg ac effeithiol ............................................... 88**

7.1 Amcangyfrifon o'r cynnydd cychwynnol .................................................................. 88
7.2 Adborth rhanddeiliaid .......................................................................................... 88
7.3 Cynnydd yn y nifer sy'n gwrando .......................................................................... 92
7.4 Risg y bydd ein cynigion yn gwthio cystadleuwyr o'u lle ........................................... 93
7.5 Effaith statig ar refeniw a phroffidioldeb ............................................................... 104
7.6 Effeithiau deinamig ............................................................................................ 107
7.7 Effeithiau posib ar y gadwyn gyflenwi fertigol ........................................................ 110
7.8 Casgliadau ynghylch effaith bosib y BBC ar gystadleuaeth deg ac effeithiol .. 111

**8. Prawf Budd y Cyhoedd ............................................................................... 112**

8.1 Y Cefndir ......................................................................................................... 112
8.2 A yw'r newid arfaethedig yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni'r Genhadaeth ac o hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus? ............................................................. 113

8.3 A yw'r BBC wedi cymryd camau rhesymol i wneud yn siŵr na chaiff y newid arfaethedig unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol lle nad yw hynny'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus yn effeithiol? ..... 116
8.4 A yw gwerth cyhoeddus y newidiadau arfaethedig yn cyfiawnhau’r effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol? ..... 118
8.5 Casgliad ..... 120

# 1. Crynodeb gweithredol

Mae'r ffordd mae cynulleidfaoedd yn gwrando ar gerddoriaeth wedi newid yn sylfaenol dros y chwe degawd diwethaf – o finyl a chasetiau, i gryno ddisgiau, i lawrlwythiadau, i ffrydio. Drwy gydol y cyfnod hwn – ac yn enwedig ers lansio BBC Radio 1, Radio 2 a Radio 3 yn 1967 – mae radio wedi chwarae rhan hollbwysig yng ngherddoriaeth y DU, ac mae'n dal i chwarae rhan hollbwysig i gynulleidfaoedd, artistiaid a'r diwydiant.

Mae'r farchnad sain ehangach yn parhau i newid yn gyflym. Mae ffrydio cerddoriaeth, llwyfannau cymdeithasol ac esblygiad radio digidol wedi trawsnewid arferion gwrando yn ystod y degawd diwethaf. Mae cynulleidfaoedd nawr yn disgwyl mwy o ddewis a mwy o reolaeth dros eu profiad gwrando, gyda chynigion clir a phersonoli i helpu i ganfod cynnwys perthnasol. Er mwyn sicrhau gwerth i bob cynulleidfa, mae'n hanfodol bod y BBC yn parhau i esblygu mewn ymateb i newidiadau yn ymddygiad cynulleidfaoedd, er mwyn i gynulleidfaoedd sy'n cael llai gan y BBC ar hyn o bryd allu dod o hyd i gynnwys perthnasol y BBC a chael mwy o werth o Ffi'r Drwydded.

## 1.1 Mae'r BBC yn ymgynghori ar lansio pedair gorsaf radio cerddoriaeth newydd y BBC

Ym mis Chwefror, fe wnaethon ni ymgynghori ar lansio pedair gorsaf radio cerddoriaeth newydd y BBC – ein gorsafoedd newydd cyntaf ers 2002.[1] Roedden ni'n cynnig mai'r gorsafoedd newydd hyn fyddai gorsafoedd cyntaf y BBC i fod ar gael ar DAB+, ac yn cael eu dosbarthu hefyd gan BBC Sounds, seinyddion clyfar ac apiau eraill. Roedden ni'n cynnig y byddai'r estyniadau hyn yn gwneud mwy i gynulleidfaoedd iau a C2DE sydd ar hyn o bryd yn cael llai o werth gan y BBC, ac yn diwallu hwyliau ac anghenion cynulleidfaoedd modern yn well. Nodwyd hefyd y bydden nhw'n gost-effeithiol iawn.

Dyma'r gorsafoedd arfaethedig:

- **Radio 1 Dance** - mae Radio 1 Dance ar gael ers mis Hydref 2020 fel ffrwd Sounds-yn-unig, a bydd yn targedu cynulleidfaoedd 15 i 34 oed, gan ddarparu llwyfan mwy i dynnu sylw at fuddsoddiad creadigol y BBC mewn cerddoriaeth ddawns, gan gefnogi'r gwaith o ddatblygu artistiaid newydd o'r DU, ac adlewyrchu'r sîn ddawns i gynulleidfa ehangach.
- **Radio 1 Anthems** (estyniad newydd i Radio 1 yn flaenorol) - y bwriad yw cynnig y cyfle i gynulleidfaoedd iau 15-34 oed gael archwilio'r traciau a'r artistiaid eiconig sydd wedi siapio'r ddau ddegawd diwethaf yn fanwl, gan eu helpu i ddarganfod ac ailddarganfod amrywiaeth eang o gerddoriaeth ac artistiaid sy'n cael eu cefnogi gan Radio 1.
- **Estyniad Radio 2 –** yn targedu cynulleidfaoedd 55 oed a hŷn ac yn benodol cynulleidfaoedd C2DE, bwriedir i'r estyniad Radio 2 newydd roi cipolwg unigryw ar hen ganeuon pop, gan dyrchu drwy gerddoriaeth ac archif unigryw y BBC yn bennaf o'r 1950au, y 1960au a'r 1970au.
- **Radio 3 Unwind** (estyniad newydd Radio 3 yn flaenorol) – sydd wedi'i anelu at gynulleidfaoedd 35 oed a hŷn. Bwriad Radio 3 Unwind yw cynnig profiad

[1] Gorsafoedd radio cerddoriaeth newydd: Ymgynghoriad Prawf Budd y Cyhoedd, BBC, 14 Chwefror 2024

cerddoriaeth glasurol sy'n dawel ac yn hamddenol ac yn cefnogi arferion dyddiol gwrandawyr, yn eu helpu i ddianc rhag pwysau a straen bywyd bob dydd, ac yn helpu gyda'u lles. Bydd yn cynnwys amrywiaeth eang o gerddoriaeth glasurol, yn gyfarwydd ac yn newydd.

Cawsom amrywiaeth eang o ymatebion gan randdeiliaid.

Mae radio masnachol a chyrff y diwydiant sy'n cynrychioli'r sector hysbysebu wedi gwrthwynebu'r cynigion yn gryf, gyda Radiocentre, News Broadcasting a Boom Radio, yn benodol, yn darparu ymatebion o sylwedd. Roedd Boom Radio hefyd yn annog ei wrandawyr i wrthwynebu ein cynigion; o ganlyniad, roedd tua 100 o unigolion wedi ymateb i'n hymgynghoriad yn gwrthwynebu estyniad Radio 2.

Mae grwpiau cynulleidfa, y diwydiant cerddoriaeth, deiliaid hawliau cerddoriaeth a'r sector cynhyrchu annibynnol wedi bod yn cefnogi'r cynigion yn gyffredinol. Rydyn ni wedi cael trafodaethau pellach gyda'r diwydiant cerddoriaeth yn dilyn ein hymgynghoriad, i sicrhau ei fod yn deall gwerth cyhoeddus y cynigion.

Yn adran 4 y ddogfen hon, rydyn ni'n rhoi crynodeb manwl o'r adborth hwn gan randdeiliaid. Yn adran 5 rydyn ni'n nodi ein cynigion terfynol ar gyfer y pedair gorsaf radio newydd, ar ôl ystyried hyn

### 1.2 Lansio ffrydiau Sounds-yn-unig

Ochr yn ochr â'r broses Prawf Budd y Cyhoedd ar gyfer y gorsafoedd newydd, rydyn ni wedi cynnal asesiad perthnasedd sy'n ymwneud â lansio'r estyniadau hyn fel ffrydiau Sounds-yn-unig (ac eithrio Radio 1 Dance sydd eisoes yn ffrwd Sounds-yn-unig). Ym mis Mai, fe wnaethon ni benderfynu nad oedd y ffrydiau Sounds-yn-unig yn newid sylfaenol a chafodd yr asesiad ei rannu ag Ofcom.

Er mwyn osgoi amheuaeth, er bod yr asesiadau perthnasedd yn ymwneud â ffrydiau ar-lein y gorsafoedd yn unig, mae ein dadansoddiad Prawf Budd y Cyhoedd ar effaith y gorsafoedd arfaethedig ar y farchnad yn seiliedig ar y cyfanswm sy'n gwrando ar y gorsafoedd newydd ar draws yr holl sianeli dosbarthu, h.y. DAB+ a dosbarthiad ar-lein (Sounds, seinydd clyfar, apiau eraill, ac ati) o'i gymharu â sefyllfa wrthffeithiol o ddim gorsafoedd newydd neu ffrydiau Sounds-yn-unig.

Ym mis Gorffennaf, penderfynodd Ofcom ei fod yn cytuno nad oedd y ffrydiau Radio 1 Anthems a Radio 3 Unwind Sounds-yn-unig yn newidiadau sylfaenol; ond y gallai'r ffrwd Radio 2 newydd arfaethedig gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.[2] Dywedodd Ofcom, petai'r BBC yn dymuno bwrw ymlaen â'r ffrwd Radio 2 newydd arfaethedig, y byddai'n rhaid i ni gynnal Prawf Budd y Cyhoedd. Felly, fe wnaethon ni atal gwaith ar y ffrwd Radio 2 newydd arfaethedig ar unwaith.

Lansiwyd ffrwd BBC Sounds-yn-unig Radio 3 Unwind ar 4 Tachwedd 2024 a ffrwd BBC Sounds-yn-unig Radio 1 Anthems ar 8 Tachwedd 2024.

[2] Adolygiad o asesiad perthnasedd y BBC o'r ffrydiau newydd arfaethedig ar BBC Sounds, Ofcom, 16 Gorffennaf 2024

### 1.3 Bydd y gorsafoedd newydd yn darparu gwerth cyhoeddus uchel – yn unigol ac ar y cyd

Yn adran 6 y ddogfen hon rydyn ni'n nodi'n fanwl ein dadansoddiad o werth cyhoeddus pob un o'r gorsafoedd arfaethedig, yn unigol ac ar y cyd.

Yn gryno, ar ôl i ni ystyried ymchwil cynulleidfa, ymatebion i'n hymgynghoriad, dadansoddiad economeg ac asesiad o'n damcaniaethau gwerth cyhoeddus, rydyn ni o'r farn y byddai'r cynigion ar gyfer y gorsafoedd newydd yn creu gwerth cyhoeddus sylweddol, yn unigol ac ar y cyd, ac yn cyfrannu at gyflawni'r Genhadaeth a hyrwyddo ei Ddibenion Cyhoeddus. Bydd y gorsafoedd yn cyflawni hyn drwy wella gwerth i bob cynulleidfa, ymestyn ehangder ac amrywiaeth cerddoriaeth ar y radio, tynnu sylw at gerddoriaeth newydd a cherddoriaeth Brydeinig o bob cwr o'r DU, darparu cynnwys llafar o ansawdd uchel ac effeithiol a newyddion perthnasol i gynulleidfaoedd, ac yn y pen draw, cefnogi arloesedd technolegol mewn darlledu radio.

### 1.4 Mae effaith y gorsafoedd newydd ar y farchnad yn gymharol isel ar draws y farchnad gyfan, gyda'r estyniad arfaethedig i Radio 2 yn cael effaith fwy sylweddol ar gystadleuwyr agosach

Mae ein dadansoddiad o'r farchnad, sydd wedi'i nodi'n fanwl yn Adran 7, yn dangos bod y cynigion ar gyfer Radio 1 Dance, Radio 1 Anthems a Radio 3 Unwind, yn unigol ac ar y cyd, yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Ar gyfer Estyniad Radio 2, fel y nodwyd uchod, mae ein dadansoddiad yn dangos y gall yr estyniad arfaethedig gael effaith ar gystadleuaeth deg ac effeithiol mewn perthynas â chystadleuwyr agosach, er nad ar y lefel gyfanredol ar gyfer radio cerddoriaeth.

### 1.5 Prawf Budd y Cyhoedd

Ystyr Prawf Budd y Cyhoedd yw ei bod yn rhaid i'r BBC fod yn fodlon –

> (a) bod y newid arfaethedig i Wasanaethau Cyhoeddus yn y DU yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni'r Genhadaeth ac o hyrwyddo un neu fwy o'r Dibenion Cyhoeddus;
>
> (b) ei fod wedi cymryd camau rhesymol i wneud yn siŵr na chaiff y newid arfaethedig unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol lle nad yw hynny'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus yn effeithiol; a
>
> (c) bod gwerth cyhoeddus y newid arfaethedig yn cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. [3]

Ar ôl i ni ystyried ymchwil cynulleidfa, ymatebion i'n hymgynghoriad, dadansoddiad economeg ac asesiad o'n damcaniaethau gwerth cyhoeddus, rydyn ni o'r farn y byddai'r cynigion ar gyfer y gorsafoedd newydd yn creu gwerth cyhoeddus sylweddol, yn unigol ac ar y cyd, ac yn cyfrannu at gyflawni'r Genhadaeth a hyrwyddo ei Ddibenion Cyhoeddus. Yn benodol, bydd y gorsafoedd yn gwella gwerth i bob cynulleidfa, yn ymestyn ehangder ac amrywiaeth cerddoriaeth ar y radio, yn tynnu sylw at gerddoriaeth

---

[3] Cytundeb Fframwaith y BBC, Cymal 8(1)

newydd a cherddoriaeth Brydeinig o bob cwr o’r DU, yn darparu cynnwys llafar o ansawdd uchel ac effeithiol a newyddion perthnasol i gynulleidfaoedd, ac yn y pen draw, yn cefnogi arloesedd technolegol mewn darlledu radio.

Mae ein dadansoddiad o’r farchnad yn Adran 7 yn dangos bod y cynigion ar gyfer Radio 1 Dance, yr estyniad newydd i Radio 1 a’r estyniad i Radio 3, yn unigol ac ar y cyd, yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Ar gyfer Estyniad Radio 2, fel y nodwyd uchod, mae ein dadansoddiad yn dangos y gall yr estyniad arfaethedig gael effaith ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, ond rydyn ni’n credu bod y gwerth cyhoeddus y mae’n ei gynhyrchu yn cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol a allai godi.

Felly, mae’r BBC yn fodlon bod holl elfennau’r Prawf Budd y Cyhoedd yn cael eu bodloni mewn perthynas â phob un o’r gorsafoedd radio newydd arfaethedig – Radio 1 Anthems, Radio 1 Dance, yr estyniad newydd i Radio 2 a Radio 3 Unwind, a gyda’i gilydd ar gyfer pob un o’r gorsafoedd. Rydyn ni o'r farn y bydd y gorsafoedd newydd yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni’r genhadaeth a hyrwyddo’r dibenion cyhoeddus, yn sicrhau gwerth cyhoeddus uchel dros ben, ac yn cael effaith weddol fach ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

# 2. Cyd-destun ein cynigion

Yn yr adran hon, rydyn ni'n egluro'r ffactorau allweddol sy'n sail i'n cynigion, gan gynnwys y datblygiadau technolegol a datblygiadau yn y farchnad sy'n sbarduno newid mewn ymddygiad cynulleidfaoedd, a hanes a strategaethau'r BBC a radio masnachol.

Mae'r ffordd mae cynulleidfaoedd yn gwrando ar gerddoriaeth wedi newid yn sylweddol dros y chwe degawd diwethaf – o finyl, i gryno ddisgiau, i lawrlwythiadau, i ffrydio. Ond ers lansio BBC Radio 1, Radio 2 a Radio 3 yn 1967, mae radio wedi chwarae rhan hollbwysig yng ngherddoriaeth y DU, ac mae'n dal i chwarae rhan hollbwysig i gynulleidfaoedd, artistiaid a'r diwydiant.

## 2.1 Hanes byr radio cerddoriaeth

Ym mis Medi 1967, diweddarodd y BBC ei bortffolio radio drwy lansio BBC Radio 1, Radio 2, Radio 3 a Radio 4. Cafodd Radio 1 ei ddylunio fel gwasanaeth cerddoriaeth bop newydd sbon i gymryd lle'r gorsafoedd radio answyddogol a oedd wedi'u gwahardd, tra bod Radio 2 a 3 wedi disodli'r gwasanaethau Light a Third.

Gwasanaeth radio masnachol cyntaf y DU oedd LBC, ac yna Capital Radio. Lansiwyd y ddau ym mis Hydref 1973 ac roedden nhw'n gwasanaethu ardal Llundain Fwyaf, gydag LBC yn cynnig newyddion a gwybodaeth a Capital yn cynnig cerddoriaeth ac adloniant. Lansiwyd 16 gorsaf fasnachol leol arall ar draws Glasgow (Clyde), Birmingham (BRMB) a Manceinion (Piccadilly) ganol y 1970au. Parhaodd rhagor o lansiadau drwy'r 1980au, lle'r oedd 'hollti amledd' yn golygu bod gweithredwyr masnachol yn dosbarthu eu gwasanaethau i gynulleidfa ieuengach ar FM a gorsafoedd i gynulleidfa hŷn ar AM.

Ym mis Medi 1992, Classic FM oedd yr orsaf radio fasnachol genedlaethol gyntaf i gael ei lansio, gan ddilyn gyda Virgin 1215 ym mis Ebrill 1993. Parhaodd radio masnachol i dyfu drwy'r 1990au, gyda rhagor o orsafoedd rhanbarthol a chenedlaethol yn cael eu lansio, gan gynnwys Heart ac XFM.

Yn 1995, lansiodd y BBC ei wasanaethau radio cenedlaethol (Radio 1, Radio 2, ac ati) ar DAB. Yn fuan wedi hynny, dechreuodd y gorsafoedd DAB masnachol cyntaf yn Lloegr hefyd ac ar draws rhannau o Gymru a'r Alban. Roedd Classic FM a Virgin Radio ymhlith y cyntaf i ehangu i DAB, ynghyd â dwy orsaf ddigidol newydd, Core a Planet Rock. Yn 2002, lansiodd y BBC ei orsafoedd cerddoriaeth cenedlaethol cyntaf ar gyfer DAB yn unig – 1Xtra, 6 Music ac Asian Network cenedlaethol (ar ôl lansio yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr yn 1989).

Cyfunwyd radio masnachol yn sylweddol yn y 2000au hefyd. Ffurfiwyd Global Media and Entertainment ("Global") yn 2007, gan brynu Chrysalis Radio gyntaf (Heart, Galaxy, The Arrow) a blwyddyn yn ddiweddarach, GCAP Media (gan gynnwys Capital a Classic FM). Yn 2012, prynodd Global GMG (Real a Smooth). Yn yr un modd, yn 2008, prynodd Bauer Media Group ("Bauer") Emap (Kiss, Magic, Kerrang! a dwsinau o orsafoedd lleol ledled Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon). Ers hynny, mae Bauer wedi parhau i brynu: Orion Media (2016), Jazz FM (2018), ac yn 2019, Lincs FM Group, Celador, gorsafoedd lleol yn eiddo i Wireless Group, ac UKRD. Ym mis Medi 2023, roedd Global yn cyfrif am 23% a Bauer yn cyfrif am 21% o'r holl radio a wrandewir arno yn y DU (h.y. gan gynnwys y BBC).


Gan ystyried y farchnad fasnachol yn unig, mae gan Global 43% a Bauer 38% o'r radio a wrandewir arno.

## 2.2 Effaith ffrydio cerddoriaeth

Ers lansio gwasanaethau fel Spotify, Apple Music ac Amazon Music, ffrydio cerddoriaeth yw'r ffactor allweddol sy'n sbarduno newidiadau sylweddol mewn ymddygiad gwrando a disgwyliadau cynulleidfaoedd o ran cerddoriaeth, yn enwedig gyda chynulleidfaoedd dan 35 oed.

Er mai radio byw yw'r math mwyaf poblogaidd o sain o hyd, gydag 88% o oedolion yn gwrando am gyfartaledd o 20 awr yr wythnos, mae gwasanaethau ffrydio cerddoriaeth wedi tyfu'n gyflym, ac erbyn hyn maen nhw'n cyrraedd 75% o gynulleidfaoedd 15-34 oed bob wythnos o'i gymharu â 59% yn 2018.[4] Mae amser gwrando hefyd wedi newid yn sylweddol tuag at ffrydio. Mae cerddoriaeth wedi'i ffrydio bellach yn cyfrif am 21% o'r gerddoriaeth y gwrandewir arno ar gyfer pob oedolyn, a 50% ar gyfer pobl ifanc 15-34 oed. Erbyn hyn, dim ond 30% o'u hamser gwrando mae'r grŵp oedran iau yn ei dreulio gyda radio, o'i gymharu â 64% ar gyfer yr holl oedolion.

**Ffigur 1: Cyfran yr amser a dreulir bob wythnos ar unrhyw sain: oedolion 15+ v 15-34 oed**




*Ffynhonnell: Ofcom, Cyfryngau'r Genedl, 2023*

Spotify yw'r ap ffrydio sain digidol mwyaf poblogaidd yn y DU sy'n cyrraedd tua 12.5 miliwn o ddefnyddwyr wythnosol yn y DU, ac amcangyfrifir bod gwasanaethau

[4] Media Nations 2023, Ofcom, t.56

tanysgrifio yn unig Amazon Music ac Apple Music yn cyrraedd 3.6 miliwn a 2.6 miliwn yn y drefn honno.[5]

Mae ffrydio hefyd wedi sbarduno galw newydd am ddyfnder ac ehangder mewn cerddoriaeth. Mae cyfryngau cymdeithasol yn rhoi ffyrdd arloesol i bobl sy'n mwynhau cerddoriaeth ryngweithio â'u hoff artistiaid a'u dilyn, ac mae ffrydio wedi galluogi cynulleidfaoedd iau yn benodol i ddarganfod cerddoriaeth o'r 60 mlynedd diwethaf sy'n newydd iddyn nhw, a hynny drwy argymhellion a rhestrau chwarae wedi'u curadu. Canfu adroddiad gan Ffederasiwn Rhyngwladol y Diwydiant Ffonograffig (IFPI) fod pobl sy'n mwynhau cerddoriaeth, ar gyfartaledd, bellach yn gwrando ar fwy nag wyth genre gwahanol o gerddoriaeth, a nododd yr adroddiad fod dros 700 o genres gwahanol yn cael eu clywed,[6] gyda genres newydd yn parhau i gael eu creu gan bobl sy'n mwynhau cerddoriaeth mewn cymunedau ar-lein a gwasanaethau ffrydio sy'n cyfateb i hwyliau ac achlysuron gwrando sy'n newid drwy'r amser.


Ond er bod mwy o gerddoriaeth newydd yn cael ei rhyddhau nawr nag erioed o'r blaen, (mae 100,000 o draciau newydd yn cael eu llwytho i fyny i wasanaethau ffrydio bob dydd[7]), mae faint o gerddoriaeth newydd sydd ymysg senglau ac albymau mwyaf poblogaidd y DU sy'n 'gwerthu' fwyaf yn lleihau,[8] gan gyfeirio at bwysigrwydd parhaus arddangos a hyrwyddo artistiaid a thalent newydd yn y DU i gynnal sector creadigol sy'n ffynnu.

Ac er gwaethaf twf ffrydio cerddoriaeth, radio yw'r ffynhonnell fwyaf poblogaidd o hyd ar gyfer darganfod cerddoriaeth ymysg holl gynulleidfaoedd y DU. Radio yw'r ail fwyaf poblogaidd ar gyfer pobl dan 35 oed ar ôl ffrydio, ac mae cyfryngau cymdeithasol hefyd bellach yn rhan bwysig o ddarganfod.

---

[5] MIDAS Hydref 2023 – defnydd wythnosol ffrydio cerddoriaeth a honnir (heb gynnwys podlediadau)
[6] Engaging with Music 2023, IFPI, t.6, t.17
[7] It's happened: 100,000 tracks are now being uploaded to streaming services like Spotify each day, Music Business Worldwide, Hydref 2022
[8] Female artists dominated 2023 music charts – but new acts are being squeezed out, BBC News, Ionawr 2023

**Ffigur 2: Ffynonellau ar gyfer darganfod cerddoriaeth newydd**




*Siart – MIDAS Hydref 2023*

## 2.3 Mae darlledwyr radio yn y DU wedi ymateb i'r heriau hyn

Mae oriau a chyrhaeddiad radio cyffredinol yn y DU yn parhau i fod yn gryf, gyda 49.5 miliwn o oedolion yn y DU yn gwrando ar y radio bob wythnos. Wrth ystyried y cynnydd yn y boblogaeth, mae canran yr oedolion sy'n gwrando bob wythnos wedi aros yn gymharol sefydlog ar 88% yn 2023 o'i gymharu â 91% yn 2010.[9] Mae hyn i raddau helaeth oherwydd y strategaethau a ddilynir gan ddarlledwyr radio yn y DU, y BBC a radio masnachol fel ei gilydd.

### *2.3.1 Mae darlledwyr radio Prydain wedi lansio eu gwasanaethau ar-lein eu hunain*

Yn 2018, lansiwyd BBC Sounds gan y BBC i ddisodli ein hapiau BBC iPlayer Radio a BBC Music.[10] BBC Sounds, gwasanaeth ffrydio sain digidol, yw cartref ar-lein portffolio radio'r BBC, ochr yn ochr â mwy o ddewis o gynnwys podlediadau a cherddoriaeth o ansawdd uchel, gyda mwy o reolaeth dros y profiad gwrando, a nodweddion curadu a phersonoleiddio sy'n ei gwneud yn haws dod o hyd i deitlau perthnasol. Mae'r strategaeth hon wedi cynnwys datblygu rhaglenni cerddoriaeth a chymysgedd o gerddoriaeth ar-alw, dan arweiniad talent, a nodweddion curadu newydd fel Back To Back Sounds, yn ogystal â chyflwyno ffrydiau Radio 1 Dance a Radio 1 Relax yn 2020 a

[9] RAJAR Ch3 2023
[10] Roedd BBC iPlayer yn cynnwys radio gwrando eto pan gafodd ei lansio yn 2007. Yn 2012, lansiwyd BBC iPlayer Radio fel ap ar wahân. Yn 2016, lansiwyd ap BBC Music a oedd yn galluogi defnyddwyr i wrando ar restr chwarae a chlipiau cerddoriaeth.

2021 yn y drefn honno. BBC Sounds yw'r ap sain digidol mwyaf ymysg chwaraewyr sain y DU, gan gyrraedd 4.8 miliwn o ddefnyddwyr wythnosol.[11]

Lansiwyd Global Player gan Global ym mis Tachwedd 2017, gan ddarparu mynediad ar-lein at ei orsafoedd radio byw (ei orsafoedd radio sy'n darlledu a'i orsafoedd / ffrydiau rhyngrwyd yn unig), yn ogystal â radio gwrando eto, podlediadau, rhestrau chwarae a fideos.

Ym mis Mawrth 2023, cyhoeddodd Bauer gynlluniau i lansio ei ap ei hun o'r enw Rayo, gan ddisodli apiau brand presennol Bauer. Mae'n dwyn ynghyd holl wasanaethau radio, rhestrau chwarae a phodlediadau Bauer, ochr yn ochr â gwasanaethau radio drwy danysgrifiad, sy'n cynnwys fersiynau heb hysbysebion o orsafoedd radio byw, yn ogystal â 100 o orsafoedd unigryw ar-lein yn unig i danysgrifwyr. Mae Rayo bellach wedi cael ei lansio, ac ar gael i ddefnyddwyr iOS yn unig ar hyn o bryd.[12]

### *2.3.2 Gorsafoedd lleol masnachol sy'n 'rhwydweithio' o dan frandiau cenedlaethol*

Mae darlledwyr radio masnachol hefyd wedi symleiddio ac ategu eu cynnig i wrandawyr. Mae gofynion rheoleiddio symlach o ran fformatau gorsafoedd masnachol a chanllawiau'n newid ynghylch cynnwys lleol wedi galluogi'r sector radio masnachol i 'rwydweithio' rhaglenni ar draws gorsafoedd a rhannu rhaglenni ar draws rhanbarthau. Erbyn hyn, mae gan frandiau Heart a Capital 46 a 23 o orsafoedd â brand lleol, sy'n cynnwys yr un amserlen a chynnwys i raddau helaeth â gorsafoedd DAB cenedlaethol Heart a Capital, ac eithrio sioe amser gyrru ranbarthol yn ystod yr wythnos a diweddariadau newyddion lleol.[13] Mae llawer o orsafoedd masnachol lleol hefyd wedi ail-frandio o dan frandiau cenedlaethol – mae gan Greatest Hits Network Bauer gyfanswm o 66 gorsaf erbyn hyn.[14]

### *2.3.3 Ehangu gorsafoedd DAB masnachol cenedlaethol, a newid i DAB+*

Mae'r modd mae sbectrwm DAB cenedlaethol yn fwy hygyrch wedi arwain at grwpiau radio masnachol yn ehangu eu portffolios radio cenedlaethol drwy lansio dwsinau o orsafoedd radio cerddoriaeth digidol-yn-unig cenedlaethol, gan dargedu cyfnodau a genres penodol gyda chynigion cerddoriaeth penodol i wella'r broses ddarganfod. Mae llawer o orsafoedd masnachol hefyd wedi cael eu newid o DAB safonol i DAB+, gan ei fod yn fwy effeithlon, gan ganiatáu i fwy o wasanaethau gael eu darlledu ar yr un plethiad gyda'r un ansawdd sain. Erbyn hyn, mae 53 o orsafoedd radio cerddoriaeth masnachol digidol-yn-unig cenedlaethol ar DAB/DAB+ yn y DU, o'i gymharu ag 11 yn 2018.[15]

---


[11] Cyfrifiadau wythnosol cyfartalog BBC Sounds yn seiliedig ar ddata dadansoddi'r BBC Ch3 2023.
[12] Magic and Greatest Hits Radio become latest Bauer brands to launch premium subscription service, Bauer Media Group, Chwefror 2023
[13] RAJAR Ch3 2023
[14] Where is tomorrow's listener? UK radio in 2023, Enders Analysis, Medi 2023
[15] RAJAR Ch3 2023, dadansoddiad y BBC

## 2.4 Sut mae'r newidiadau hyn wedi effeithio ar ymddygiad gwrando ar y radio yn y DU

Mae'r cyfuniad o'r holl effeithiau hyn wedi cael effaith sylweddol ar wrando ar y radio yn y DU, a rôl y BBC yn y farchnad.

Gyda'i gilydd, mae radio masnachol wedi cyrraedd y lefel uchaf erioed yn 2023 gyda 39.3 miliwn, 7.5 miliwn yn fwy na radio'r BBC. Gyda'i gilydd, roedd radio masnachol hefyd yn fwy na chyfran radio'r BBC am y tro cyntaf ym mis Mehefin 2022.[16]


**Ffigur 3: Radio'r BBC vs Radio Masnachol, Tuedd cyrhaeddiad, 2013-2024**




*Ffynhonnell: RAJAR*

[16] RAJAR Ch3 2023

**Ffigur 4: Radio'r BBC vs Radio Masnachol, cyfran y gwrando, 2013-2024**




*Ffynhonnell: RAJAR*

Mae hefyd yn amlwg bod radio masnachol wedi bod yn perfformio'n well gyda grwpiau iau a'r rheini o grwpiau economaidd-gymdeithasol is. Ymysg cynulleidfaoedd 35-54 oed, bu cynnydd o 8.2% yn y cyrhaeddiad ar gyfer radio masnachol o'i gymharu â gostyngiad o 16.5% ar gyfer radio'r BBC ers 2013.[17] Ymysg pobl ifanc 15-34 oed, mae gan radio masnachol gyrhaeddiad o 11.2 miliwn, 3.9 miliwn yn fwy na Radio'r BBC, ac mae'n cyrraedd bron i ddwy ran o dair o'r boblogaeth 15-34 bob wythnos (vs 42.6% ar gyfer y BBC). O ran cyfran yr oriau radio cerddoriaeth, mae gan y BBC 29% o'r amser a dreulir gan unigolion 16-34, o'i gymharu â 71% ar gyfer radio masnachol.[18] Yn yr un modd, ymysg grwpiau economaidd-gymdeithasol is, mae cynulleidfaoedd C2DE yn cynrychioli 38% o gynulleidfaoedd Radio'r BBC, a 44% o gynulleidfaoedd radio masnachol.[19]

## 2.5 Datblygiadau ers ein hymgynghoriad

### *2.5.1 Ffrydiau BBC Sounds-yn-unig*

Fel y nodwyd yn ein hymgynghoriad ym mis Chwefror, rydyn ni hefyd yn cynnig ail-lansio ffrwd Radio 1 Dance a lansio tair ffrwd ychwanegol sy'n ymestyn y brand fel ffrydiau Sounds-yn-unig ar BBC Sounds yn 2024, yn amodol ar asesiad perthnasedd – fel proses reoleiddio ar wahân i'r Prawf Budd y Cyhoedd hwn.

Cwblhaodd y BBC yr asesiadau perthnasedd ar gyfer y tair ffrwd ychwanegol sy'n ymestyn y brand ym mis Mai 2023. Adolygodd Ofcom ein hasesiadau ac ar 16 Gorffennaf 2024 cyhoeddodd, er ei fod yn cytuno â'r ffrydiau Sounds-yn-unig ar gyfer estyniadau

[17] RAJAR Ch3 2023 vs. Ch3 2013
[18] RAJAR Ch3 2023
[19] RAJAR Ch3 2023

newydd Radio 1 a Radio 3, ei fod wedi penderfynu bod y ffrwd Sounds-yn-unig ar gyfer estyniad Radio 2 yn newid sylfaenol gan ei fod yn newid a allai gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Felly, dywedodd Ofcom wrth y BBC am roi'r gorau i wneud y newid arfaethedig mewn perthynas ag ymestyn y ffrwd Sounds-yn-unig ar gyfer Radio 2. Roedd Ofcom hefyd yn cytuno nad oedd y newidiadau golygyddol roedden ni'n eu gwneud i Radio 1 Dance – h.y. comisiynu ei raglenni gwreiddiol ei hun – yn newid sylfaenol. Fe wnaethon ni gadarnhau ein bod wedi rhoi'r gorau i'n cynlluniau ar gyfer ffrwd Sounds-yn-unig estyniad Radio 2.

Ym mis Gorffennaf 2024, dechreuodd ffrwd Radio 1 Dance Sounds-yn-unig ddarlledu ei chynnwys cyntaf a oedd wedi'i gomisiynu'n wreiddiol.

Rydyn ni nawr wedi cyhoeddi y bydd y ddwy ffrwd Sounds-yn-unig newydd yn cael eu lansio ym mis Tachwedd 2024 fel Radio 1 Anthems a Radio 3 Unwind. Os bydd y gorsafoedd radio llawn yn cael cymeradwyaeth reoleiddiol gan Ofcom, bydd y ffrydiau Sounds-yn-unig hyn yn cael eu cynnwys yn y gorsafoedd llawn.

Mae'n bwysig nodi, fel y nodwyd yn ein hymgynghoriad ym mis Chwefror, bod y broses prawf budd y cyhoedd ar gyfer y gorsafoedd radio llawn yn cynnwys effaith gwrando ar radio sy'n cael ei ddarlledu (h.y. DAB+) ac ar-lein (h.y. Sounds, apiau eraill a seinyddion clyfar). Mae ein hamcangyfrifon ar gyfer effaith y gorsafoedd newydd, fel sydd wedi'u nodi yn ein hymgynghoriad ym mis Chwefror 2024 a'u dadansoddi'n fanwl yn adran 6 ar effaith ar y farchnad, yn cynnwys gwrando ar y radio ac ar-lein o'i gymharu â sefyllfa wrthffeithiol o ddim estyniadau newydd. Felly, dydy cymeradwyo neu beidio â chymeradwyo'r asesiadau perthnasedd ar gyfer y ffrydiau Sounds-yn-unig ddim yn cael unrhyw effaith ar y dadansoddiad hwn.

### *2.5.2 Datblygiadau radio masnachol*

Ar 12 Medi 2024, lansiodd Global 12 gorsaf radio newydd, a ddisgrifiodd fel "y lansiad mwyaf erioed yn hanes radio'r DU".[20] Roedd dwy o'r rhain yn orsafoedd cenedlaethol – Capital Anthems a Smooth 80s. Mae'r 10 arall ar gael ar DAB yn Llundain. Mae'r holl orsafoedd ar gael yn genedlaethol drwy ap ar-lein Global Player. Dyma'r gorsafoedd newydd:

- Capital Anthems
- Classic FM Calm
- Classic FM Movies
- Heart 10s
- Heart Love
- Heart Musicals
- Radio X Chilled
- Radio X 90s
- Radio X 00s
- Smooth 70s
- Smooth 80s
- Smooth Soul

[20] 12 brand new stations go live today!, Global, 12 Medi 2024

Ar yr un diwrnod, fe wnaeth Global ailenwi Gold yn Gold Radio, a lansio gwefan, logo, jinglau ac is-bennawd newydd (‘All Time Classics’ yn lle ‘Greatest Hits of All Time’).[21]

Ar 16 Medi 2024, lansiodd Bauer Greatest Hits Radio 60s, sydd ar gael yn genedlaethol ar DAB a’i ap Rayo. Ym mis Medi hefyd, cafodd Scala ei ail-frandio i fod yn Magic Classical, Magic Chilled yn Hits Radio Chilled, cyhoeddwyd y byddai Hits Radio yn cymryd lle KISS ar FM yn Llundain, Norfolk a Gorllewin Lloegr ac y byddai Kisstory R&B yn cael ei lansio ar DAB+ yn genedlaethol.

Mae’r gwaith lansio ac ail-frandio hyn yn enghreifftiau unigol o duedd macro ehangach: ehangu ac ail-lunio portffolios radio masnachol yn gyson mewn ymateb i anghenion gwrandawyr sy’n newid, bylchau yn y farchnad, a chystadleuaeth fasnachol ddwys.

Wrth i gynulleidfaoedd symud o radio cerddoriaeth prif ffrwd i restrau chwarae ar-alw, mae estyniadau yn cynnig ffordd i radio ddarparu ar gyfer yr achlysuron gwrando hynny gyda hwyliau neu genre penodol. Mae’r cynnig hwn yn tueddu i fod yn gerddoriaeth bur yn hytrach na gwasanaethau radio brand y brif orsaf, mewn ymgais i ddenu mwy i wrando o lwyfannau cerddoriaeth ar-alw. Yn wir, mae radio masnachol yn cynnig y dewis gorau i wrandawyr, ac yn cynnig rhywbeth i bawb fwy a mwy, boed yn ddegawdau, genres, hwyliau.

Mae’r ffaith ei bod yn ymddangos bod cynigion yn cael eu dyblygu, hyd yn oed mewn un cwmni masnachol, yn dangos bod lle yn y farchnad a bod gan y gynulleidfa awydd i fwynhau hwyliau neu genre unigol mewn sawl ffordd e.e. Capital Dance yn erbyn Heart Dance (sy’n rhan o Global) yn erbyn Kiss Dance (Bauer). Mae hefyd yn dangos awydd i gwmnïau radio masnachol feddiannu tiriogaethau cyfatebol, cyn belled ag y bo modd, e.e. lansio Heart 00s a Heart 10s (o’u cymharu â  gwasanaethau presennol Absolute 10s ac Absolute 00s), lansio Heart Musicals (o’i gymharu â’r gwasanaeth presennol Magic at the Musicals), a’r enw newydd, Gold Radio (o’i gymharu â Greatest Hits Radio a Boom Radio).

[21] Gold gets new branding, Radio Today, 12 Medi 2024

# 3. Cynigion cyntaf y BBC ar gyfer gorsafoedd radio cerddoriaeth newydd ar DAB+ ac ar-lein

## 3.1 Rhesymeg gyffredinol dros y gorsafoedd newydd


Dydy'r BBC ddim wedi newid ei bortffolio o orsafoedd radio yn sylweddol ers iddo lansio 1Xtra, Asian Network, Radio 4 Extra, 5 Sports Extra a 6 Music fel gorsafoedd DAB yn 2002. Mae ein cynnig i lansio pedair gorsaf gerddoriaeth DAB+ newydd yn ymateb i'r twf sylweddol yn nifer y gorsafoedd sy'n cystadlu i wasanaethu gwrandawyr a'r newidiadau yn ymddygiad cynulleidfaoedd, sy'n cael eu siapio gan ffrydio cerddoriaeth ar-alw ac ymateb y sector radio masnachol i'r newid ymddygiad hwnnw.

### *3.1.1 Gwasanaethu cynulleidfaoedd nad ydyn nhw'n cael eu gwasanaethu'n ddigonol*

Mae Siarter y BBC yn ei gwneud yn ofynnol i ni wasanaethu'r holl gynulleidfaoedd drwy ddarparu allbwn a gwasanaethau diduedd a neilltuol o safon sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu.[22] Yn ei adroddiadau blynyddol ar y BBC, mae Ofcom – er ei fod yn cydnabod ymdrechion y BBC i ymateb – wedi codi pryderon yn gyson ynghylch perfformiad y BBC gyda chynulleidfaoedd o grwpiau economaidd-gymdeithasol is a chynulleidfaoedd iau.

Fel y gwelir o'r siart isod, mae portffolio presennol gorsafoedd radio'r BBC ar y cyfan yn gwyro at wrandawyr hŷn a mwy ABC1 na radio masnachol a phoblogaeth y DU. Dim ond BBC Radio 1, 1Xtra ac Asian Network sy'n denu cynulleidfaoedd C2DE o gymharu â phoblogaeth y DU.

**Ffigur 5: Proffil oed ac economaidd-gymdeithasol gorsafoedd cerddoriaeth y BBC a Radio Masnachol**




*Ffynhonnell: RAJAR*

---

[22] Siarter Frenhinol y BBC, erthygl 5

Bydd y gorsafoedd cerddoriaeth newydd hyn sy'n cael eu curadu o amgylch genres a chyfnodau penodol o gerddoriaeth yn helpu'r cynulleidfaoedd hynny nad ydyn nhw'n cael eu gwasanaethu'n ddigonol i ddod o hyd i'r gorau o'r BBC drwy gynigion sydd wedi'u brandio'n glir, gan adeiladu ar frandiau radio cerddoriaeth y BBC, sydd ar gael ar DAB+ ac ar-lein drwy BBC Sounds. Yn benodol:

- Nod estyniad newydd Radio 1 yw rhoi mwy o werth i gynulleidfaoedd iau o grwpiau C2DE sy'n cael llai o werth gan y BBC, gydag arlwy o gerddoriaeth sy'n canolbwyntio ar y gynulleidfa hon;
- Bydd estyniad Radio 2 yn targedu cynulleidfaoedd C2DE dros 55 oed;
- Mae'r estyniad ar gyfer Radio 3 wedi'i anelu at gynulleidfaoedd rhwng 35 a 54 oed, sy'n iau na'r oedran cyfartalog ar gyfer Radio 3 a gorsafoedd clasurol eraill.[23] Bydd hyn yn helpu i ddenu mwy o gynulleidfa i gerddoriaeth glasurol yn y DU, ac yn diwallu hwyliau ac anghenion cynulleidfaoedd modern yn well.

Mae'r ffactorau hyn, yn benodol, wedi cyfrannu at y broses o ddewis gorsafoedd a thargedu cynulleidfaoedd ar gyfer ein cynigion, i wneud mwy dros y cynulleidfaoedd iau a C2DE hyn sydd ar hyn o bryd yn cael llai o werth gan y BBC, gyda chynigion penodol, sy'n adeiladu ar frandiau cerddoriaeth y BBC sydd â'r cysylltiad cryfaf â'r grwpiau hyn o gynulleidfaoedd.

- Awgryma dadansoddiad Ofcom fod grwpiau D ac E yn fwy tebygol o dreulio mwy o'u hamser sain wythnosol ar radio byw o'i gymharu â grwpiau eraill (64% vs 56% ar gyfer grwpiau AB).
- Mae'n llawer gwell gan gynulleidfa iau (sy'n treulio 91% o'u hamser gwrando ar y radio yn gwrando ar radio cerddoriaeth) a'r gynulleidfa C2DE wrando ar gerddoriaeth yn hytrach na radio llafar.
- Mae cerddoriaeth o'r 2000au a 2010au yn gor-fynegeio ar gyfer cynulleidfaoedd 15-34 oed ac ar gyfer cynulleidfaoedd C2DE o dan 35 oed.
- Mae cerddoriaeth o'r 1960au a'r 1970au yn gor-fynegeio ar gyfer cynulleidfaoedd 55 oed a hŷn C2DE.[24]
- Dydy dros hanner cynulleidfa ifanc Radio 1 ddim yn gwrando ar unrhyw orsaf arall Radio'r BBC, ac mae'r un peth yn wir am gynulleidfa C2DE Radio 2.

### *3.1.2 Gwasanaethu hwyliau ac anghenion cynulleidfaoedd modern yn well*

Bydd y gorsafoedd cerddoriaeth newydd yn gwasanaethu hwyliau ac anghenion cynulleidfaoedd modern yn well.

Mae ein hymchwil wedi canfod bod cynulleidfaoedd modern yn teimlo nad yw'r BBC yn gwasanaethu hwyliau ac anghenion penodol yn ddigonol.[25] Yn benodol, roedd yr ymchwil hwn yn nodi bod angen arlwy fwy hamddenol a diddan ar gynulleidfaoedd.

Wrth ofyn i gynulleidfaoedd am y prif resymau dros wrando ar y radio, mae 'darganfod cerddoriaeth newydd' a 'helpu fi i ddianc rhag bywyd bob dydd' yn gor-fynegeio ar gyfer

[23] RAJAR Ch3 2023
[24] IPA Touchpoints, 2023
[25] Ymchwil 'Soundcheck' a gomisiynwyd gan y BBC 2022

cynulleidfaoedd 16-34 oed, tra bod 'codi fy hwyliau' yn gor-fynegeio ar gyfer cynulleidfaoedd C2DE.[26]

Mae'r ymchwil hwn wedi llywio'r dewis o orsafoedd i'w dilyn er mwyn diwallu anghenion hwyliau gwrandawyr modern yn well – yn enwedig teimlo'n dda o dreiddio'n ddwfn i'w hoff gyfnod, hwb egni o gerddoriaeth ddawns fywiog a gwrando'n dawel ar gerddoriaeth glasurol ar adegau allweddol yn ystod y dydd.

Bydd yr amserlenni'n cael eu sbarduno gan gyfateb i hwyliau cynulleidfaoedd yn hytrach nag yn ôl amser o'r dydd yn unig, gydag amserlenni symlach a llawer llai o oriau byw na gorsafoedd radio cerddoriaeth rhwydwaith presennol y BBC. Ni fydd y gorsafoedd newydd hyn yn cynnal bwletinau newyddion gan mai gorsafoedd cerddoriaeth sy'n seiliedig ar hwyliau yw'r rhain yn bennaf, ac mae ymchwil yn dweud wrthym ni nad yw gwrandawyr sy'n chwilio am raglen ysgafn ac ymlaciol eisiau unrhyw beth yn torri ar draws y dôn a'r naws.[27]

### *3.1.3 Cefnogi creadigrwydd cynhenid*

Byddwn yn dod â chynulleidfaoedd yn agosach at genres a chyfnodau o gerddoriaeth maen nhw'n eu caru fwyaf, gyda chyd-destun, curadu ac adrodd straeon drwy gerddoriaeth y gall y BBC a'i archif unigryw yn unig ei wneud.

Bydd pob un o'r gorsafoedd newydd yn cynnwys rhaglenni cerddoriaeth o ansawdd uchel sy'n cael eu harwain gan dalent, gan chwarae amrywiaeth eang o draciau a chynnig mwy o arbenigedd ar genres na'r farchnad, gan ddefnyddio arbenigedd a gwybodaeth curaduron a chyflwynwyr y BBC, ac archif unigryw'r BBC o glipiau, cyfweliadau a pherfformiadau byw sy'n adrodd stori cerddoriaeth y DU. Byddan nhw'n canolbwyntio ar gerddoriaeth y DU, ac yn achos Radio 1 Dance ac estyniad Radio 3, byddan nhw'n hyrwyddo ac yn arddangos cerddoriaeth newydd, ac yn cefnogi perfformiadau byw ar draws digwyddiadau allweddol fel y Proms a Dance Weekend: Ibiza Radio 1.

### *3.1.4 Newid i ddyfodol digidol yn gyntaf*

Bydd cynulleidfaoedd yn gallu gwrando ar y gorsafoedd yn fyw ar DAB+ a BBC Sounds, ac mae DAB+ yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o gyrraedd grwpiau o gynulleidfaoedd nad ydyn nhw'n cael eu gwasanaethu'n ddigonol mewn ffordd gost-effeithiol. Bydd DAB+ hefyd yn chwarae rhan hanfodol a chost-effeithiol i annog y newid digidol i BBC Sounds, lle gall cynulleidfaoedd fwynhau swyddogaethau gwrando byw ychwanegol (er enghraifft, rhewi a mynd yn ôl, gweld y trac sy'n chwarae) a pharhau â'u teithiau gwrando i ganfod rhagor o benodau a chynnwys perthnasol arall sydd ar gael ar-alw, mewn profiad gwell a mwy personol.

## 3.2 Ein cynigion cychwynnol ar gyfer estyniad Radio 1 Dance

Ym mis Hydref 2020, fe wnaethon ni lansio Radio 1 Dance fel ffrwd ar-lein yn unig ar BBC Sounds, fel llwyfan ar gyfer cynnwys a oedd eisoes ar gael ar Sounds. Yn ein dogfen ymgynghori, roedden ni yn cynnig ail-lansio Radio 1 Dance fel gorsaf radio ar DAB+, gan wella'r hyn sy'n cael ei gynnig i gynulleidfaoedd drwy gyflwyno rhai comisiynau newydd a

[26] IPA Touchpoints, 2023
[27] Ymchwil Soundcheck a gynhaliwyd gan MTM ar gyfer y BBC yn 2022

darparu llwyfan mwy ar DAB+ i ddangos buddsoddiad creadigol y BBC mewn cerddoriaeth ddawns, gan adrodd stori genre sy'n apelio'n fawr at bobl ifanc, cefnogi datblygiad artistiaid newydd o'r DU, ac adlewyrchu'r sîn i gynulleidfa ehangach, gan helpu i gynhyrchu caneuon byd-eang o'r DU.

Roedden ni'n nodi:

- Cynulleidfa darged 15-34 oed, gan ddarparu mwy o werth i gynulleidfaoedd iau o grwpiau C2DE yn arbennig;
- Amrywiaeth ehangach o gerddoriaeth nag unrhyw orsaf debyg, gyda thua 3,273 o draciau unigryw bob blwyddyn;
- Byddai tua thraean o'r gerddoriaeth yn ystod y dydd yn gerddoriaeth newydd;
- Tua 45% o'r traciau gan artistiaid o'r DU;
- Sylw i ddigwyddiadau byw.

### 3.3 Ein cynigion cychwynnol ar gyfer estyniad Radio 1 Anthems

Yn ein dogfen ymgynghori, roedden ni'n cynnig y byddai estyniad newydd Radio 1 yn cynnig y cyfle i gynulleidfaoedd iau rhwng 15 a 34 oed gael gwybodaeth fanwl am y traciau a'r artistiaid eiconig sydd wedi siapio'r ddau ddegawd diwethaf, gan eu helpu i ddarganfod ac ailddarganfod amrywiaeth eang o gerddoriaeth ac artistiaid sy'n cael eu cefnogi gan Radio 1 o'r 2000au a 2010au. Bydd yn darparu gorsaf benodol i bobl ifanc allu camu'n ôl i'r gorffennol drwy lais talent ifanc – y tu ôl i'r microffon ac o'i flaen – gan ddatblygu sgiliau curadurol maen nhw'n eu defnyddio fwyfwy erbyn hyn yn y gofod digidol.

Roedden ni'n nodi:

- Cynulleidfa darged 15-34 oed, gan ddarparu mwy o werth i gynulleidfaoedd iau o grwpiau C2DE yn arbennig;
- Amrywiaeth ehangach o gerddoriaeth nag unrhyw orsaf debyg, gyda thua 4,000 o draciau unigryw bob blwyddyn;
- Tua thraean o'r traciau gan artistiaid o'r DU;
- Sesiynau byw, ac ati, o'r archif.

### 3.4 Ein cynigion cychwynnol ar gyfer estyniad Radio 2

Bydd estyniad Radio 2 yn rhoi cipolwg unigryw ar hen ganeuon pop, gan dyrchu drwy'r gerddoriaeth ac archif unigryw'r BBC yn bennaf o'r 1950au, y 1960au a'r 1970au. Bydd yr amserlen yn cael ei rhaglennu'n benodol i gynnig dihangfa – gwasanaeth cyhoeddus pwysig. Rydyn ni'n gwybod bod cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi cael ailymweld â cherddoriaeth a straeon eu hieuenctid – *Sounds of the 60s* Radio 2 yw'r teitl cerddoriaeth ar-alw y mae pobl yn gwrando fwyaf arno ar BBC Sounds.[28] Mae'r orsaf hon yn cynnig cyrchfan benodol sydd bob amser ar gael i gynulleidfaoedd i wella'r dasg o ganfod yr amrywiaeth eang o gynnwys cerddoriaeth sydd ar gael drwy BBC Sounds, y tu hwnt i raglenni 'Sounds of...' ar brif amserlen Radio 2. Bydd yr amserlen yn cael ei rhaglennu mewn modd sensitif i gynnig arlwy sy'n ategu Radio 2.

[28] Dadansoddiadau BBC Sounds Ch3 2023

Roedden ni'n nodi:

- Cynulleidfa darged 55 oed a hŷn, gan ddarparu mwy o werth i'r rhai o grwpiau C2DE yn arbennig;
- Amrywiaeth ehangach o gerddoriaeth na'r rhan fwyaf o orsafoedd tebyg, gyda thua 5,000 o draciau unigryw bob blwyddyn;
- Tua 40% o'r traciau gan artistiaid o'r DU;
- Sesiynau byw, ac ati, o'r archif.
- Cynnwys llafar sy'n cynnwys y gorau o archif y BBC.

### 3.5 Ein cynigion cychwynnol ar gyfer estyniad Radio 3 Unwind

Bydd yr estyniad ar gyfer Radio 3 yn cynnig profiad cerddoriaeth glasurol sy'n dawel ac yn hamddenol ac yn cefnogi arferion dyddiol gwrandawyr, yn eu helpu i ddianc rhag pwysau a straen bywyd bob dydd ac yn hyrwyddo eu lles. Drwy gydol y dydd, cynigir cynnwys sy'n hyrwyddo ffocws, yn helpu gwrandawyr i fwrw eu blinder, ymlacio a chael cyfle i ddianc i fyd arall yn ogystal â helpu i orffwyso a chysgu.

Roedden ni'n nodi:

- Cynulleidfa darged 35 i 54 oed, iau na'r oedran cyfartalog ar gyfer Radio 3 a gorsafoedd clasurol eraill[29] gyda'r nod o ehangu'r gynulleidfa i gerddoriaeth glasurol yn y DU;
- Mwy o gerddoriaeth, gan ddefnyddio llyfrgell o tua 8,000 o draciau bob blwyddyn, gan amrywiaeth ehangach o gyfansoddwyr na gorsafoedd masnachol;
- Hyrwyddo cyfansoddiadau newydd, cyfansoddwyr byw a recordiadau newydd, gyda thua 15% o'r gerddoriaeth sy'n cael ei chwarae yn recordiadau a ryddhawyd yn ystod y 12 mis blaenorol;
- Amrywiaeth eang o ganeuon gan amrywiaeth o gyfansoddwyr o Brydain, a chefnogaeth i artistiaid, ensembles a chyfansoddwyr newydd o Brydain;
- Cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi'i recordio'n arbennig bob wythnos, yn ogystal â chefnogi gŵyl Proms y BBC;
- Cyfuniad unigryw a gafaelgar o ddeunydd llafar a cherddoriaeth.

### 3.6 Ein cynigion cychwynnol ar gyfer dosbarthu'r gorsafoedd arfaethedig

Yn ein dogfen ymgynghori, fe wnaethon ni ddweud mai'r gorsafoedd radio cerddoriaeth arfaethedig fyddai'r gorsafoedd radio cenedlaethol cyntaf yn y BBC sy'n cael eu dosbarthu ar DAB+ yn hytrach na DAB safonol. Fe wnaethon ni hefyd ddweud y bydden nhw'n cael eu dosbarthu yn yr un ffordd i raddau helaeth â gorsafoedd radio cenedlaethol presennol y BBC, h.y. ar draws radio digidol, BBC Sounds, a seinyddion clyfar.

### 3.7 Ein cynigion cychwynnol ar gyfer cyllideb y gorsafoedd arfaethedig

Yn ein hymgynghoriad ym mis Chwefror, fe wnaethon ni nodi y bydd cyfanswm y gyllideb barhaus ar gyfer y pedair gorsaf newydd yn £3.1 miliwn y flwyddyn, gan gynnwys costau gweithrediadau, staff, technoleg a chynnwys ychwanegol. Roedden ni'n glir nad oedd y gyllideb hon yn cynnwys costau hawliau cerddoriaeth ychwanegol, gan fod hyn yn

[29] RAJAR Ch3 2023

fasnachol sensitif ac yn amodol ar drafodaethau. Rydyn ni'n nodi'r costau staff a chynnwys ar gyfer pob un o'r gorsafoedd.

Bydd costau staff a chynnwys yn cael eu hariannu drwy ail-flaenoriaethu cyllid o BBC Sounds a gorsafoedd radio Rhwydwaith y BBC. Fydd dim angen cynnydd o gwbl yn y gyllideb ar gyfer Radio Rhwydwaith a BBC Sounds yn sgil y gorsafoedd newydd.

# 4. Adborth rhanddeiliaid

Ar 14 Chwefror 2024, lansiodd y BBC ymgynghoriad Prawf Budd y Cyhoedd ar y cynlluniau sydd wedi'u nodi yn Adran Tri. Pwrpas yr ymgynghoriad oedd ceisio barn, gan randdeiliaid y diwydiant yn bennaf, i'n helpu i fireinio ein cynigion. Roedd hwn yn gam angenrheidiol, gan fod angen i ni gynnal dadansoddiad da o werth cyhoeddus ein cynigion yn ogystal â'r effaith bosibl ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, fel sy'n ofynnol yn ôl Prawf Budd y Cyhoedd.

Cawsom 164 o ymatebion i'n hymgynghoriad, a oedd yn cynnwys 16 gan randdeiliaid y diwydiant (11 gan randdeiliaid sefydliadau a 5 gan randdeiliaid unigol) a 147 gan aelodau'r cyhoedd. Roedd yr ymatebion gan aelodau'r cyhoedd yn canolbwyntio ar estyniad Radio 2 ac roedd llawer wedi dilyn cais Boom Radio i'w wrandawyr fynegi pryderon am y cynnig.

Mae crynodeb o'r ymatebion hynny yn Atodiad 2 ac mae ymatebion nad ydyn nhw'n gyfrinachol gan randdeiliaid wedi cael eu cyhoeddi ar ein gwefan ochr yn ochr â'r ddogfen hon. Isod, rydyn ni'n nodi rhai o'r themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg, sydd wedi helpu i lywio ein cynigion terfynol a nodir yn adran 5.

Mae'r ymatebion wedi'u rhannu fel a ganlyn: Radio Masnachol (gydag ymatebion gan Radiocentre, News UK, Boom Radio a'r Advertising Association); y Diwydiant Cerddoriaeth (gydag ymatebion gan UK Music, PRS for Music, Music Publishers Association, The Featured Artists Coalitions a'r Music Managers Forum); Cynhyrchu (Audio UK) a Grwpiau Cynulleidfa a Chynulleidfaoedd (The Voice of the Listener and Viewer ac ymatebion gan aelodau o'r cyhoedd). Cafwyd nifer o ymatebion gan randdeiliaid unigol hefyd.

Yn gyffredinol, doedd ymatebwyr Radio Masnachol ddim o blaid y cynigion, gan ddadlau nad oedden nhw'n cael gwerth cyhoeddus ac nad oedden nhw'n mynd y tu hwnt i'r hyn sy'n cael ei ddarparu'n barod gan y farchnad fasnachol. Roedden nhw'n dadlau bod y gorsafoedd arfaethedig yn peri risg sylweddol i'r farchnad.

Roedd ymatebwyr o'r Diwydiant Cerddoriaeth yn cefnogi'r cynigion ar y cyfan, gan gydnabod rôl hanfodol y BBC mewn perthynas â'r Diwydiant Cerddoriaeth ym Mhrydain. Roedden nhw'n cydnabod bod y cynigion yn cynnig manteision i ddiwydiant cerddoriaeth Prydain ac i gynulleidfaoedd.

Roedd y grŵp cynulleidfa, VLV, hefyd yn cydnabod gwerth cyhoeddus posibl y cynigion. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion gan aelodau o'r cyhoedd yn canolbwyntio ar estyniad Radio 2 a'i fygythiad canfyddedig i Boom Radio, felly doedden nhw ddim yn gefnogol.

## 4.1 Adborth rhanddeiliaid ar gynulleidfaoedd nad ydyn nhw'n cael eu gwasanaethu'n ddigonol

### *4.1.1 Grwpiau cynulleidfa a chynulleidfaoedd*

Roedd VLV yn cefnogi'r cynigion ac yn croesawu'r cynllun i wasanaethu cynulleidfaoedd iau a C2DE yn well.

### 4.1.2 Radio masnachol

Roedd Radiocentre yn gwrthwynebu'r cynigion, gan ddweud bod honiad y BBC y byddai'n gwneud mwy i gynulleidfaoedd nad ydyn nhw'n cael eu gwasanaethu'n ddigonol yn 'anargyhoeddiadol' ac yn cam-gyfleu her Ofcom i'r BBC. Roedd yn dadlau bod y BBC yn cyfuno cynulleidfaoedd nad ydyn nhw'n cael eu gwasanaethu'n ddigonol â chynulleidfaoedd yr oedd y BBC yn ei chael yn anodd eu cyrraedd, ond a oedd yn cael gwasanaeth da gan radio masnachol.

Mewn ymateb i'r estyniad arfaethedig i Radio 2, roedd Boom Radio yn dadlau nad oedd unrhyw dystiolaeth i gefnogi honiad y BBC y byddai'r orsaf yn apelio at wrandawyr C2DE nac yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd gan Ofcom bod angen i'r BBC ymgysylltu'n well â grwpiau economaidd-gymdeithasol D ac E. Roedd yn awgrymu bod y gynulleidfa darged o bobl dros 55 oed yn union yr un fath â chynulleidfa darged Boom ac yn cwestiynu a fyddai'r orsaf arfaethedig yn targedu'r gynulleidfa hon, sef demograffeg sydd eisoes yn cael ei gwasanaethu'n dda gan Radio'r BBC (a Radio 2 yn benodol). Roedd yn awgrymu y gallai'r BBC geisio adennill gwrandawyr hŷn drwy newidiadau i'r orsaf Radio 2 bresennol a radio lleol y BBC – a fyddai hefyd yn gwasanaethu cynulleidfaoedd C2DE yn well.

Roedd News UK hefyd yn gwrthwynebu'r estyniad arfaethedig i Radio 2, yn ogystal â'r estyniad arfaethedig i Radio 1. Fel Boom, roedd News UK yn awgrymu nad oedd y BBC wedi darparu llawer o dystiolaeth i gefnogi'r syniad y byddai'r gorsafoedd yn helpu'r BBC i wasanaethu cynulleidfaoedd iau a C2DE.

Mewn ymateb i'r estyniad arfaethedig i Radio 3, roedd un arall o randdeiliaid y diwydiant yn croesawu strategaethau i apelio at gynulleidfa C2DE, ond nid oedd yn credu bod y cynigion yn glir ynghylch sut byddai estyniad Radio 3 yn apelio'n benodol at y gynulleidfa hon. Roedd yn dadlau y byddai cysylltiad yr estyniad â Radio 3 yn ei wyro'n naturiol tuag at gynulleidfa ABC1 Radio 3. Yn hytrach na lansio rhyw fath o orsaf ymlacio, roedd yn awgrymu y dylai'r BBC gadw'r 'casgliad' presennol o raglenni ymlacio ar draws ei rwydweithiau presennol. Mae'r ymatebydd yn cefnogi hyn gan ei fod yn caniatáu i wahanol grwpiau oedran a grwpiau economaidd-gymdeithasol archwilio byd cerddoriaeth ymlacio.

### 4.1.3 Rhanddeiliaid y diwydiant cerddoriaeth

Roedd PRS for Music yn croesawu'r estyniadau arfaethedig, gan gydnabod y bydden nhw'n gwasanaethu cymunedau amrywiol ac yn cefnogi'r economi greadigol.

Yn yr un modd, roedd yr MPA ac MCPS yn cefnogi'r cynigion, yn enwedig estyniad Radio 3, gan argymell bod y BBC yn ymestyn y gynulleidfa darged i gynnwys pobl dan 35 oed. Roedden nhw wedi cyfeirio at ymchwil RPO (Rhagfyr 2023) sy'n dangos bod gan gynulleidfaoedd iau ddiddordeb cynyddol mewn cerddoriaeth glasurol (oherwydd gemau/ffilmiau) ac mae'r BBC mewn sefyllfa unigryw i weithredu fel pwynt mynediad i'r rhain.

### 4.1.4 Ein hymateb

Rydyn ni'n dal i gredu y bydd y gorsafoedd arfaethedig yn gwasanaethu cynulleidfaoedd sydd ar hyn o bryd yn cael llai o werth gan wasanaethau sain y BBC, gan gynnwys cynulleidfaoedd iau a chynulleidfaoedd C2DE hŷn.

Drwy adeiladu ar frandiau cerddoriaeth y BBC sydd â'r cysylltiad cryfaf â chynulleidfaoedd iau a C2DE sy'n cael llai o werth gan y BBC, rydyn ni'n ceisio gwneud mwy ar gyfer y cynulleidfaoedd hyn. Bydd y gorsafoedd newydd hyn yn helpu'r cynulleidfaoedd hyn i ddarganfod y gorau o'r BBC drwy gynigion wedi'u brandio'n glir sy'n seiliedig ar genres a chyfnodau penodol o gerddoriaeth.

Ar ôl ystyried adborth gan randdeiliaid, rydyn ni wedi cofnodi ein cynigion terfynol ar gyfer y gorsafoedd yn Adran 5 isod. Mae ein cynlluniau ar gyfer Radio 1 Dance a Radio 1 Anthems yn parhau i fod yr un fath o ran sylwedd (yn anelu at ddatblygu ac ymgysylltu â chynulleidfa amrywiol 15-24 oed ledled y DU, gan ddarparu mwy o werth i gynulleidfaoedd iau o grwpiau C2DE), yn yr un modd â'n cynlluniau ar gyfer Radio 3 Unwind (sy'n ceisio gwasanaethu cynulleidfaoedd 35-54 oed, iau na'r oedran cyfartalog ar gyfer Radio 3 a gorsafoedd clasurol eraill[30]). Rydyn ni wedi ailddatblygu ein cynnig yn sylweddol ar gyfer yr estyniad Radio 2, sy'n cryfhau apêl yr orsaf i dargedu cynulleidfa darged 55 oed a hŷn, gan roi mwy o werth i'r rhai o grwpiau C2DE yn benodol. Rydyn ni wedi nodi rhagor o fanylion am bob gorsaf yn adrannau 5.4, 5.5, 5.6 a 5.7 isod.

Mae ymchwil cynulleidfaoedd a data perfformiad yn awgrymu y bydd y gorsafoedd newydd hyn yn apelio at y cynulleidfaoedd targed, fel y nodir yn ein hasesiad o Werth Cyhoeddus yn Adran 6 isod.

## 4.2 Adborth rhanddeiliaid ar ein cyllideb arfaethedig

### 4.2.1 Grwpiau cynulleidfa a chynulleidfaoedd

Roedd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr unigol yn cwestiynu gwerth am arian y cynigion, gyda rhai'n awgrymu y byddai'n well i'r BBC wella gwasanaethau presennol, gwrthdroi newidiadau i radio lleol neu wario'n fwy cyffredinol mewn meysydd nad ydyn nhw'n cael eu gwasanaethu gystal gan y sector masnachol. Roedd rhai hefyd yn cwestiynu sut gallai'r BBC fforddio i ariannu'r gorsafoedd, o ystyried yr amgylchiadau cyllido anodd a'r toriadau i radio lleol.

I'r gwrthwyneb, roedd VLV yn gefnogol, gan nodi bod y cynlluniau'n gost-effeithiol.

### 4.2.2 Radio masnachol

Mewn ymateb i'r estyniad arfaethedig i Radio 2, roedd Boom Radio yn credu bod y BBC wedi tanddatgan y buddsoddiad sydd ei angen i lansio a rhedeg yr orsaf. Roedd yn awgrymu nad oedd y gyllideb ar gyfer y rhaglenni yn gredadwy, nad oedd yn ystyried hawliau cerddoriaeth, ac roedd yn cwestiynu sut byddai'n talu costau talent arfaethedig. Fel yr AA, bu'n cwestiynu a oedd cyllideb farchnata ac yn nodi y byddai'r orsaf yn cael ei chyd-hyrwyddo'n sylweddol ac y dylid cynnwys hynny fel cost.

[30] RAJAR Ch3 2023

Tynnodd News UK sylw at ddiffyg manylion yn y gyllideb, gan ofyn pa gostau craidd oedd wedi'u cynnwys, ac fel yr AA a Boom, nododd nad oedd cyllideb farchnata wedi'i nodi. O ran yr olaf, roedd hefyd yn mynegi pryder y byddai gan y gorsafoedd arfaethedig fanteision sylweddol o ran cyd-hyrwyddo nad ydyn nhw ar gael i gystadleuwyr masnachol. Mewn perthynas ag estyniadau arfaethedig Radio 1 a Radio 2, roedd hefyd yn cwestiynu pam y byddai'r BBC yn ystyried buddsoddi mewn gwasanaethau all-lein i gyrraedd cynulleidfaoedd iau.

### *4.2.3 Rhanddeiliaid y diwydiant cerddoriaeth*

Mynegodd Audio UK rai pryderon ynghylch y gyllideb, sef y byddai'r cyllid ar gyfer y gorsafoedd newydd yn dod o gyllidebau sain presennol sydd eisoes yn cael eu gwasgu – gan beryglu ansawdd a natur unigryw. Roedd yn dadlau y dylai'r BBC ystyried ariannu'r gwaith o ehangu ei bortffolio radio a sain o fannau eraill.

Awgrymodd yr Advertising Association fod y BBC yn canolbwyntio adnoddau ar orsafoedd presennol. Holodd am gyllidebau marchnata a chynlluniau cyd-hyrwyddo, gan ddadlau bod gan y BBC fantais sylweddol ar gyd-hyrwyddo dros radio masnachol. Roedd mesurau lliniaru a awgrymwyd yn cynnwys tryloywder ynghylch costau sy'n gysylltiedig â'r gorsafoedd newydd o wasanaethau presennol y BBC, a chyfyngiadau ar farchnata a chyd-hyrwyddo.

Nododd UK Music y gyllideb ar gyfer y gorsafoedd arfaethedig, gan ddweud na fyddai'r cynigion yn unioni'n ddigonol yr hyn a oedd yn cael ei golli gan y toriadau i BBC Introducing. Roedd yn dadlau dros wrthdroi'r toriadau, gan ddweud bod BBC Introducing wedi bod yn hanfodol wrth lansio gyrfaoedd artistiaid, cynhyrchwyr a pheirianwyr. Roedd hefyd yn dadlau y dylai'r BBC fod yn buddsoddi mwy mewn cerddoriaeth, gan gynyddu'r cyllid ar gyfer prosiectau cerddoriaeth yn gyffredinol – gan gynnal ffi'r drwydded fel model i gyflawni hyn.

Awgrymodd rhanddeiliad arall yn y diwydiant y dylid ail-ddyrannu'r cyllid arfaethedig ar gyfer yr estyniadau i radio lleol y BBC, o ystyried ei statws unigryw a'i werth cyhoeddus uchel.

### *4.2.4 Ein hymateb*

Bydd y pedair gorsaf newydd yn gost-effeithiol iawn, gydag amcangyfrif o gyfanswm y gyllideb barhaus yn £2.9 miliwn y flwyddyn (gan gynnwys DAB+ ac ar-lein). Mae unrhyw gostau hawliau cerddoriaeth ychwanegol yn amodol ar drafodaethau â deiliaid hawliau cerddoriaeth ac maen nhw'n fasnachol gyfrinachol. Rydyn ni wedi nodi rhagor o fanylion am ein cyllideb yn adran 5.3 isod, gan gynnwys costau marchnata lansio.

Doedd y newidiadau y mae'r BBC wedi'u rhoi ar waith i'w wasanaethau radio lleol yn Lloegr ddim yn doriadau i wasanaethau lleol yn Lloegr, ond yn hytrach yn ail-gydbwyso adnoddau o radio darlledu i wasanaethau ar-lein, gan adlewyrchu newidiadau yn ymddygiad cynulleidfaoedd. Yn 2022/23, roedd gwariant cynnwys y BBC ar radio lleol yn Lloegr yn £138 miliwn (£123 miliwn ar radio lleol a £15 miliwn ar wasanaethau ar-lein lleol). Yn 2023/24, cododd hyn i £143 miliwn (£120 miliwn ar radio lleol a £23 miliwn ar wasanaethau ar-lein lleol). Os byddwn hefyd yn cynnwys ein gwasanaethau ar gyfer Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru, gwariant y BBC ar wasanaethau radio ar gyfer y Gwledydd a Rhanbarthau Lloegr oedd £196 miliwn, £37 miliwn yn fwy nag a wariwyd

gennym ar ein holl wasanaethau cerddoriaeth radio rhwydwaith (£159 miliwn).[31] Fel sy'n amlwg hefyd, mae'r cyllidebau ar gyfer y pedair gorsaf newydd yn fach o gymharu â chost gwasanaethau Lleol y BBC yn Lloegr.

## 4.3 Adborth rhanddeiliaid ar yr Effaith Gystadleuol

### *4.3.1 Grwpiau Cynulleidfa a Chynulleidfaoedd*

Roedd nifer sylweddol o ymatebion gan aelodau o'r cyhoedd yn cyfeirio at effaith gystadleuol bosibl y cynigion, ac roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn ymwneud ag effaith negyddol yr estyniad arfaethedig i Radio 2 ar Boom Radio. Soniodd rhai ymatebwyr am effeithiau tebyg ar y sector radio masnachol ehangach a sut gallai gael effaith negyddol ar allu'r sector i ddatblygu ac arloesi.

Soniodd cwpl o ymatebwyr am effeithiau cadarnhaol, gan gytuno ag asesiad y BBC y byddai cyfanswm cynulleidfa'r BBC yn tyfu, yn bennaf drwy gynyddu oriau gwrando yn hytrach na symud o wrando ar radio masnachol.

Roedd VLV yn cefnogi cynlluniau'r BBC, yn benodol estyniad Radio 3, gan nodi y byddai'r cynigion yn sicrhau mwy o luosogrwydd yn y cyflenwad o gerddoriaeth glasurol yn y DU. Roedd hefyd yn dweud ei fod yn deall pam y gallai radio masnachol fod yn poeni am gynigion y BBC gan eu bod yn gweithredu gorsafoedd a oedd yn darparu rhai o nodweddion cynnig arfaethedig y BBC.

O ran mesurau lliniaru, roedd ymatebion gan y cyhoedd yn cynnwys awgrymiadau i gynnwys y rhaglenni yn yr orsaf bresennol (Radio 2), gan ddefnyddio BBC Sounds i ddefnyddio archif y BBC yn well. Awgrymodd cwpl o ymatebwyr y dylai'r estyniadau fod yn wasanaethau BBC Sounds yn unig, gan ddadlau y byddai gwasanaethau DAB+ yn cael gormod o effaith ar y farchnad. Dywedodd VLV ei bod yn hanfodol bod Ofcom yn dal y BBC i gyfrif am gyflawni'r natur unigryw a nodir yn y prawf budd y cyhoedd, a'i fod yn camu i mewn os nad oedd.

### *4.3.2 Radio Masnachol*

Mynegodd Radiocentre, Boom, News UK a'r Advertising Association y farn y byddai estyniadau i gerddoriaeth yn cael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

Roedd Radiocentre yn dadlau bod y BBC yn tanbrisio'n sylweddol y posibilrwydd o wrando ar y gwasanaethau arfaethedig. Roedd yr ymchwil roedd wedi'i gomisiynu yn dangos bod defnyddwyr yn teimlo bod cynigion y BBC yn swnio fel gwasanaethau masnachol presennol ac y bydden nhw'n debygol o symud i gynnig heb hysbysebion y BBC. Roedd felly'n credu y byddai'r rhan fwyaf o wrandawyr yr estyniadau arfaethedig yn dod o radio masnachol, gydag oriau gwrando yn cael eu colli ac effeithiau ar refeniw hysbysebu o ganlyniad i hynny.

Gwnaeth News Broadcasting bwyntiau tebyg am estyniadau Radio 1 a Radio 2. Roedd yn dadlau ei bod yn annhebygol y byddai'r cynigion yn tyfu'r farchnad ar gyfer gwrando ar radio cerddoriaeth ac nad oedd y BBC wedi nodi i ba raddau y mae'n disgwyl i'r

[31] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC, 2023/24, BBC, p.168

gwrandawyr ddod o wasanaethau presennol y BBC yn hytrach na gwasanaethau radio masnachol. Roedd ei ymchwil ei hun gyda gwrandawyr rhwydwaith Virgin Radio yn awgrymu y byddai llawer yn debygol o wrando ar yr estyniadau newydd, gyda chyfran sylweddol yn nodi y bydden nhw'n gwrando llai ar Virgin Radio. Unwaith eto, mae hyn yn arwain at golli oriau gwrando a cholli refeniw hysbysebu.

Ategodd Boom Radio y pwyntiau hyn. Roedd yn herio honiad y BBC na fyddai'r estyniad arfaethedig i orsaf Radio 2 yn fawr, gan ddadlau bod ei ymchwil wedi dangos y byddai ei faint posibl yn golygu y byddai'n cael llawer mwy o effaith na'r tri gwasanaeth BBC newydd arfaethedig arall. Roedd hefyd yn anghytuno â haeriad y BBC y byddai cynulleidfa'r orsaf newydd yn dod o ffrydio a defnyddwyr nad ydyn nhw'n gwrando ar radio, gan ddweud, pe bai'r estyniad arfaethedig yn mynd rhagddo, y byddai'n colli cynulleidfa'n sylweddol, yn colli refeniw hysbysebu, a byddai'n gwneud ei gynlluniau busnes yn anymarferol.

Mynegodd gorsaf radio fasnachol annibynnol nifer o bryderon am yr estyniad arfaethedig i Radio 3, gan awgrymu bod gan gynnig cerddoriaeth ymlacio yn benodol ar un o orsafoedd y BBC, botensial i gael mwy o effaith ar y farchnad ac y gallai leihau'r ystod o wrando.

Gwnaeth Radiocentre, News UK, Boom a'r Advertising Association i gyd y pwynt y byddai colli oriau gwrando a refeniw yn rhoi radio masnachol dan bwysau i leihau costau ac y byddai'n lleihau adnoddau ar gyfer buddsoddi mewn gwasanaethau newydd, yn atal arloesi, yn effeithio ar wasanaethau presennol a phosibl sy'n deillio ohonyn nhw, ac yn gwthio cwmnïau masnachol llai ac annibynnol allan, gan leihau'r dewis ym marchnad y DU.

Roedd ymatebwyr radio masnachol yn dadlau nad oedd dadansoddiad y BBC o'r effaith gystadleuol wedi bod yn ddigon trylwyr, gan ganolbwyntio ar gyfanswm o'r holl radio masnachol yn hytrach na set o gystadleuwyr culach y mae pob cynnig yn effeithio arni. Gwnaeth yr Advertising Association y pwynt hefyd nad oedd yn ystyried y gystadleuaeth rhwng gweithredwyr radio masnachol a gwasanaethau ffrydio cerddoriaeth.

Mynegodd ymatebwyr radio masnachol bryder hefyd am gynlluniau marchnata a phŵer y BBC i gyd-hyrwyddo'r gwasanaethau newydd ar draws ei rwydweithiau, gan ddadlau bod hyn yn rhoi mantais fawr i'r BBC dros y sector radio masnachol.

Gwnaeth Radiocentre y pwynt ychwanegol y gallai hefyd gynyddu costau i orsafoedd masnachol, drwy, er enghraifft, dargedu'r un gronfa dalent o gyflwynwyr.

O ran mesurau lliniaru, awgrymodd Radiocentre y gallai'r BBC sicrhau gwell gwerth cyhoeddus, heb fawr o effaith, drwy wrthdroi newidiadau i radio lleol y BBC, gwneud newidiadau i wasanaethau presennol a newidiadau dosbarthu i radio'r Gwledydd.

Dywedodd Boom a News UK nad oedd unrhyw gamau lliniaru y gallai'r BBC eu cymryd i ddileu effaith gystadleuol sylweddol y cynigion a bod y BBC yn chwilio am ffyrdd eraill o wasanaethu'r cynulleidfaoedd targed, sy'n ategu'r sector masnachol.

Awgrymodd yr Advertising Association y dylid cael tryloywder ynghylch costau sy'n gysylltiedig â'r gorsafoedd newydd o wasanaethau presennol y BBC; ymestyn cwotâu ar gyfer rhaglenni newydd a gwreiddiol, cyfyngiadau ar farchnata a chyd-hyrwyddo,

adolygiadau annibynnol rheolaidd o'r effaith ar y farchnad a ffocws ar gynulleidfaoedd nad ydyn nhw'n cael eu gwasanaethu'n ddigonol.

### *4.3.3 Rhanddeiliaid y diwydiant cerddoriaeth*

Roedd ymatebwyr o'r Diwydiant Cerddoriaeth yn cefnogi'r cynigion ar y cyfan, gan gydnabod y berthynas gref rhwng cerddoriaeth a'r BBC ac yn tynnu sylw at rôl y BBC yn cefnogi diwydiant cerddoriaeth y DU. Dywedodd yr MPA ei fod yn credu bod y BBC a Radio Masnachol yn darparu gwasanaethau gwahanol ac ategol ac na ddylai gael effaith negyddol ar radio masnachol.

Awgrymodd ymatebwyr o'r Diwydiant Cerddoriaeth y byddai mwy o natur unigryw drwy gwotâu cerddoriaeth newydd ar gyfer yr holl orsafoedd arfaethedig a chwarae mwy o draciau unigryw yn lleihau'r effaith gystadleuol bosibl.

### *4.3.4 Ymateb y BBC*

Rydyn ni wedi nodi'n fanwl ein hymateb i'r materion a godwyd gan randdeiliaid yn adran 7 y ddogfen hon. Yno, rydyn ni'n mynd i'r afael â phryderon sy'n ymwneud â gwaith modelu'r BBC o ran maint y gorsafoedd, dadansoddiad cymharol, amcangyfrifon ynghylch effeithiau ar gynnydd mewn gwrando a gwariant refeniw hysbysebu, risgiau sy'n ymwneud â thorri ar draws a buddsoddi, effeithiau chwyddiant canfyddedig ac effaith gystadleuol y ffactorau hyn.

Yn adran 7 rydyn ni hefyd yn ystyried yr effeithiau statig a deinamig ar refeniw a phroffidioldeb y sector radio masnachol ac yn nodi bod Global a Bauer wedi lansio gorsafoedd radio newydd yn ddiweddar, gan gynnwys tair gorsaf genedlaethol newydd.

## 4.4 Adborth rhanddeiliaid ar Natur Unigryw

### *4.4.1 Grwpiau Cynulleidfa a Chynulleidfaoedd*

Nododd VLV y byddai'r gorsafoedd arfaethedig yn cynnig gwerth cyhoeddus gwirioneddol pe bai'r uchelgeisiau a nodir yn y Prawf Budd y Cyhoedd yn cael eu gwireddu ac nad oedden nhw'n dynwared darpariaeth bresennol y farchnad. Gofynnodd VLV i Ofcom ddal y BBC i gyfrif i gyflawni'r natur unigryw yn y cynigion.

Dywedodd nifer o aelodau'r cyhoedd fod y cynnig radio masnachol yn gwasanaethu'r gynulleidfa darged yn dda ac na fyddai'r gorsafoedd radio arfaethedig yn darparu cynnig unigryw heb fawr o fudd i gynulleidfaoedd. Mae'r ymatebwyr hyn yn pryderu y gellid gwanhau'r hyn a gynigir gan y prif orsafoedd. Doedd yr Advertising Association ddim yn cefnogi cynigion y BBC ac roedd yn awgrymu y dylai'r BBC ganolbwyntio adnoddau ar orsafoedd presennol.

Nododd rhai ymatebwyr a'r Advertising Association na fyddai'r estyniadau arfaethedig yn cynnig fawr ddim sylw i'r newyddion, os o gwbl.

O ran estyniad Radio 1 Dance, roedd un aelod o'r cyhoedd yn teimlo bod y cynnig yn wahanol iawn i gynigion masnachol ac na fyddai'n cael fawr o effaith ar radio masnachol.

Awgrymodd ymatebwyr o'r cyhoedd, a wnaeth sylwadau penodol ar estyniad Radio 3, fod y cynnig yn weddol debyg i'r hyn a ddarperir gan radio masnachol. Nododd rhai aelodau o'r cyhoedd mai ychydig o fanylion a roddwyd am gyfran y cynnwys archif a

ddefnyddir gan estyniad Radio 3, o'i gymharu â rhaglenni gwreiddiol, a sut byddai'r estyniad yn rhyngweithio â Radio 3 gyda'r cynnwys sy'n gorgyffwrdd a'r cyd-ddarlledu. Fe wnaethon nhw fynegi eu pryderon y gallai hyn arwain at fformatau tebyg a fyddai'n cael effaith negyddol ar orsafoedd sydd â chynnig tebyg.

Awgrymodd nifer fach o ymatebwyr y byddai'r cyhoedd yn elwa o gynnig estyniad Radio 2. Nododd rhai ymatebwyr y byddai cael rhaglenni byw yn ychwanegu at natur unigryw y gwasanaeth gan gynnig ymdeimlad o gwmnïaeth a chymuned i wrandawyr. Dywedodd nifer nad yw'r cynnig arfaethedig yn dyblygu cynnig Boom. Roedd cwpl o ymatebwyr o'r farn nad oedd gan Radio 2 lawer o ddeunydd archif ac na fyddai'r cynnwys hwn yn gwneud y gwasanaeth yn unigryw ac mai dim ond yn ystod oriau gwrando brig y byddai'n cael ei chwarae.

Roedd ymatebwyr a oedd o'r farn y gellid gwella natur unigryw y cynigion hyn yn awgrymu amrywiaeth o atebion gan gynnwys cynyddu'r ystod o restrau chwarae, artistiaid neu genres, rhaglenni byw, lleihau cyd-ddarllediadau o'r brif orsaf neu ddewis cyflwynwyr ar sail eu brwdfrydedd a'u gwybodaeth yn hytrach nag enwogion.

### *4.4.2 Radio Masnachol*

Dywedodd Boom Radio nad oedd yr estyniad Radio 2 yn darparu gwerth cyhoeddus i wrandawyr ac y byddai'n atgynhyrchu cynnig Boom Radio, a oedd, yn ôl Boom Radio, yn gweithredu i safon uwch na'r estyniad arfaethedig, a chynigion rhai gorsafoedd tebyg eraill. Dywedodd Boom Radio y byddai canolbwyntio ar hen ganeuon yn copïo fformat a ddefnyddir gan orsafoedd radio masnachol eraill. Roedd hefyd yn nodi bod yr artistiaid a'r amrywiaeth arfaethedig o genres eisoes yn cael eu darlledu'n sylweddol mewn rhestrau chwarae radio masnachol, a bod yr amrywiaeth arfaethedig o draciau'n sylweddol llai na'r hyn sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd gan Boom Radio. Roedd yn nodi bod y BBC yn gallu defnyddio ei archif ar nifer o lwyfannau ac nad oedd llawer o wybodaeth wedi cael ei darparu am yr hyn a oedd yn yr archif y mae hawliau wedi'u eu cadw ar ei gyfer o hyd. Ar ben hynny, nododd Boom Radio nad oedd yn gallu gweld sut roedd chwarae cerddoriaeth ôl-gatalog a deunydd archif y BBC yn cefnogi'r economi greadigol. Pwysleisiodd Boom Radio nad oedd y cynigion yn cyfrannu at Genhadaeth a Dibenion Cyhoeddus y BBC.

Roedd News UK yn gwrthwynebu estyniadau Radio 1 a Radio 2 yn gryf, gan dynnu sylw at y ffaith nad ydyn nhw'n unigryw nac yn uchelgeisiol a'u bod yn dyblygu cynnig a ddarperir gan y sector radio masnachol, sy'n gorgyffwrdd yn fawr â'r hyn mae gorsafoedd Virgin Radio yn ei gynnig. Felly, dydy News UK ddim yn credu y byddai'r estyniad yn cynnig gwerth cyhoeddus ychwanegol ac y dylai'r BBC ystyried ffyrdd eraill o wasanaethu'r gynulleidfa darged, gyda gwasanaethau sy'n ategu'r sector masnachol. Cynhaliodd News UK ei ymchwil ei hun gyda gwrandawyr Virgin Radio a chanfu fod bron i hanner ohonyn nhw'n dweud bod yr estyniadau arfaethedig yn swnio'n debyg i'r hyn y mae radio masnachol yn ei gynnig, gan gynnwys gorsafoedd Virgin Radio.

Roedd Radiocentre yn feirniadol o'r cynigion ac yn dadlau mai ychydig iawn o werth cyhoeddus oedd ganddyn nhw, ac na fydden nhw'n cyfrannu at Genhadaeth y BBC nac at gyflawni ei Ddibenion Cyhoeddus. Ar sail ei ymchwil ei hun, roedd Radiocentre yn dadlau bod cyfran y gerddoriaeth newydd a/neu gerddoriaeth o Brydain yn debyg yn fras i

ddarparwyr masnachol ac nad oedd y cynigion yn cefnogi creadigrwydd Prydeinig yn fwy na gweithredwyr masnachol.

Roedd Boom Radio, News UK a Radio i gyd yn cwestiynu'r diffyg cynnwys llafar a darpariaeth newyddion gan y cynigion. Nododd Boom hyn yn benodol am estyniad Radio 2, ac roedd News UK yn canolbwyntio ar estyniadau Radio 1 a Radio 2. Nododd Radiocentre, heb fawr o gynnwys llafar a dim newyddion, y byddai'r gorsafoedd yn gweithredu'n bennaf fel 'gwasanaethau jiwcbocs cerddoriaeth'.

### *4.4.3 Rhanddeiliaid y diwydiant cerddoriaeth*

Dywedodd Audio UK fod risg na fydd y gwasanaethau arfaethedig yn ddigon unigryw o'u cymharu â'r sector radio masnachol. Nododd Audio UK ei fod yn siomedig nad oedd unrhyw arwydd ynghylch sut byddai'r BBC yn rhyngweithio â'r sector cynhyrchu annibynnol ac awgrymodd mai drwy wneud hynny, a chael cyllideb ddigonol, y byddai'n sicrhau natur unigryw ac amrywiaeth y gwasanaethau.

Roedd MMF ac FAC yn cefnogi'r cynigion ar y cyfan ac yn croesawu llawer o'r ymrwymiadau yn yr ymgynghoriad, yn enwedig y gefnogaeth i gerddoriaeth Brydeinig gartref a thramor, gan godi proffil artistiaid llai adnabyddus, y gefnogaeth i artistiaid cerddoriaeth glasurol cyfoes, a'r gefnogaeth i artistiaid newydd yn Radio 1 Dance. Roedden nhw hefyd yn croesawu'r ymrwymiad i adlewyrchu'r calendr creadigol drwy gydol y flwyddyn. Mynegodd MMF ac FAC rai pryderon ynghylch yr hollt rhwng cefnogi a hyrwyddo cerddoriaeth newydd yn hytrach na chatalog, gan nodi'r angen i wneud y ddau.

Roedd yr MPA yn credu y byddai'r cynnig yn darparu 'gwerth gwych i bwrs y wlad'. Er bod MPA yn croesawu'r ymrwymiadau i gerddoriaeth newydd ar Radio 1 Dance ac estyniad Radio 1, mynegodd ei siom bod estyniadau Radio 1 a Radio 2 yn canolbwyntio ar gatalog. Roedd MPA ac UK Music yn credu y byddai'r cynigion yn sicr o fod yn unigryw pe bai'r dyraniad o gerddoriaeth newydd ar draws pob un o'r pedair gorsaf gerddoriaeth arfaethedig yn cynyddu i o leiaf traean o'r traciau. Roedd PRS for Music yn gwneud yr awgrym hwn yn benodol i Radio 3 ac yn awgrymu chwarae cerddoriaeth newydd ar bob un o'r pedair gorsaf newydd. Roedd PRS for Music hefyd yn awgrymu cynyddu nifer y traciau ar draws pob gorsaf er mwyn helpu i wahaniaethu'r hyn sy'n cael ei gynnig gan radio masnachol a chael dyraniad o gyfran gyffredinol o gynnwys sy'n benodol ar gyfer cerddoriaeth newydd a thalentau brodorol. Awgrymodd UK Music hefyd ymrwymiad cryfach gan estyniad Radio 3 i chwarae cyfansoddwyr o Brydain ac ymrwymo i bob gorsaf chwarae tua 10,000 o draciau unigryw bob blwyddyn. Dywedodd MMF ac FAC y bydden nhw'n hoffi gweld ymrwymiad cryfach i chwarae cyfansoddwyr byw.

### *4.4.4 Ymateb y BBC*

Rydyn ni'n credu y bydd ein cynigion ar gyfer estyniadau Radio 1, Radio 2 a Radio 3 o fudd mawr i wrandawyr, drwy gynnig cynnwys penodol iddyn nhw. Mae Adran 6 yn rhoi manylion am y gwerth cyhoeddus y byddai'r cynigion hyn yn ei gynnig i gynulleidfaoedd.

## 4.5 Adborth rhanddeiliaid ar Ddosbarthu

### *4.5.1 Grwpiau Cynulleidfa a Chynulleidfaoedd*

Cafwyd ymatebion cymysg ar ddosbarthiad y pedair gorsaf radio arfaethedig. Ymatebodd rhai aelodau o’r cyhoedd yn gadarnhaol gan ddweud ei bod yn hen bryd symud i DAB+, yn enwedig yng nghyswllt cynnig Radio 1 Dance.

Roedd ymatebwyr eraill yn cefnogi technoleg DAB+, ond roedden nhw’n credu y dylai’r BBC fod yn defnyddio hyn i weithredu’n fwy effeithlon yn hytrach na chreu gorsafoedd newydd. Roedd rhai aelodau o’r cyhoedd o’r farn y dylid dosbarthu’r gwasanaethau ar FM neu Long Wave, fel bod cynulleidfaoedd sydd wedi’u heithrio’n ddigidol neu mewn ardaloedd lle mae derbyniad DAB gwael yn cael eu cyrraedd neu ar BBC Sounds yn unig. Roedd eraill yn gofyn am i’r BBC gael amserlen mudo DAB+ cyn lansio estyniadau i orsafoedd radio, ac roedd eraill yn awgrymu bod holl wasanaethau’r BBC yn symud i DAB+.

Mynegodd VLV y pryder y byddai’r cynigion hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ddinasyddion fod yn berchen ar setiau radio sy’n gallu darparu DAB+.

### *4.5.2 Radio Masnachol*

Roedd News UK yn croesawu’r gefnogaeth y mae’r BBC yn ei rhoi i DAB+, ond roedd o’r farn nad oedd pedair gorsaf DAB+ ar hyn o bryd yn defnyddio capasiti sbectrwm y BBC yn effeithlon. Mae News UK yn dadlau y byddai’n well i’r BBC symud rhai o’i wasanaethau radio DAB presennol, neu’r cyfan ohonyn nhw, i DAB+, ac annog rhagor i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn.

### *4.5.3 Ymateb y BBC*

Mae dosbarthiad y gorsafoedd radio arfaethedig yn cyd-fynd â dosbarthiad gorsafoedd radio cenedlaethol y BBC. Felly, rydyn ni’n bwriadu dosbarthu’r gorsafoedd radio ar DAB+. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn adran 5.2.

## 4.6 Materion eraill a godwyd

### *4.6.1 Cododd ymatebwyr nifer o bwyntiau ynghylch y broses reoleiddio ac ymgynghori.*

Roedd yr holl ymatebwyr radio masnachol yn feirniadol o lefel y manylder yn y ddogfen ymgynghori, a oedd yn awgrymu bod y cynigion ar gyfer rhaglenni yn rhy amwys ac nad oedd digon o fanylion yn y cyllidebau.

Roedd Boom yn feirniadol o ymgysylltiad y BBC â’r farchnad, gan ddweud nad oedd yn ymddangos bod y BBC wedi cydymffurfio â rhwymedigaethau o ran bod yn agored, yn dryloyw, yn atebol ac o ran ymgysylltu â’r diwydiant, ac roedd yn feirniadol nad oedd y cynlluniau wedi cael eu nodi yng Nghynllun Blynyddol y BBC.

Roedd gorsaf radio annibynnol yn teimlo nad oedd un prawf budd y cyhoedd ar gyfer pedwar estyniad arfaethedig yn caniatáu digon o graffu ar y cynigion o ystyried pa mor eang y gallai’r effeithiau fod.

Roedd rhai o aelodau’r cyhoedd a ymatebodd yn cwestiynu pam roedd y broses ymgynghori yn cael ei rhedeg gan y BBC, yn hytrach nag Ofcom, gan awgrymu na

fyddai'n annibynnol a'i fod yn cael ei chyflwyno mewn ffordd a fyddai'n arwain at ymateb cadarnhaol.

*4.6.2 Ymateb y BBC:*

Mae Siarter a Chytundeb y BBC yn mynnu bod yn rhaid i'r Bwrdd ystyried cynigion ar gyfer newidiadau sylfaenol i Wasanaethau Cyhoeddus y DU, a'u cymeradwyo dim ond os bodlonir y Prawf Budd y Cyhoedd, h.y. bod gwerth cyhoeddus y newidiadau yn cyfiawnhau'r effaith ar y farchnad. Os bydd y Bwrdd yn cymeradwyo'r cynigion, byddan nhw'n cael eu cyflwyno i Ofcom a fydd yn cynnal asesiad cystadleuaeth i benderfynu a gaiff y BBC fwrw ymlaen â'r newidiadau.

Roedd y BBC wedi nodi'r cynigion yn ddigon manwl yn ein dogfen ymgynghori i alluogi rhanddeiliaid i roi adborth ar ein cynigion. Mae'r ddogfen bresennol hon, sy'n sail i benderfyniad Bwrdd y BBC ynghylch a yw'r newidiadau'n bodloni'r Prawf Budd y Cyhoedd, yn ystyried yr adborth a gawsom gan randdeiliaid ac mae wedi ein galluogi i fireinio ein dadansoddiad a'n cynigion yn unol â bwriad ymgynghoriad.

Mae'r BBC wedi ymgysylltu'n helaeth â'r sector radio masnachol drwy gydol y broses ac wedi ymateb, lle bo hynny'n bosibl, i geisiadau ychwanegol am wybodaeth.

Ar adeg cyhoeddi Cynllun Blynyddol y BBC 2023/24 ym mis Mawrth 2023, doedd y BBC ddim wedi datblygu'r cynlluniau a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2024. Mae canllawiau Ofcom yn cydnabod y gall y BBC ddatblygu cynlluniau y tu allan i'r amserlenni arferol i'w cynnwys yn y cynllun blynyddol, a allai olygu nad yw'r cynlluniau hynny'n cael eu crybwyll neu nad ydyn nhw'n cael eu nodi'n ddigon manwl yn y cynllun blynyddol. Mae'n mynd ymlaen i ddweud, yn yr achosion hyn, dylai'r BBC ddefnyddio dull cyfathrebu amgen a chyson i alluogi partïon y gallai hyn effeithio arnyn nhw i gael gafael ar yr wybodaeth berthnasol yn hawdd.[32] Cyhoeddodd y BBC ddatganiad pwysig i'r wasg yn cyhoeddi ein cynlluniau ac yn tynnu sylw at ddechrau proses ymgynghori Prawf Budd y Cyhoedd, ac yn briffio rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Radiocentre, corff y diwydiant ar gyfer radio masnachol.

*4.6.3 Codwyd nifer o bwyntiau eraill, ac mae rhai ohonyn nhw y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad.*

Roedd UK Music yn dadlau'n gryf dros wrthdroi'r toriadau i BBC Introducing. Roedd hefyd yn dadlau y dylai'r BBC fod yn buddsoddi mwy mewn cerddoriaeth, gan gynyddu'r cyllid ar gyfer prosiectau cerddoriaeth yn gyffredinol – gan gynnal ffi'r drwydded fel model i gyflawni hyn.

Dywedodd y Music Managers' Forum a'r Featured Artists Coalition y bydden nhw'n hoffi gweld mwy o fanylion am gynlluniau i gomisiynu rhaglenni newydd ar gyfer y gorsafoedd arfaethedig ac y bydden nhw'n hoffi gweld mwy o sylw'n cael ei roi i artistiaid dramor. Roedden nhw hefyd yn awgrymu y dylai'r gwaith o guradu'r gorsafoedd newydd fod yn ehangach na'r porthorion presennol; roedden nhw'n dymuno osgoi rhoi genres o'r

---

[32] Guidance for assessing proposed changes to the BBC's public service activities, t.13, Ofcom, 18 Ebrill 2023

neilltu; ac roedden nhw'n dadlau bod integriti'r drwydded perfformiad cyhoeddus yn cael ei gynnal.

Mewn ymatebion gan y cyhoedd, roedd y materion eraill a godwyd yn cynnwys galwadau i wrthdroi newidiadau i radio lleol y BBC; gwerth am arian Ffi'r Drwydded; cwmpas y BBC; cyflogau talent a; rheolaeth wael.

# 5. Cynigion terfynol y BBC ar gyfer gorsafoedd cerddoriaeth arfaethedig

Yn yr adran hon rydyn ni'n cyflwyno ein cynigion terfynol ac yn nodi sut mae'r rhain wedi newid mewn ymateb i adborth gan randdeiliaid a'n hymchwil cynulleidfa.

## 5.1 Strategaeth gyffredinol

Dydy ein strategaeth gyffredinol ddim wedi newid ar ôl ystyried adborth gan randdeiliaid.

Rydyn ni'n credu bod ein cynnig i lansio pedair gorsaf gerddoriaeth DAB+ ac ar-lein newydd yn ymateb angenrheidiol i'r twf sylweddol yn nifer y gorsafoedd sy'n cystadlu i wasanaethu gwrandawyr a'r newidiadau yn ymddygiad cynulleidfaoedd, sy'n cael eu siapio gan ffrydio cerddoriaeth ar-alw ac ymateb y sector radio masnachol i'r newid ymddygiad hwnnw.

O ystyried y datblygiadau diweddar, a drafodir uchod, rydyn ni o'r farn bod yr angen hwn hyd yn oed yn fwy dybryd. Dydyn ni ddim wedi newid ein portffolio o orsafoedd cerddoriaeth ers lansio 1Xtra, Asian Network a 6 Music yn 2002; ond mae radio masnachol wedi creu dwsinau o orsafoedd newydd gyda chynigion clir a phenodol ar gyfer gwrandawyr. Er bod ein portffolio presennol o orsafoedd yn dal i berfformio'n dda, mae'n amlwg bod galw sylweddol ymysg cynulleidfaoedd am y gorsafoedd mwy penodol hyn. Mae ein cynnig yn ymateb cymedrol i'r newidiadau hyn.

Rydyn ni o'r farn y bydd y gorsafoedd arfaethedig yn gwasanaethu cynulleidfaoedd sydd ar hyn o bryd yn cael llai o werth gan wasanaethau sain y BBC, gan gynnwys cynulleidfaoedd iau a chynulleidfaoedd C2DE hŷn. Rydyn ni hefyd o'r farn y byddan nhw hefyd yn gwasanaethu hwyliau ac anghenion cynulleidfaoedd modern yn well ac yn cefnogi creadigrwydd cynhenid.

Rydyn ni hefyd o'r farn y bydd lansio'r gorsafoedd newydd yn cefnogi'r newid i ddyfodol digidol yn gyntaf, ac felly mae'n ategu ein gwaith o fuddsoddi yn BBC Sounds a'i ddatblygu'n barhaus.

## 5.2 Dosbarthiad

Ar ôl ystyried adborth gan randdeiliaid, rydyn ni wedi cwblhau ein cynigion ar gyfer dosbarthu'r gorsafoedd radio arfaethedig.

Does dim newid i'n cynigion y bydd y gorsafoedd arfaethedig yn cael eu dosbarthu ar DAB+ (yn hytrach na DAB safonol) ac ar-lein yn yr un ffordd â gorsafoedd radio cenedlaethol presennol y BBC, h.y. ar draws radio digidol, BBC Sounds a seinyddion clyfar.

## 5.3 Cyllideb

Ar ôl ystyried adborth gan randdeiliaid, rydyn ni wedi cwblhau ein cynigion ar gyfer cyllideb y gorsafoedd radio arfaethedig.

Bydd y gorsafoedd newydd yn gost-effeithiol iawn. Rydyn ni'n amcangyfrif y bydd cyfanswm y gyllideb barhaus ar gyfer y pedair gorsaf newydd (DAB+ ac ar-lein) yn £2.9 miliwn y flwyddyn, gan gynnwys costau gweithrediadau, staff, technoleg a chynnwys ychwanegol. Dydy unrhyw gostau hawliau cerddoriaeth ychwanegol ddim wedi'u cynnwys ar hyn o bryd, gan fod hyn yn fasnachol sensitif ac yn amodol ar drafodaethau â deiliaid hawliau cerddoriaeth.

Bydd yr estyniadau'n curadu rhaglenni cerddoriaeth ar-alw sydd ar gael ar BBC Sounds, gyda rhai comisiynau newydd, rhai cyd-ddarllediadau, ac o bosibl ychydig bach o gynnwys byw newydd. Mae gennym ni eisoes nifer fawr o deitlau a fydd yn cael eu darlledu ar yr estyniadau hyn, gan roi mwy o werth o'n buddsoddiad creadigol yn y meysydd hyn. Mae'r dull digidol-yn-gyntaf yn golygu bod prosesau cynhyrchu'n fwy effeithlon ac yn llawer mwy cost-effeithiol o'u cymharu â'r fformatau byw mawr mwy traddodiadol, fel yr elfennau brecwast a gyrru ar radio llinol. Rydyn ni'n defnyddio capasiti DAB presennol, a byddwn yn adeiladu ar effeithlonrwydd gweithredol ein gorsafoedd radio cerddoriaeth presennol a'n trefniadau hawliau cerddoriaeth.

Bydd costau staff a chynnwys yn cael eu hariannu drwy ail-flaenoriaethu cyllid o BBC Sounds a gorsafoedd radio Rhwydwaith y BBC. Fydd dim angen cynnydd o gwbl yn y gyllideb ar gyfer Radio Rhwydwaith a BBC Sounds yn sgil y gorsafoedd newydd. I'w roi yn ei gyd-destun, £507 miliwn oedd cyfanswm gwariant y BBC ar radio ar gyfer 2023/24.[33] Dyma'r cyllidebau cynnwys ar gyfer ein gorsafoedd radio cerddoriaeth presennol: Radio 1 (£41 miliwn); Radio 1Xtra (£10 miliwn); Radio 2 (£49 miliwn); Radio 3 (£38 miliwn); a 6 Music (£14 miliwn).[34]

Fel y gwelir isod, bu cynnydd bach yn y gyllideb rhaglenni flynyddol arfaethedig ar gyfer y gorsafoedd newydd, sef tua £90,000 y flwyddyn.

Mae'r cynnydd mwyaf (tua £240,000) yn ymwneud â'r estyniad arfaethedig i Radio 2. Mae hyn yn adlewyrchu datblygiad sylweddol cynnig estyniad Radio 2 mewn ymateb i adborth gan randdeiliaid i sicrhau ei fod mor unigryw â phosibl. Mae hyn yn cael ei wrthbwyso i raddau gan ostyngiadau yn yr amcangyfrif o'r gyllideb ar gyfer Radio 1 Dance.

---

[33] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC, 2023/24, BBC, p.56
[34] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC, 2023/24, BBC, p.152

**Ffigur 6: Amcangyfrif o'r gyllideb flynyddol (ac eithrio hawliau cerddoriaeth)**

| | Amcangyfrif o'r gyllideb ar gyfer yr ymgynghoriad (£ miliwn) | Amcangyfrif o'r gyllideb bresennol (£ miliwn) | Newid (£ miliwn) |
|---|---|---|---|
| Radio 1 Dance | 0.73 | 0.55 | -0.18 |
| Radio 1 Anthems | 0.12 | 0.18 | +0.06 |
| Estyniad Radio 2 | 0.42 | 0.66 | +0.24 |
| Radio 3 Unwind | 0.66 | 0.65 | -0.01 |
| Cronfa ysgogi twf | 0.50 | 0.50 | - |
| **Costau rhaglenni** | **2.43** | **2.54** | **+0.11** |
| | | | |
| Staff | 0.25 | 0.25 | - |
| Costau cynhyrchu | 0.10 | 0.04 | -0.06 |
| Arall | 0.06 | 0.07 | +.01 |
| **Costau Staff Cynhyrchu/Cynnwys Eraill** | **0.41** | **0.36** | **-0.05** |
| | | | |
| **Cyfanswm costau cynnwys a staff** | **2.84** | **2.90** | **+0.06** |

Bydd y gronfa ysgogi twf ar gael i bob un o'r gorsafoedd newydd yn seiliedig ar angen, perfformiad cynulleidfaoedd a chynlluniau wedi'u datblygu i gynyddu ysgogiadau (h.y. defnyddwyr newydd y BBC).

Hefyd, bydd costau untro o tua £635,000 yn y flwyddyn gyntaf, sy'n gysylltiedig â marchnata a sefydlu technoleg. Bydd costau marchnata'r lansiad tua £285,000.

## 5.4 Radio 1 Dance: Cynigion terfynol fel gorsaf radio lawn

Ar ôl ystyried adborth gan randdeiliaid, rydyn ni wedi cwblhau ein cynigion ar gyfer Radio 1 Dance. Mae'r rhain yr un fath â'r rhai roedden ni wedi ymgynghori arnyn nhw ym mis Chwefror o ran sylwedd. Ond rydyn ni nawr yn gallu darparu llawer mwy o fanylion am y rhaglenni rydyn ni'n cynnig a fyddai'n cael eu darlledu. Rydyn ni o'r farn y bydd hyn yn unigryw iawn yn y farchnad.

### *5.4.1 Bwriad cyffredinol a chynulleidfa darged*

Prif amcan Radio 1 Dance yw darparu llwyfan mwy ar DAB+ i ddangos buddsoddiad creadigol y BBC mewn cerddoriaeth ddawns, gan adrodd stori genre sy'n apelio'n fawr at bobl ifanc, cefnogi datblygiad artistiaid newydd o'r DU, ac adlewyrchu'r sîn i gynulleidfa ehangach, gan helpu i gynhyrchu caneuon byd-eang o'r DU.

Cenhadaeth Radio 1 Dance yw datblygu ac ymgysylltu â chynulleidfa amrywiol 15-34 oed ledled y DU gyda chynnwys byw ac ar-alw. Rydyn ni'n canolbwyntio ar grŵp oedran mwy caeth na'r hyn roedden ni'n ei gynnig yn wreiddiol. Rydyn ni'n credu'n arbennig y bydd Radio 1 Dance yn rhoi mwy o werth i gynulleidfaoedd iau o grwpiau C2DE.

### *5.4.2 Polisi cerddoriaeth*

Rydyn ni'n cynnig y bydd Radio 1 Dance yn chwarae amrywiaeth ehangach o gerddoriaeth nag unrhyw orsafoedd tebyg. Rydyn ni'n amcangyfrif y byddwn yn chwarae dros 3,000 o draciau unigryw bob blwyddyn. Y llynedd, chwaraeodd ffrwd Radio 1 Dance Sounds-yn-unig 3,273 o draciau unigryw.

Rydyn ni'n cynnig y byddai tua thraean o'r gerddoriaeth yn ystod y dydd yn gerddoriaeth newydd a bydd tua 45% o'r traciau gan artistiaid o'r DU, gyda rhestr chwarae helaeth o ganeuon sy'n cael eu rhyddhau o'r newydd.

Bydd Radio 1 Dance yn ymdrin â'r ystod ehangaf o genres dawns, yn amrywio o draciau *techno* a *house* mwy hygyrch, i *breakbeat*, *drum & bass*, *trance*, *EDM*, *Afro House* ac *UK Funky*. Bydd penodau clasurol o Radio 1's Essential Mix o archif y BBC yn cael eu darlledu bob wythnos.

### *5.4.3 Amserlen ddangosol a chynlluniau comisiynu*

Fe wnaethon ni lansio Radio1 Dance fel ffrwd Sounds-yn-unig ym mis Hydref 2020. Bryd hynny, doedd dim cynnwys gwreiddiol ar y ffrwd, dim ond ailddarlledu neu gyd-ddarlledu o Radio 1 neu gynnwys a oedd eisoes ar gael ar Sounds (e.e. cymysgedd o gerddoriaeth).

Rydyn ni bellach wedi dechrau comisiynu cynnwys gwreiddiol ar gyfer ffrwd Radio 1 Dance Sounds-yn-unig. Dydy'r comisiynu hwn ddim yn tybio beth fyddai canlyniad Asesiad Cystadleuaeth y BBC gan Ofcom, ond dyma'r rhaglenni a fyddai'n cael eu darlledu ar orsaf Radio 1 Dance DAB+ petai'n cael ei chymeradwyo. Yn unol â'r gyllideb gymharol isel ar gyfer gorsaf Radio 1 Dance a'r safonau golygyddol uchel, ac o ganlyniad cost yr awr y rhaglenni unigol, bydd llawer o'r cynnwys gwreiddiol hwn yn cael ei ailddarlledu sawl gwaith.

Mae'r comisiynau newydd yn cynnwys:

- **Cyfres ar y cyd â'r diwydiant '…on Radio 1' (36 pennod dwy awr o hyd):** Mae Radio 1 wedi ffurfio partneriaeth â thri o frandiau blaenllaw'r diwydiant dawns i dynnu sylw at ddoniau newydd a chyffrous: *Defected*, label recordiau annibynnol sy'n arbenigo mewn cerddoriaeth *house*; *HE.SHE.THEY,* label sy'n llwyfan ar gyfer cerddoriaeth *techno* i *house* ar gyfer pob hil, rhywioldeb a rhywedd; a'r label *drum & bass* arbenigol *DnB Allstars*. Dylai'r gymysgedd o gerddoriaeth ddathlu a thynnu sylw at rôl Radio 1 Dance yn cefnogi ochr fwy arbenigol cerddoriaeth ddawns a bydd yn cynnwys artistiaid a thraciau nad ydyn nhw'n cael cymaint o gefnogaeth ar orsafoedd prif ffrwd.
- **Pete Tong's Essential History of Dance Music (20 pennod dwy awr o hyd):** Bydd y comisiwn hwn yn defnyddio statws ac enw da Pete Tong fel arbenigwr yn y gymuned ddawns ryngwladol i archwilio hanes cerddoriaeth ddawns – o *Techno* i *Dubstep*, *Hard House* i *French Touch* – ar gyfer cynulleidfa ifanc. Bydd y penodau'n cael eu darlledu bob wythnos, yn edrych ar wahanol is-genres dawns, yn cynnwys rhestr chwarae ddifyr o'r traciau hanfodol o'r byd hwnnw, ac yn egluro hanes y genre dan sylw mewn ffordd ddifyr a diddorol.
- **Radio 1 Dance Morning Show (pedair pennod tair awr o hyd bob wythnos):** Bydd y sioe hon yn ffordd fywiog a hwyliog o ddechrau'r diwrnod. Arielle Free fydd yn cyflwyno'r sioe, a fydd yn cynnwys y gerddoriaeth electronig orau a

mwyaf poblogaidd yn y brif ffrwd, ac yn cyflwyno cerddoriaeth ddawns mewn ffordd berthnasol a hwyliog. Bydd yn cynnwys cymysgedd o draciau dawns newydd a chyfoes.

- **Radio 1 Dance playlist (pum pennod tair awr o hyd bob wythnos):** Rhestr chwarae ffres bob dydd, sydd yn ganolbwynt i'r amserlen yn ystod y dydd, gyda chymysgedd di-dor o gerddoriaeth ddawns gyfoes, fywiog. Bydd traciau presennol yn cael eu tynnu o restr chwarae amrywiol sy'n cefnogi artistiaid o'r DU yn benodol.
- **Radio 1's Dance Anthems (tair pennod tair awr o hyd bob wythnos):** Bydd y sioe, a gyflwynir gan Charlie Hedges, yn cyd-fynd â'i rhaglen boblogaidd ar brynhawn Sadwrn ar Radio 1, a fydd yn galluogi gwrandawyr i gofio'n ôl a dawnsio i'w hoff draciau dawns dros yr 20 mlynedd diwethaf.

## Ffigur 7: Amserlen ddangosol estyniad Radio 1 Dance

| | Dydd Llun | Dydd Mawrth | Dydd Mercher | Dydd Iau | Dydd Gwener | Dydd Sadwrn | Dydd Sul |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 00:00 | Classic Essential Mix | Radio 1 Residency | Martha | Essential Mix | Radio 1 Residency | Radio 1 Essential Mix | R1 D&B Mix |
| 01:00 | | R1 Dance Presents | Danny Howard | R1 D&B Mix | Sarah Story | | Classic Essential Mix |
| 02:00 | R1 Dance Morning | R1 Dance Morning | R1 Dance Morning | R1 Dance Morning | R1 Dance Morning | R1 Dance Presents | |
| 03:00 | | | | | | Danny Howard | Story/Tong Hot Mix |
| 04:00 | | | | | | Pete Tong Hot Mix | Introducing Dance |
| 05:00 | R1 Dance Anthems | R1 Dance Anthems | R1 Dance Anthems | R1 Dance Anthems | R1 Dance Anthems | R1 Dance Anthems | R1 Dance Anthems |
| 06:00 | R1 Dance | R1 Dance | R1 Dance | R1 Dance | R1 Dance | R1 Dance | R1 Dance |
| 07:00 | | | | | | | |
| 08:00 | | | | | | | |
| 09:00 | R1 Dance Morning | R1 Dance Morning | R1 Dance Morning | R1 Dance Morning | R1 Dance Morning | R1 Dance Morning | R1 Dance Morning |
| 10:00 | | | | | | | |
| 11:00 | | | | | | | |
| 12:00 | R1 Dance | R1 Dance | R1 Dance | R1 Dance | R1 Dance | R1 Dance Anthems | R1 Dance Anthems |
| 13:00 | | | | | | R1 Dance | R1 Dance |
| 14:00 | | | | | | | |
| 15:00 | R1 Dance Anthems | R1 Dance Anthems | R1 Dance Anthems | R1 Dance Anthems | R1 Dance Anthems | | |
| 16:00 | | | | | | R1 Dance Anthems w/Charlie Hedges | R1 Dance Anthems |
| 17:00 | | | | | | | |
| 18:00 | Pete Tong | Pete Tong | Pete Tong | R1 Dance Party Warm-up | R1 Dance Party w/Danny Howard | | |
| 19:00 | | | | | | Pete Tong Essential History of Dance | R1 Dance Party Warm-up |
| 20:00 | D Howard's Club Mix | R1's D&B Mix | S Story's Dance Mix | R1 Rave-Up with Arielle Free | Future Dance Sarah Story | | |
| 21:00 | Defected on R1 Dance | He She They on R1 Dance | DnB Allstars on R1 Dance | | | Pete Tong Essential History of Dance | R1 Dance Presents… |
| 22:00 | | | | Introducing Dance | Pete Tong | | R1 Essential Mix |
| 23:00 | Radio 1 Residency | Martha | Essential Mix | Radio 1 Residency | | R1 D&B Show | |

Sioe newydd | Cyd-ddarlledu o R1 | Ailddarlledu o R1 | Sioe archif newydd

## 5.5 Radio 1 Anthems: Cynigion terfynol fel gorsaf radio lawn

Ar ôl ystyried adborth gan randdeiliaid, rydyn ni wedi cwblhau ein cynigion ar gyfer Radio 1 Anthems. Mae'r rhain yr un fath â'r rhai roedden ni wedi ymgynghori arnyn nhw ym mis Chwefror o ran sylwedd. Ond rydyn ni nawr yn gallu darparu llawer mwy o fanylion am y rhaglenni rydyn ni'n cynnig a fyddai'n cael eu darlledu. Rydyn ni o'r farn y bydd hyn yn unigryw iawn yn y farchnad.

### *5.5.1 Bwriad cyffredinol a chynulleidfa darged*

Mae Radio 1 Anthems wedi cael ei chreu i fod yn wasanaeth i bobl ifanc, gan bobl ifanc. Prif nod y gwasanaeth yw cael gwybodaeth fanwl am y traciau a'r artistiaid eiconig sydd wedi siapio'r ddau ddegawd diwethaf, gan helpu cynulleidfaoedd i ddarganfod ac ailddarganfod amrywiaeth eang o gerddoriaeth ac artistiaid sy'n cael eu cefnogi gan Radio 1 o'r 2000au hyd heddiw. Bydd yn darparu gorsaf benodol i bobl ifanc allu camu'n ôl i'r gorffennol drwy lais talent ifanc – y tu ôl i'r microffon ac o'i flaen – gan ddatblygu sgiliau curadurol maen nhw'n eu defnyddio fwyfwy erbyn hyn yn y gofod digidol.

Cenhadaeth Radio 1 Anthems yw datblygu ac ymgysylltu â chynulleidfa amrywiol 15-34 oed ledled y DU, gyda ffocws arbennig ar y grŵp oedran 15-24. Rydyn ni'n credu'n arbennig y bydd Radio 1 Anthems yn rhoi mwy o werth i gynulleidfaoedd iau o grwpiau C2DE.

### *5.5.2 Polisi cerddoriaeth*

Rydyn ni'n cynnig y bydd Radio 1 Anthems yn chwarae amrywiaeth ehangach o gerddoriaeth nag unrhyw orsaf debyg. Rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda Chymdeithas Radio Myfyrwyr a phanel bach o fyfyrwyr dros yr haf i gael gwybodaeth a helpu i lunio polisi cerddoriaeth sy'n taro tant gyda gwrandawyr ifanc.

Rydyn ni'n amcangyfrif y byddwn yn chwarae tua 4,000 o draciau unigryw bob blwyddyn: cymysgedd o ganeuon clasurol a pherlau sydd wedi mynd yn angof, nad ydyn nhw'n cael eu chwarae'n aml gan unrhyw un arall. Bydd y gymysgedd o genres yn debyg i Radio 1, gan gynnwys pop clasurol, roc, rap, R&B, dawns a thraciau indie.

Rydyn ni'n cynnig y bydd o leiaf 33% o'r traciau gan artistiaid o'r DU. Fel cynnig a fydd yn camu'n ôl i'r gorffennol, fydd Radio 1 Anthems ddim yn cynnwys llawer iawn o gerddoriaeth newydd.

Bydd deunydd llafar yn cyfrif am tua 10-20% o'r rhan fwyaf o raglenni.

### *5.5.3 Amserlen ddangosol a chynlluniau comisiynu*

Mae estyniad ffrwd Radio 1 Anthems Sounds-yn-unig wedi dechrau comisiynu cynnwys gwreiddiol cyn ei lansio ar Sounds ym mis Tachwedd 2024. Dydy'r comisiynu hwn ddim yn tybio beth fyddai canlyniad Asesiad Cystadleuaeth y BBC gan Ofcom, ond dyma'r rhaglenni a fyddai'n cael eu darlledu ar orsaf Radio 1 Anthems petai'n cael ei chymeradwyo fel gorsaf lawn.

Bydd yr amserlen arfaethedig yn cyfuno rhaglenni newydd sy'n cael eu comisiynu'n benodol ar gyfer y gwasanaeth, ochr yn ochr â nifer o frandiau sy'n dod o dan faner

‘anthemau’ presennol Radio 1: gan gynnwys anthemau ymarfer corff, pop ac ymlacio. Yn yr un modd â Radio 1 Dance, yn unol â’r gyllideb gymharol isel ar gyfer gorsaf Radio 1 Anthems a’r safonau golygyddol uchel, ac o ganlyniad cost yr awr y rhaglenni unigol, bydd llawer o’r cynnwys gwreiddiol hwn yn cael ei ailddarlledu sawl gwaith.

Mae’r comisiynau newydd cyntaf yn cynnwys:

- **Radio 1 Anthems Discovery (25 pennod dwy awr o hyd)**
  Bydd y rhaglen hon yn manteisio ar enw da Radio 1 yn addysgu ac yn hysbysu pobl ifanc am y gerddoriaeth a’r diwylliant y mae angen iddyn nhw wybod amdanyn nhw. Drwy ganolbwyntio ar guradu cerddoriaeth, bydd pob pennod yn taflu goleuni ar artist, genre neu thema wahanol, ac yn gwneud cysylltiad â cherddoriaeth heddiw.
- **My Radio 1 Anthems (16 pennod dwy awr o hyd)**
  Bydd straeon diddorol, curadu crefftus a brwdfrydedd cerddorol yn byrlymu drwy bob pennod yn y gyfres hon a fydd yn dathlu cerddoriaeth ddoe drwy lygaid sêr mwyaf heddiw. Bydd pob pennod yn cael ei chyflwyno gan artist gwahanol ac yn cynnwys y gerddoriaeth a ddylanwadodd ar eu gwaith a’r traciau roedden nhw’n eu hoffi. Ein bwriad yw y bydd hyn yn rhoi cyfle i wrandawyr glywed ffefrynnau adnabyddus yn ogystal â darganfod traciau newydd o’r cyfnod.
- **Radio 1’s 100 Greatest Anthems (4 cyfres 4 rhan - pob sioe yn ddwy awr o hyd)**
  Bydd y rhaglen hon yn cyfri’n ôl y 100 o ganeuon gorau dros bedair pennod dwy awr o hyd. Bydd pob un o’r 100 uchaf yn ymdrin â genre, degawd neu thema wahanol.

Cwmni Audio Always sydd wedi ennill y comisiwn ar gyfer y rhain, a fydd yn gwneud y sioeau o’i ganolfan yn Birmingham. Mewn partneriaeth â Radio 1 a Chymdeithas Radio Myfyrwyr, fe wnaeth hysbysebu’n ddiweddar am Hyfforddai Cynhyrchu i ymuno â’i dîm i weithio ar ddatblygu’r tair rhaglen.

Dydy cyflwynwyr Radio 1 Anthems ddim wedi cael eu cyhoeddi eto, ond rydyn ni’n disgwyl mai dyma fydd rôl broffesiynol gyntaf y rhan fwyaf ohonyn nhw y tu ôl i’r microffon.

## Ffigur 8: Amserlen ddangosol Estyniad Radio 1 Anthems

| | Dydd Llun | Dydd Mawrth | Dydd Mercher | Dydd Iau | Dydd Gwener | Dydd Sadwrn | Dydd Sul |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 00:00 | R1 Anthems | R1 Anthems | R1 Anthems | R1 Anthems | R1 Anthems | R1 Anthems | R1 Anthems |
| 01:00 | Pop Anthems | Pop Anthems | Pop Anthems | Pop Anthems | Pop Anthems | Pop Anthems | Pop Anthems |
| 02:00 | R1 Anthems | R1 Anthems | R1 Anthems | R1 Anthems | R1 Anthems | R1 Anthems | R1 Anthems |
| 03:00 | | | | | | | |
| 04:00 | Chillout Anthems | Chillout Anthems | Chillout Anthems | Chillout Anthems | Chillout Anthems | Chillout Anthems | Chillout Anthems |
| 05:00 | R1 Anthems | R1 Anthems | R1 Anthems | R1 Anthems | R1 Anthems | R1 Anthems | R1 Anthems |
| 06:00 | | | | | | | |
| 07:00 | Workout Anthems | Workout Anthems | Workout Anthems | Workout Anthems | Workout Anthems | Workout Anthems | Workout Anthems |
| 08:00 | R1 Anthems | R1 Anthems | R1 Anthems | R1 Anthems | R1 Anthems | R1 Anthems | R1 Anthems |
| 09:00 | | | | | | | |
| 10:00 | Pop Anthems | Pop Anthems | Pop Anthems | Pop Anthems | R1 Anthems | R1 Anthems | R1 Anthems |
| 11:00 | R1 Anthems | R1 Anthems | R1 Anthems | R1 Anthems | R1 Anthems | R1 Anthems | R1 Anthems |
| 12:00 | | | | | | | |
| 13:00 | Happy Anthems | Happy Anthems | Happy Anthems | Happy Anthems | Happy Anthems | Happy Anthems | Happy Anthems |
| 14:00 | R1 Anthems | R1 Anthems | R1 Anthems | R1 Anthems | Dance Anthems | R1 Anthems | R1 Anthems |
| 15:00 | | | | | Party Anthems | | |
| 16:00 | Pop Anthems | Pop Anthems | Pop Anthems | Pop Anthems | Pop Anthems | Pop Anthems | Pop Anthems |
| 17:00 | R1 Anthems | R1 Anthems | R1 Anthems | R1 Anthems | R1 Anthems | R1 Anthems | R1 Anthems |
| 18:00 | | | | | | | |
| 19:00 | Workout Anthems | Workout Anthems | Workout Anthems | Workout Anthems | Workout Anthems | Workout Anthems | Workout Anthems |
| 20:00 | 100 Greatest / My Anthems / Discovery | 100 Greatest / My Anthems / Discovery | 100 Greatest / My Anthems / Discovery | 100 Greatest / My Anthems / Discovery | 100 Greatest / My Anthems / Discovery | 100 Greatest / My Anthems / Discovery | 100 Greatest / My Anthems / Discovery |
| 21:00 | | | | | | | |
| 22:00 | Chillout Anthems | Chillout Anthems | Chillout Anthems | Chillout Anthems | Chillout Anthems | Chillout Anthems | Chillout Anthems |
| 23:00 | R1 Anthems | R1 Anthems | R1 Anthems | R1 Anthems | R1 Anthems | R1 Anthems | R1 Anthems |

Sioe newydd | Cyd-ddarlledu o R1 | Ailddarlledu o R1 | Sioe archif newydd

## 5.6 Estyniad Radio 2: Cynigion terfynol fel gorsaf radio lawn

Ar ôl ystyried adborth gan randdeiliaid, rydyn ni wedi cwblhau ein cynigion ar gyfer estyniad Radio 2. Mewn ymateb i'r adborth hwn, rydyn ni wedi ailddatblygu ein cynigion ar gyfer estyniad Radio 2. Roedd ein cynnig gwreiddiol ar gyfer estyniad Radio 2 ar gyfer gorsaf heb newyddion sy'n cael ei harwain gan gerddoriaeth ac sy'n seiliedig ar hwyliau. Fel y nodir isod, rydyn ni wedi ailddatblygu hyn yn sylweddol, ac rydyn ni nawr yn gallu darparu llawer mwy o fanylion am y rhaglenni rydyn ni'n cynnig a fyddai'n cael eu darlledu. Rydyn ni o'r farn y bydd hyn yn unigryw iawn yn y farchnad.

### *5.6.1 Bwriad cyffredinol a chynulleidfa darged*

Ar lefel uchel, mae ein gweledigaeth yn aros yr un fath: bydd estyniad Radio 2 yn rhoi cipolwg unigryw ar hen ganeuon pop, gan dyrchu drwy gerddoriaeth ac archif unigryw y BBC yn bennaf o'r 1950au, y 1960au a'r 1970au. Ei nod yw apelio at gynulleidfa darged o bobl 55 oed a hŷn, gan roi mwy o werth o ffi'r drwydded i'r rheini o grwpiau C2DE.

### *5.6.2 Newyddion*

Y newid mwyaf i'r cynlluniau ar gyfer estyniad Radio 2 yw ein bod nawr yn cynnig y bydd yn cynnwys bwletinau newyddion drwy gydol y dydd ar ddechrau pob rhaglen ar yr amserlen. Bydd y bwletinau hyn yn cael eu cyd-ddarlledu ar yr un pryd ar Radio 2. Rydyn ni'n rhagweld o leiaf 10 bwletin y dydd, sy'n dod i gyfanswm o tua 70 yr wythnos.

### *5.6.3 Polisi cerddoriaeth*

Bydd yr holl sioeau'n cael eu rhaglennu gan ddefnyddio Llyfrgell Recordiau R2 a'r BBC – y repertoire cerddorol mwyaf ar gyfer radio'r DU. Rydyn ni nawr yn disgwyl chwarae o leiaf 6,000 o draciau (unigryw) y flwyddyn o'r 1950au, y 1960au a'r 1970au, gan gynnwys traciau llai adnabyddus oddi ar albymau, artistiaid a gafodd lwyddiant ag un gân yn unig, ac ati.

Bydd tua 40% o'r traciau sy'n cael eu chwarae ar estyniad Radio 2 yn ganeuon gan artistiaid o'r DU. Mae hyn yr un fath ag y gwnaethon ni ei nodi yn ein hymgynghoriad ym mis Chwefror.

### *5.6.4 Cefnogi creadigrwydd cynhenid*

Rydyn ni nawr yn sefydlu partneriaeth rhwng estyniad Radio 2 a gorsafoedd radio lleol a chenedlaethol y BBC i ddefnyddio arbenigwyr a lleisiau lleol i adrodd stori am arwyddocâd cerddoriaeth eu rhanbarthau penodol ledled y DU.

Bydd estyniad Radio 2 hefyd yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gomisiynu rhaglenni gan gynhyrchwyr annibynnol lleol ledled y DU.

### *5.6.5 Rhaglenni llafar / sy'n cael eu harwain gan ddeunydd llafar ac archif y BBC*

Rydyn ni nawr yn cynnig y bydd y rhan fwyaf o'r amserlen (tua 60%) yn ddeunydd llafar. Bydd hyn yn cynnwys rhaglenni dogfen perthnasol, difyr ac addysgol (tua 55% o gerddoriaeth, 45% o ddeunydd llafar) neu raglenni wedi'u curadu'n arbennig (tua 65% o gerddoriaeth/35% o ddeunydd llafar).

Bydd tua 20% o'r amserlen yn defnyddio archif unigryw'r BBC o ganeuon, sesiynau a chyfweliadau wedi'u recordio'n arbennig. Mae hyn yn gynnydd o'n hamcangyfrifon blaenorol o 5% o'r amserlen.

### *5.6.6 Amserlen ddangosol a chynlluniau comisiynu*

Fel y nodwyd uchod, roedden ni wedi bwriadu lansio estyniad Radio 2 yn wreiddiol fel ffrwd Sounds-yn-unig cyn y gorsafoedd llawn. Ym mis Gorffennaf 2024, penderfynodd Ofcom fod ymestyn ffrwd Radio 2 Sounds-yn-unig yn newid sylfaenol, ac felly na ellid ei lansio heb Brawf Budd y Cyhoedd llawn. Felly, fe wnaethon ni roi'r gorau i'n cynlluniau ar gyfer ffrwd Sounds-yn-unig.

Fodd bynnag, roedden ni wedi dechrau rowndiau comisiynu ar gyfer y rhaglenni newydd, fel roedden ni wedi'i wneud gyda ffrydiau eraill Sounds-yn-unig. Isod, rydyn ni'n nodi'r rhaglenni lle roedden ni wedi gwahodd cynigion gan gynhyrchwyr. Dydyn ni ddim wedi parhau â'r ymarfer comisiynu hwn, yn dilyn penderfyniad Ofcom, ond mae'n rhoi syniad o'r rhaglenni a fyddai'n cael eu darlledu ar estyniad newydd Radio 2 petai'r orsaf ei chymeradwyo. Yn yr un modd â'r cynigion eraill, yn unol â'r gyllideb gymharol isel ar gyfer estyniad Radio 2 a'r safonau golygyddol uchel, ac o ganlyniad cost yr awr y rhaglenni unigol, bydd llawer o'r cynnwys gwreiddiol hwn yn cael ei ailddarlledu sawl gwaith.

Ar gyfer pob un o'r rhain, roedden ni wedi dweud y dylai'r gerddoriaeth fod yn boblogaidd iawn, gyda chaneuon mwy anghyfarwydd yn y gymysgedd er mwyn synnu, swyno a bod yn unigryw. Mae'r naws gyffredinol yn fywiog ac yn dod â'r gorffennol i gof, a daw'r gerddoriaeth o oes aur cerddoriaeth bop. Byddwn yn chwarae caneuon pop melodaidd sydd wedi dal prawf amser, traciau albwm a chaneuon mwy anghyfarwydd o repertoire unigryw a helaeth o gerddoriaeth o'r 50au, y 60au a'r 70au, gyda chyflwynwyr sy'n gallu adrodd straeon yn unol â thraddodiad gorau'r BBC ochr yn ochr â rhaglenni cerddoriaeth ac amserlennu emosiynol ddeallus, er mwyn galluogi cynulleidfaoedd i gael blas o'r gorffennol heddiw.

Isod, rydyn ni'n nodi rhai o syniadau ar gyfer rhaglenni lle roedden ni wedi gwahodd cynigion gan gynhyrchwyr:

- **Celebrates (w/t) (pum pennod tair awr o hyd bob wythnos)**
  Sioe hwyliog ar-alw sy'n canolbwyntio ar bersonoliaethau ac sy'n para tair awr, gyda thema gerddorol i bob pennod, sy'n canolbwyntio ar symudiad cerddorol, cyfnod, genre, label recordio, ac ati.
- **Legends (w/t) (pum pennod awr o hyd bob wythnos)**
  Sioe awr o hyd dan arweiniad cyflwynydd sy'n defnyddio archif helaeth y BBC i adrodd straeon artistiaid a grwpiau allweddol o'r 50au, y 60au a'r 70au a fyddai o ddiddordeb i'n cynulleidfa darged a thu hwnt, mewn ffordd ddifyr a diddorol.
- **Culture Show (w/t) (pum pennod tair awr o hyd bob wythnos)**
  Sioe dair awr sy'n canolbwyntio ar bersonoliaethau, gyda phob pennod yn cynnwys cyfweliad newydd â ffigurau diwylliannol o'r 50au, y 60au a'r 70au, a fydd yn sôn am eu hatgofion a'u profiadau ac yn taflu goleuni newydd ar y cyfnod, neu rywun sy'n frwdfrydig dros agwedd benodol ar gerddoriaeth a diwylliant y cyfnod neu sy'n arbenigo yn hynny.

- **Archive Show (w/t) (pum pennod tair awr o hyd bob wythnos)**
  Sioe dair awr sy'n canolbwyntio ar bersonoliaethau ac yn defnyddio archif helaeth y BBC.
- **Memories (w/t) (pum pennod tair awr o hyd bob wythnos)**
  Sioe dair awr, hwyliog sy'n canolbwyntio ar bersonoliaethau ac yn hel atgofion am hoff gerddoriaeth y cyflwynydd a'r gwrandawyr. Bydd y sioe hon yn cynnwys cymysgedd o gerddoriaeth am 30 munud ar thema benodol ym mhob pennod.
- **Listeners (w/t) (un bennod tair awr o hyd bob wythnos)**
  Sioe dair awr o hyd sy'n canolbwyntio ar bersonoliaethau ac sy'n cael ei harwain gan y gynulleidfa, lle caiff gwrandawyr y cyfle i rannu eu hatgofion penodol o thema ar ddiwylliant poblogaidd o ddewis y cyflwynydd.

**Ffigur 9: Amserlen ddangosol Estyniad Radio 2**

<table>
<tr><th></th><th>Dydd Llun</th><th>Dydd Mawrth</th><th>Dydd Mercher</th><th>Dydd Iau</th><th>Dydd Gwener</th><th>Dydd Sadwrn</th><th>Dydd Sul</th></tr>
<tr><td>00:00</td><td rowspan="2">Radio 2 archive show</td><td rowspan="2">Radio 2 archive show</td><td rowspan="2">Radio 2 archive show</td><td rowspan="2">Radio 2 archive show</td><td rowspan="2">Radio 2 archive show</td><td rowspan="3">Radio 2 Sounds Playlist</td><td rowspan="3">Radio 2 Sounds Playlist</td></tr>
<tr><td>01:00</td></tr>
<tr><td>02:00</td><td rowspan="3">Radio 2 Sounds Playlist</td><td rowspan="3">Radio 2 Sounds Playlist</td><td rowspan="3">Radio 2 Sounds Playlist</td><td rowspan="3">Radio 2 Sounds Playlist</td><td rowspan="3">Radio 2 Sounds Playlist</td></tr>
<tr><td>03:00</td><td rowspan="3">Radio 2 Sounds Playlist</td><td rowspan="3">Radio 2 Sounds Playlist</td></tr>
<tr><td>04:00</td></tr>
<tr><td>05:00</td><td rowspan="3">Radio 2 Sounds Playlist</td><td rowspan="3">Radio 2 Sounds Playlist</td><td rowspan="3">Radio 2 Sounds Playlist</td><td rowspan="3">Radio 2 Sounds Playlist</td><td rowspan="3">Radio 2 Sounds Playlist</td></tr>
<tr><td>06:00</td><td rowspan="2">Sounds of the 60s</td><td>Archive doc</td></tr>
<tr><td>07:00</td><td rowspan="2">Archive compilation</td></tr>
<tr><td>08:00</td><td>Legends</td><td>Legends</td><td>Legends</td><td>Legends</td><td>Legends</td><td rowspan="2">Archive show</td></tr>
<tr><td>09:00</td><td rowspan="3">Celebrates</td><td rowspan="3">Celebrates</td><td rowspan="3">Celebrates</td><td rowspan="3">Celebrates</td><td rowspan="3">Celebrates</td><td rowspan="2">Love Songs w/ Michael Ball</td></tr>
<tr><td>10:00</td><td>Archive doc</td></tr>
<tr><td>11:00</td><td>Archive doc</td><td>Archive doc</td></tr>
<tr><td>12:00</td><td rowspan="3">Memories</td><td rowspan="3">Memories</td><td rowspan="3">Memories</td><td rowspan="3">Memories</td><td rowspan="3">Memories</td><td rowspan="3">Genre show</td><td rowspan="3">Genre show</td></tr>
<tr><td>13:00</td></tr>
<tr><td>14:00</td></tr>
<tr><td>15:00</td><td rowspan="3">Culture Show</td><td rowspan="3">Culture Show</td><td rowspan="3">Culture Show</td><td rowspan="3">Culture Show</td><td rowspan="3">Culture Show</td><td rowspan="3">Radio 2 archive Show</td><td rowspan="2">Sounds of the 70s</td></tr>
<tr><td>16:00</td></tr>
<tr><td>17:00</td><td rowspan="3">Listeners</td></tr>
<tr><td>18:00</td><td rowspan="3">Archive Show</td><td rowspan="3">Archive Show</td><td rowspan="3">Archive Show</td><td rowspan="3">Archive Show</td><td rowspan="3">Archive Show</td><td>Archive compilation</td></tr>
<tr><td>19:00</td><td>Genre Show</td></tr>
<tr><td>20:00</td><td rowspan="2">Archive compilation</td><td rowspan="2">Paul Gambaccini Collection</td></tr>
<tr><td>21:00</td><td>Legends</td><td>Legends</td><td>Legends</td><td>Legends</td><td>Legends</td></tr>
<tr><td>22:00</td><td rowspan="2">Radio 2 archive show</td><td rowspan="2">Radio 2 archive show</td><td rowspan="2">Radio 2 archive show</td><td rowspan="2">Radio 2 archive show</td><td rowspan="2">Radio 2 archive show</td><td rowspan="2">Genre show</td><td rowspan="2">Genre show</td></tr>
<tr><td>23:00</td></tr>
</table>

Sioe newydd | Cyd-ddarlledu o R2 | Ailddarlledu o R2 | Sioe archif newydd

## 5.7 Radio 3 Unwind: Cynigion terfynol fel gorsaf radio lawn

Ar ôl ystyried adborth gan randdeiliaid, rydyn ni wedi cwblhau ein cynigion ar gyfer Radio 3 Unwind. Mae'r rhain yr un fath â'r rhai roedden ni wedi ymgynghori arnyn nhw ym mis Chwefror o ran sylwedd. Ond rydyn ni nawr yn gallu darparu llawer mwy o fanylion am y rhaglenni rydyn ni'n cynnig a fyddai'n cael eu darlledu. Rydyn ni o'r farn y bydd hyn yn unigryw iawn yn y farchnad.

### *5.7.1 Bwriad cyffredinol a chynulleidfa darged*

Prif amcan Radio 3 Unwind yw gwasanaethu cynulleidfaoedd rhwng 35 a 54 oed, sy'n iau na'r oedran cyfartalog ar gyfer Radio 3 a gorsafoedd clasurol eraill.[35] Bydd hyn yn helpu i ddenu mwy o gynulleidfa i gerddoriaeth glasurol yn y DU, ac yn diwallu hwyliau ac anghenion cynulleidfaoedd modern yn well.

Bydd Radio 3 Unwind yn cyflwyno amrywiaeth eang iawn o gerddoriaeth glasurol i gefnogi arferion dyddiol gwrandawyr, yn eu helpu i ddianc rhag pwysau a straen bywyd bob dydd ac yn hyrwyddo eu lles. Drwy gydol y dydd, cynigir cynnwys sy'n hyrwyddo ffocws, yn helpu gwrandawyr i fwrw eu blinder, ymlacio a chael cyfle i ddianc i fyd arall yn ogystal â helpu i orffwyso a chysgu.

### *5.7.2 Polisi cerddoriaeth*

Bydd Radio 3 Unwind yn cynnwys amrywiaeth eang o gerddoriaeth o'r 1500au hyd at heddiw, gan guradu darnau mwy cyfarwydd yn arbenigol ochr yn ochr â chyfansoddiadau llai adnabyddus a darganfyddiadau newydd. Bydd y polisi cerddoriaeth amrywiol yn cynnwys gweithiau cerddorfaol, piano unigol a cherddoriaeth gorawl etheraidd, yn ogystal â repertoire minimalaidd a neoglasurol, sy'n dangos amrywiaeth a natur esblygol y genre.

I gefnogi sîn gerddoriaeth y DU, mae Radio 3 Unwind wedi ymrwymo i hyrwyddo cerddoriaeth gan gyfansoddwyr byw, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddoniau Prydeinig. Bydd yn adlewyrchu'r genhedlaeth newydd o artistiaid-gyfansoddwyr fel Erland Cooper, Hania Rani, Ólafur Arnalds ac Isobel Waller-Bridge, gyda rhaglenni'n canolbwyntio ar gyfansoddwyr cyfoes a newydd yn ogystal ag artistiaid BBC Introducing, gan gyflwyno eu cerddoriaeth i lawer mwy o wrandawyr. Bydd yn adlewyrchu cyfansoddwyr nad ydyn nhw'n cael eu cynrychioli'n ddigonol, gan gynnwys menywod a chyfansoddwyr sy'n amrywiol o ran ethnigrwydd, ar draws ei hamserlen.

Bydd yr holl sioeau sy'n cael eu comisiynu ar gyfer Radio 3 Unwind, heblaw am *Cinematic Soundtracks* a *Sleep Tracks*, yn cynnwys o leiaf 25% o gerddoriaeth y DU (h.y. gan gyfansoddwyr o'r DU). Hefyd, dwy sioe a fydd yn chwarae cerddoriaeth gan gyfansoddwyr ac artistiaid o'r DU yn unig. Bydd *Soundwaves* yn tynnu sylw at gerddoriaeth gan gyfansoddwyr ac artistiaid cyfoes o'r DU ac sy'n byw yn y DU, a dim ond cerddoriaeth gan gyfansoddwyr BBC Introducing y DU fydd ar *The Sleeping Forecast*.

---

[35] RAJAR Ch3 2023

Mae'r *Music & Meditation Podcast* hefyd yn cynnwys darn newydd wedi'i gomisiynu'n arbennig gan gyfansoddwr ifanc, newydd o'r DU, ym mhob pennod.

Bydd cyfansoddwyr byw cyfoes yn ymddangos ar bob sioe (ar wahân i *Sleep Tracks*), gyda darnau gan gyfansoddwyr byw yn cyfrif am o leiaf 50% o draciau ar *Piano Focus*.

Ar ben hynny, bydd cyfansoddwyr nad ydyn nhw'n cael eu cynrychioli'n ddigonol yn ymddangos ar draws yr amserlen ym mhob rhaglen. Y tu allan i *Sleep Tracks*, *The Sleeping Forecast* a *The Music & Meditation Podcast* bydd hyn yn cynnwys:

- Tua 20% o gerddoriaeth gan gyfansoddwyr benywaidd fesul pennod;
- Tua 15% o gerddoriaeth gan gyfansoddwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig fesul pennod.

Er mwyn rhoi mwy o sylw i waith newydd, bydd Radio 3 Unwind yn darlledu darnau a gomisiynwyd ar gyfer prif orsaf Radio 3, a bydd yn amlinellu cyfansoddiadau sydd wedi'u comisiynu'n arbennig ar gyfer sioeau fel *The Music & Meditation Podcast*.

I gefnogi diwydiant cerddoriaeth wedi'i recordio'r DU, bydd yr estyniad yn canolbwyntio ar recordiadau diweddar, ac yn tynnu sylw at berfformwyr ac ensembles presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg ar draws ei amserlen. Rydyn ni'n amcangyfrif y bydd y recordiau'n dod o'r 10 mlynedd diwethaf yn bennaf, gyda'r rhan fwyaf yn dod o'r pum mlynedd diwethaf.

Byddwn yn blaenoriaethu perfformwyr ac ensembles Prydeinig lle bo hynny'n bosibl. Yn olaf, bydd Radio 3 Unwind yn cynnwys cerddoriaeth fyw wedi'i recordio'n arbennig gan Gorau a Cherddorfeydd y BBC, a charfan flynyddol Radio 3 o Artistiaid Cenhedlaeth Newydd.

### *5.7.3 Amserlen ddangosol a chynlluniau comisiynu*

Mae estyniad ffrwd Radio 3 Unwind Sounds-yn-unig wedi dechrau comisiynu cynnwys gwreiddiol cyn ei lansio ar Sounds ym mis Tachwedd 2024. Dydy'r comisiynu hwn ddim yn tybio beth fyddai canlyniad Asesiad Cystadleuaeth y BBC Ofcom ar y gorsafoedd llawn, ond dyma'r rhaglenni a fyddai'n cael eu darlledu ar Radio 3 Unwind petai'n cael ei chymeradwyo fel gorsaf lawn. Isod, rydyn ni'n nodi'r rhaglenni lle rydyn ni wedi gwahodd cynigion gan gynhyrchwyr. Yn unol â'r gyllideb gymharol isel ar gyfer gorsaf Radio 3 Unwind a'r safonau golygyddol uchel, ac o ganlyniad cost yr awr y rhaglenni unigol, bydd llawer o'r cynnwys gwreiddiol hwn yn cael ei ailadrodd sawl gwaith.

Mae'r comisiynau newydd cyntaf yn cynnwys:

- **Classical Unwind (saith pennod tair awr o hyd bob wythnos):**
  Bydd y rhaglen hon yn cynnwys cerddoriaeth alawol, ymlaciol a chlasurol i gadw'r gwrandawyr yn dawel, eu helpu i ganolbwyntio a'u paratoi ar gyfer y diwrnod i ddod. Y ddarlledwraig a'r seicolegydd, Dr Sian Williams, fydd yn cyflwyno'r rhaglen a fydd yn cynnwys cerddoriaeth wedi'i churadu'n ofalus o gyfnodau Baróc, Clasurol, Rhamantaidd a dechrau'r 20fed ganrif hyd heddiw, gyda rhywfaint o nodweddion ysgafn i helpu gwrandawyr i atal pethau rhag tynnu eu sylw, cefnogi eu hiechyd meddwl, a dangos sut gall cerddoriaeth ysgogi'r meddwl.

- **Classical Wind Down (saith pennod tair awr o hyd bob wythnos):** Bwriad y sioe gerddoriaeth hon yw helpu gwrandawyr i ymlacio, dianc rhag prysurdeb y diwrnod a pharatoi am noson o lonyddwch. Bydd yn cynnwys amrywiaeth eang o gerddoriaeth ymlaciol, atmosfferig a melodaidd sy’n cyfuno darnau clasurol cynnar a chraidd â darnau cherddoriaeth neo-glasurol, gyfoes a chlasurol eu natur. Y cerddor, y podlediwr, yr eiriolwr iechyd meddwl a’r arbenigwr ymwybyddiaeth ofalgar o Iwerddon, Niall Breslin, yw’r cyflwynydd. Bydd hefyd yn cynnwys munudau meddylgarwch er mwyn galluogi gwrandawyr i ‘gael saib’, yn ogystal â chyngor a gwybodaeth sy’n seiliedig ar wyddoniaeth i wella lles, gyda cherddoriaeth yn gefndir i’r cyfan.
- **Cinematic Soundtracks (chwe phennod awr o hyd bob wythnos):** Mae traciau sain dihangol o fyd y ffilm a theledu, wedi’u cyfuno â sain atmosfferig, yn tywys y gwrandawyr i ymgolli mewn byd sain sinematig. Edith Bowman, y ddarlledwraig a’r bodledwraig sy’n ffan mawr o ffilmiau fydd yn cyflwyno clasuron a champweithiau cyfoes a newydd sbon, gan gynnwys detholiadau o gerddoriaeth ysgafn gan gyfansoddwyr, cyfarwyddwyr ac actorion cyfoes.
- **Soundwaves (un bennod awr o hyd bob wythnos)** Mae’r sioe hon yn canolbwyntio ar gerddoriaeth newydd ac anturus gan gyfansoddwyr ac artistiaid clasurol cyfoes disgleiriaf y DU (wedi’u geni yn y DU ac sy’n byw yn y DU). Y cynhyrchydd, y gyfansoddwraig a’r ddarlledwraig, Afrodeutsche, sy’n cyflwyno. Gyda chymysgedd deniadol, bywiog ac amrywiol o gerddoriaeth glasurol gyfoes, neo-glasurol a chlasurol ei dylanwad, bydd yn ehangu gorwelion ein cynulleidfa ac yn hyrwyddo cerddorion profiadol a llai adnabyddus, gan gynnwys artistiaid BBC Introducing.
- **Sleep Tracks (Saith pennod pum awr a hanner o hyd bob wythnos)** Mae'r comisiwn hwn yn gwahodd gwrandawyr i ddisgyn i gysgu’n braf gyda chyfuniad hyfryd o gerddoriaeth glasurol a synau o fyd natur. Mae pob pennod yn cludo gwrandawyr i amgylchedd unigryw – o nosweithiau canol haf, i ddyfnderoedd y goedwig law, i lan y môr lle mae’r tonnau’n torri’n ysgafn – gan gyfuno cerddoriaeth glasurol dyner a hypnotig â seinweddau naturiol ymdrwythol. Caiff y rhaglen ei chynhyrchu gan y gyfansoddwraig, y cerddor a’r dylunydd sain arobryn Alice Boyd a’i churadu gan y gyfansoddwraig, y gantores a’r cynhyrchydd, Joy Nkoyo.

## Ffigur 10: Amserlen ddangosol Estyniad Radio 3

| | Dydd Llun | Dydd Mawrth | Dydd Mercher | Dydd Iau | Dydd Gwener | Dydd Sadwrn | Dydd Sul |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 00:00 | Sleeping Forecast | Sleeping Forecast | Sleeping Forecast | Sleeping Forecast | Sleeping Forecast | Sleeping Forecast | Sleeping Forecast |
| | Sleep Tracks | Sleep Tracks | Sleep Tracks | Sleep Tracks | Sleep Tracks | Sleep Tracks | Sleep Tracks |
| 01:00 | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| 02:00 | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| 03:00 | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| 04:00 | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| 05:00 | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| 06:00 | Mindful Mix | Mindful Mix | Mindful Mix | Mindful Mix | Mindful Mix | Mindful Mix | Mindful Mix |
| | | | | | | | |
| 07:00 | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| 08:00 | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| 09:00 | Classical Unwind | Classical Unwind | Classical Unwind | Classical Unwind | Classical Unwind | Classical Unwind | Classical Flow |
| | | | | | | | |
| 10:00 | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| 11:00 | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| 12:00 | Piano Focus | Piano Focus | Piano Focus | Piano Focus | Piano Focus | Piano Focus | Piano Focus |
| | | | | | | | |
| 13:00 | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| 14:00 | Mindful Mix | Mindful Mix | Mindful Mix | Mindful Mix | Mindful Mix | Mindful Mix | Mindful Mix |
| | | | | | | | |
| 15:00 | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| 16:00 | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| 17:00 | Cinematic Soundtracks | Cinematic Soundtracks | Cinematic Soundtracks | Cinematic Soundtracks | Cinematic Soundtracks | Cinematic Soundtracks | Mediation pod |
| | | | | | | | Classical mixtape |
| 18:00 | Classical Wind Down | Classical Wind Down | Classical Wind Down | Classical Wind Down | Classical Wind Down | Classical Wind Down | Classical Wind Down |
| | | | | | | | |
| 19:00 | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| 20:00 | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| 21:00 | Ultimate Calm | Ultimate Calm | Ultimate Calm | Ultimate Calm | Ultimate Calm | Ultimate Calm | Sound-waves |
| | | | | | | | |
| 22:00 | Night Tracks | Night Tracks | Night Tracks | Night Tracks | Night Tracks | Night Tracks | Night Tracks |
| | | | | | | | |
| 23:00 | | | | | | | |
| | Sleeping Forecast | Sleeping Forecast | Sleeping Forecast | Sleeping Forecast | Sleeping Forecast | Sleeping Forecast | Sleeping Forecast |

Sioe newydd | Cyd-ddarlledu o R3 | Existing Sounds Mix | Ailddarlledu o R3

# 6. Asesiad o werth cyhoeddus

## 6.1 Cyflawni Cenhadaeth y BBC

Mae'r BBC yn sefydliad sy'n cael ei sbarduno gan ei genhadaeth. Ei genhadaeth yw "gweithredu er budd y cyhoedd, gwasanaethu pob cynulleidfa drwy ddarparu allbwn a gwasanaethau diduedd a neilltuol o safon uchel, sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu".[36]

Wrth wneud hynny, rhaid i'r BBC sicrhau gwerth gwych am arian yn gyfnewid am ffi'r drwydded. Ochr yn ochr â'r genhadaeth hon mae pum diben cyhoeddus sy'n arwain gweithrediad y BBC ymhellach. Y rhain yw:

- Darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd;
- Cefnogi cyfleoedd dysgu i bobl o bob oed;
- Darparu cynnwys unigryw;
- Adlewyrchu cymunedau amrywiol y DU a chefnogi'r economi greadigol; ac
- Adlewyrchu'r DU i'r byd.[37]

Rydyn ni'n ystyried gwerth cyhoeddus o ran sut mae newid yng Ngwasanaethau Cyhoeddus y DU gan y BBC yn ychwanegu at y gwaith o gyflawni'r Genhadaeth honno a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus. Yn yr adran hon rydyn ni'n nodi sut rydyn ni'n meddwl y bydd y gwasanaethau newydd hyn yn rhoi mwy o werth i'r rheini sy'n talu ffi'r drwydded.

## 6.2 Ein Fframwaith Gwerth Cyhoeddus

Yn 2020, buom yn gweithio gyda'r Athro Mariana Mazzucato ac IIPP (Institute for Innovation and Public Purpose) yng Ngholeg y Brifysgol, Llundain ar ddatblygu fframwaith newydd i asesu gwerth cyhoeddus yn y BBC, i'n galluogi i wneud asesiad mwy cadarn. Ym mis Rhagfyr 2020, cyhoeddodd y BBC a'r IIPP *Creating and measuring dynamic public value at the BBC – A scoping report*.[38]

Mae sawl agwedd wahanol ar werth cyhoeddus, ac er mwyn gwerthuso'r gwerth cyhoeddus y mae ein cynigion yn ei gynhyrchu, rydyn ni'n trafod y rhain yn nhermau'r gwahanol barthau neu grwpiau gwerth:[39]

- **Gwerth i'r unigolyn –** y gwerth a gynhyrchir mewn perthynas â'r ffordd mae'r unigolyn yn defnyddio ein gwasanaethau – i ba raddau y bydd ein newidiadau yn bodloni disgwyliadau cynulleidfaoedd, yn parhau i gynnig gwasanaeth gwirioneddol gyffredinol iddyn nhw, ac felly'n sicrhau gwerth da am arian o ran

---

[36] Siarter Frenhinol y BBC, Erthygl 5
[37] Siarter Frenhinol y BBC, Erthygl 6
[38] Creating and Measuring dynamic public value at the BBC – A scoping report, Institute for Innovation and Public Purpose, Institute for Innovation and Public Purpose, UCK, Rhagfyr 2020
[39] Roedd ein dull gweithredu hefyd yn cael ei adlewyrchu gan Ofcom yn ei ganllawiau. Paragraff 5.25 Ofcom 18 Ebrill 2023 - Canllawiau ar gyfer asesu effaith newidiadau arfaethedig i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC.

ffi'r drwydded. Fel sefydliad sy'n cael ei arwain gan gynnwys, daw cyfran fawr o'r gwerth rydyn ni'n ei gynhyrchu drwy ddefnyddio ein cynnwys.

- **Gwerth i gymdeithas –** y gwerth a gynhyrchir mewn perthynas â chymdeithas ehangach; a
- **Gwerth i'r diwydiant –** y gwerth a gynhyrchir fel y mae'n berthnasol i'r diwydiant – i ba raddau y gall ein newidiadau feithrin gwerth i'r diwydiant, gan fod yn rym creadigol drwy gefnogi buddsoddiad, hybu arloesi, a siapio ac ysgogi'r economi greadigol ledled y DU.

Mae ein dull yn parhau i ddatblygu; mae'r parthau gwerth yn darparu strwythur cyson ar gyfer dadansoddi gwerth cyhoeddus ar draws ein gwasanaethau ac yn ein helpu wrth i ni symud tuag at feintioli mwy o'r gwerth rydyn ni'n ei gynhyrchu.

## 6.3 Ein damcaniaeth gwerth cyhoeddus

Rydyn ni o'r farn y bydd lansio pedair gorsaf radio cerddoriaeth newydd, gan greu pedwar Gwasanaeth Cyhoeddus newydd yn y DU, yn cyfrannu at genhadaeth y BBC drwy geisio gwasanaethu pob cynulleidfa yn well a chyflawni'n benodol y trydydd a'r pedwerydd diben cyhoeddus, hynny yw, darparu allbwn o ansawdd uchel ar draws amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnig gwasanaethau sy'n diwallu anghenion cymunedau'r DU, buddsoddi yn yr economïau creadigol a chyfrannu at eu datblygiad, ac adlewyrchu diwylliant y DU i'r byd. Yn ogystal, bydd rhywfaint o gyfraniad at ddiben cyhoeddus dau drwy'r cynnwys llafar ar BBC Radio 1 Dance, estyniad BBC Radio 2 a BBC Radio 3 Unwind. Bydd yr estyniad arfaethedig i BBC Radio 2 hefyd yn cynnwys rhywfaint o gynnwys newyddion.

**Ffigur 11: Cyflawni'r dibenion cyhoeddus drwy'r cynigion**

| | Radio 1 Dance | Radio 1 Anthems | Estyniad Radio 2 | BBC Radio 3 Unwind |
|---|---|---|---|---|
| Diben Cyhoeddus 1 - Darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd | | | ✓ | |
| Diben Cyhoeddus 2 - Cefnogi dysgu i bawb | ✓ | | ✓ | ✓ |
| Diben Cyhoeddus 3 - Bod yn greadigol ac yn unigryw, gan ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Diben Cyhoeddus 4 - Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu pawb yn y DU | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

Ein dadansoddiad – yn seiliedig ar ein hymchwil cynulleidfa a gynhaliwyd gan MTM, ymatebion i'n hymgynghoriad a dyluniad ein gwasanaeth. Mae hyn yn dangos y bydd ein cynigion yn amlwg yn sicrhau gwerth cyhoeddus sylweddol. Rydyn ni wedi asesu'r cynigion ar sail y ddamcaniaeth gwerth cyhoeddus a ganlyn:

- Bydd y cynigion yn **gwella gwerth i bob cynulleidfa**, yn enwedig cynulleidfaoedd nad ydyn nhw'n cael eu gwasanaethu'n ddigonol sydd ar hyn o bryd yn cael llai o werth gan radio cerddoriaeth y BBC). Bydd hyn yn cael ei gyflawni wrth i'r gorsafoedd dargedu cynulleidfaoedd iau a C2DE sydd yn cael llai o werth gan y BBC ar hyn o bryd, yn ogystal â diwallu hwyliau ac anghenion cynulleidfaoedd modern yn well. Bydd y gorsafoedd newydd hefyd yn annog y gwrandawyr i symud i BBC Sounds lle gallan nhw fwynhau profiad mwy cyfoethog a phersonol, a darganfod ystod lawn arlwy cynnwys y BBC. Bydd hyn yn cefnogi cynaliadwyedd y BBC drwy wella ymgysylltiad â'r grwpiau cynulleidfa hyn;
- Darparu **amrywiaeth ac amrediad ehangach o gerddoriaeth** gyda'r holl orsafoedd newydd yn chwarae amrediad ehangach o draciau, cyfansoddwyr ac is-genres na'r farchnad. Cyfrannu at Ddiben Cyhoeddus 3. Bydd hyn yn sicrhau gwerth i gynulleidfaoedd drwy gyflwyno amrywiaeth ehangach o gerddoriaeth sy'n seiliedig ar genre i unigolion na'r hyn sydd ar gael yn fasnachol. Mae hyn hefyd yn rhoi sylfaen ehangach o werth i'r diwydiant wrth i fwy o artistiaid ddod i amlygrwydd.
- Bydd y cynigion yn cefnogi **cerddoriaeth newydd** fel rhan o ymrwymiad y BBC i gynnwys unigryw. Bydd Radio 1 Dance yn parhau i gefnogi artistiaid a DJs newydd a'r gerddoriaeth ddawns ddiweddaraf i'w rhyddhau, ond i gynulleidfa ddarlledu ehangach, tra bydd BBC Radio 3 Unwind yn cynnwys darnau sydd newydd eu rhyddhau a pherfformiadau o ddarnau clasurol yn ogystal â chyfansoddiadau newydd. Bydd y ddau yn ymestyn y ddarpariaeth o gerddoriaeth newydd ar y BBC ac yn darparu dewis ehangach na'r hyn sydd ar gael yn fasnachol;
- Drwy hyrwyddo **cerddoriaeth a thalentau o Brydain,** bydd y gorsafoedd newydd yn cyfrannu at gyflawni diben cyhoeddus 3 a diben cyhoeddus 4. Drwy gefnogi'r diwydiant drwy dalent o'r DU, byddwn yn codi proffil artistiaid a chyfansoddwyr sy'n llai adnabyddus ac nad ydyn nhw wedi cael cymaint o sylw darlledu;
- **Bydd cerddoriaeth fyw neu gerddoriaeth wedi'i recordio'n arbennig** ar draws y gorsafoedd newydd yn cyfrannu ymhellach at eu harlwy unigryw (cefnogi diben cyhoeddus 3). Rhaid i gerddoriaeth fyw neu gerddoriaeth wedi'i recordio'n arbennig hefyd adlewyrchu'r calendr creadigol drwy gydol y flwyddyn, gan roi sylw i'r digwyddiadau byw a'r perfformiadau unigryw yn eu genres, neu ddefnyddio archif unigryw'r BBC o gerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi'i recordio'n arbennig.
- Tra bydd cynnwys **Llafar** dan arweiniad cerddoriaeth yn rhan allweddol o dair o'r gorsafoedd, bydd y cynnwys yn cynnig cyd-destun, curadu ac adrodd straeon-drwy-gerddoriaeth i gynulleidfaoedd y gall dim ond y BBC a'i archif unigryw o glipiau, cyfweliadau a pherfformiadau byw ei wneud;
- **Newyddion –** bydd estyniad Radio 2 yn darparu bwletinau newyddion; a
- **Cefnogaeth ar gyfer arloesi technolegol mewn darlledu radio –** mae'n debygol y bydd cyfraniad y BBC mewn DAB+ yn cefnogi datblygiad pellach radio digidol yn y DU.

**Ffigur 12: Crynodeb o'r datganiadau gwerth i'r cyhoedd**

| | Radio 1 Dance | Estyniad Radio 1 | Estyniad Radio 2 | BBC Radio 3 Unwind |
|---|---|---|---|---|
| Gwell gwerth i bob cynulleidfa: Ieuenctid | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Gwell gwerth i bob cynulleidfa: C2DE | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Ystod ac amrywiaeth o gerddoriaeth | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cerddoriaeth newydd | ✓ | | | ✓ |
| Cerddoriaeth a thalentau o Brydain | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cerddoriaeth fyw neu gerddoriaeth wedi'i recordio'n arbennig | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Llafar | ✓ | | ✓ | ✓ |
| Newyddion | | | ✓ | |
| Cefnogi arloesi technolegol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

Yng ngweddill y bennod hon rydyn ni'n cyflwyno ein tystiolaeth ar gyfer pob un o'r damcaniaethau hyn

## 6.4 Ymchwil Cynulleidfa

Fe wnaethom gomisiynu MTM i gynnal ymchwil ansoddol a meintiol i brofi ein cynnig gyda gwrandawyr radio yn y DU. Roedd yr ymchwil hwn yn cynnwys amrywiol drafodaethau grŵp ar-lein drwy zoom ac arolwg ar-lein o 3,000 o wrandawyr radio.

Yn ogystal â phrofi apêl ac effaith lansio gorsafoedd cerddoriaeth newydd y BBC, roedd yr ymchwil hefyd yn cynnwys lansio BBC 5 Sports Extra estynedig. Drwy'r ymchwil, roeddem am gael darlun cadarn a dibynadwy o'r hyn y mae cynulleidfaoedd yn ei ystyried yn werth personol a chyhoeddus y newidiadau arfaethedig. Roeddem hefyd eisiau deall sut byddai is-setiau o gynulleidfaoedd – cynulleidfaoedd iau (dan 35 oed) a C2DE – yn ymateb i'r cynigion.

Rydyn ni wedi cyhoeddi dadansoddiad llawn o'n hymchwil cynulleidfa ochr yn ochr â'r adroddiad hwn. Rydyn ni wedi cynnwys canlyniadau'r ymchwil hwn drwy gydol y Prawf Budd y Cyhoedd hwn i ategu ein hasesiad Gwerth Cyhoeddus.

## 6.5 Gwell gwerth i bob cynulleidfa

Un o'r prif bethau sy'n dylanwadu ar werth cyhoeddus yw i ba raddau y bydd ein newidiadau yn bodloni disgwyliadau cynulleidfaoedd, yn parhau i gynnig gwasanaeth gwirioneddol gyffredinol iddyn nhw ac yn darparu gwerth da am arian o ran Ffi'r Drwydded. Mae'r berthynas bersonol uniongyrchol hon â'n cynulleidfaoedd yn hanfodol er mwyn galluogi'r BBC i gyflawni'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus. Mae ein cynulleidfaoedd yn gwsmeriaid i'r BBC, ac mae'n rhaid iddyn nhw deimlo bod y BBC yn darparu gwerth am arian o ran Ffi'r Drwydded ar draws ei amrywiaeth o wasanaethau.

Bydd y gorsafoedd yn rhan o esblygiad hollbwysig brandiau Radio 1, Radio 2 a Radio 3 i wella gwerth i gynulleidfaoedd. Fe fyddan nhw'n mynd ati'n gain i guradu rhaglenni cerddoriaeth BBC Sounds o dan arweiniad lleisiau cyfarwydd a phoblogaidd ochr yn ochr â chyflwynwyr newydd cyffrous y BBC. Bydd y gorsafoedd yn targedu cynulleidfaoedd iau a C2DE sydd yn cael llai o werth gan y BBC ar hyn o bryd, yn ogystal â diwallu hwyliau ac anghenion cynulleidfaoedd modern yn well. Gall y gorsafoedd newydd hefyd annog y gwrandawyr i symud i BBC Sounds lle gallan nhw fwynhau profiad mwy cyfoethog a phersonol, a darganfod ystod lawn arlwy cynnwys y BBC.

Wrth wneud hynny, bydd y gorsafoedd newydd hyn yn cyfrannu at gynaliadwyedd hirdymor y BBC. Caniatáu i'r BBC gyrraedd cynulleidfaoedd nad ydyn nhw'n cael eu gwasanaethu'n ddigonol ar hyn o bryd mewn ffordd well, a chynyddu ymwybyddiaeth o arlwy ehangach y BBC.[40]

Yn ôl ei Siarter a'i Gytundeb, nid oes bwriad i'r BBC fod yn fethiant yn y farchnad drwy ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd nad ydyn nhw'n cael eu gwasanaethu gan ddarparwyr masnachol yn unig. Yn hytrach, cenhadaeth y BBC yw

### *6.5.1 Targedu cynulleidfaoedd nad ydyn nhw'n cael eu gwasanaethu'n ddigonol*

Mae gan BBC Radio 1 a Radio 2 y cyfuniad unigryw o raddfa a natur arbennig sy'n cynnig llawer iawn o werth cyhoeddus i gynulleidfaoedd, ond sydd hefyd yn cyrraedd miliynau o gynulleidfaoedd iau a C2DE sydd, mewn cymhariaeth, yn cael llai o werth gan weddill y BBC. Er mwyn gwarchod ac ymestyn y gwerth cyhoeddus hwn, mae angen i ni esblygu sut mae Radio 1 a Radio 2 yn darparu eu harlwy cerddoriaeth a'i gwneud yn haws i gynulleidfaoedd ddod o hyd i gynnwys perthnasol. Drwy adeiladu ar frandiau cerddoriaeth y BBC sydd â'r cysylltiad cryfaf â'r cynulleidfaoedd hyn, mae'r BBC yn ceisio gwneud mwy ar gyfer y cynulleidfaoedd iau a C2DE hyn sy'n cael llai o werth gan y BBC. Mae Radio 1 Dance a BBC Radio 1 Anthems yn targedu cynulleidfaoedd o dan 35 oed ac o grwpiau economaidd-gymdeithasol is, gyda'r estyniad ar gyfer Radio 2 yn targedu cynulleidfaoedd C2DE dros 55 oed. Bydd y gorsafoedd cerddoriaeth newydd hyn sydd wedi'u curadu o genres a chyfnodau penodol o gerddoriaeth yn helpu'r cynulleidfaoedd hyn i ddarganfod y gorau o'r BBC drwy gynigion sydd wedi'u brandio'n glir.

Rydyn ni wedi gweld llwyddiant gyda'r dull gweithredu hwn gyda Radio 1 Dance. Fel y gwelir o'r tabl isod, mae Radio 1 Dance yn gwyro'n sylweddol tuag at gynulleidfaoedd iau a grwpiau economaidd-gymdeithasol is o'i gymharu â BBC Sounds yn gyffredinol. Mae hefyd yn gwyro tuag at bobl ifanc ac economaidd-gymdeithasol is fel Radio 1 yn gyffredinol.

[40] Ym mharagraff 5.27 o'i ganllawiau, mae Ofcom yn glir ei bod yn briodol i'r BBC ystyried cyrraedd cynulleidfaoedd nad ydyn nhw'n cael eu gwasanaethu'n ddigonol i gefnogi ei gynaliadwyedd hirdymor yn ei asesiadau o werth cyhoeddus. Ofcom, Canllawiau ar gyfer asesu effaith newidiadau arfaethedig i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC.18 Ebrill 2023.


**Ffigur 13: Perfformiad demograffig ffrydio Radio 1 Dance Sounds-yn-unig**

| | Radio 1 Dance | | Radio 1 | BBC Sounds |
|---|---|---|---|---|
| Dan 35 oed | 24% | | 26% | 16% |
| Economaidd-gymdeithasol is | 38% | | 36% | 33% |

*Ffynhonnell: Data BBC Sounds (Ionawr 2023 i Ebrill 2024). Wedi'i nodi'n economaidd-gymdeithasol is gan ddefnyddio grwpiau ACORN.*

Canfu ein hymchwil hefyd y byddai bron pob un o ganfyddiadau'r gynulleidfa o allu'r BBC i gyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus yn elwa ar ychwanegu'r gorsafoedd a'r estyniadau arfaethedig. Roedd sgôr 'mae gan y BBC amrywiaeth eang o gerddoriaeth/genres i ddewis ohonyn nhw' wedi cynyddu saith pwynt canran ymysg ymatebwyr ar ôl cyflwyno'r orsaf a'r estyniadau arfaethedig. Roedd cynnydd hefyd o ran canfyddiadau cynulleidfaoedd bod 'y BBC yn cynnig rhywbeth i mi' (cynnydd o ddeg pwynt canran) ac 'mae cynnwys BBC Radio yn teimlo'n greadigol'. Ar ben hynny, roedd cynulleidfaoedd yn fwy tebygol o fod â'r canfyddiad bod 'BBC Radio yn cynnig rhywbeth gwahanol i radio masnachol' o ganlyniad i glywed am y cynigion. Roedd y cynnydd hwn hefyd yn cael ei deimlo'n fwy cryf ymysg ymatebwyr nad oeddent yn wrandawyr radio'r BBC, fel y dangosir ymhellach isod.

**Ffigur 14: Sut mae'r gynulleidfa'n gweld y BBC**




*Ffynhonnell: Ymchwil MTM ar gyfer y BBC*
*B2 Gan edrych ar y datganiadau isod, i ba raddau ydych chi'n cytuno â'r rhain ar gyfer BBC Radio?*
*E2 Gan edrych ar y datganiadau isod, i ba raddau ydych chi'n cytuno â'r rhain ar gyfer BBC Radio? gan dybio bod y newidiadau arfaethedig wedi cael eu gwneud*

Pan fyddwn ni'n dadansoddi'r cynnydd ym marn cynulleidfaoedd ymysg gwahanol grwpiau cynulleidfa, rydyn ni yn gweld mwy o newid yn y canfyddiad ymysg

cynulleidfaoedd nad ydyn nhw'n cael eu gwasanaethu'n ddigonol gan y BBC. Mae'n werth nodi rhai nad ydyn nhw'n gwrando ar y BBC y mae eu canfyddiad yn cael ei newid fwy nag unrhyw grŵp arall ar draws yr amrediad llawn o fetrigau gwerth. Yn yr un modd, roedd cynulleidfaoedd C2DE a Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn gweld cynnydd uwch mewn gwerth ar draws y rhan fwyaf o fetrigau.

Roedd cynulleidfaoedd iau – pobl 16-34 oed – hefyd yn gweld cynnydd mewn gwerth yn gyffredinol ond nid i'r un graddau â grwpiau eraill. Ynghyd â chynulleidfaoedd C2DE, roedd pobl 16-34 oed yn fwy tebygol o ystyried bod BBC Radio yn cynnig rhywbeth gwahanol i radio masnachol o ganlyniad i'r newidiadau. Mae hyn yn dangos bod y cynigion yn dod â gwerth sylweddol i'n cynulleidfaoedd nad ydyn nhw'n cael eu gwasanaethu'n ddigonol.

**Ffigur 15: Newid ym marn y gynulleidfa am y BBC yn ôl grŵp cynulleidfa ar ôl dod i gysylltiad â'r cynigion**


| | Cyfanswm | 16-34 | 35-54 | 55+ | C2DE | B.A.M.E. |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mae gan BBC Radio amrywiaeth eang o gerddoriaeth/genres i ddewis ohonyn nhw** | +7 pp | +6 pp | +8 pp | +9 pp | +8 pp | +12 pp |
| **Mae gan BBC Radio rywbeth i bawb** | +8 pp | +4 pp | +8 pp | +9 pp | +9 pp | +11 pp |
| **Mae BBC Radio yn darparu ar gyfer gwrandawyr ledled y DU** | +3 pp | +2 pp | +2 pp | +2 pp | +3 pp | +3 pp |
| **Mae gan BBC Radio rywbeth i mi** | +10 pp | +9 pp | +10 pp | +13 pp | +12 pp | +14 pp |
| **Mae BBC Radio yn cynnig gwasanaeth sain o ansawdd uchel** | +4 pp | +3 pp | +4 pp | +4 pp | +5 pp | +5 pp |
| **Mae BBC Radio yn darparu ar gyfer y rhan o'r DU rwy'n byw ynddi** | +0 pp | +0 pp | +2 pp | +1 pp | +3 pp | -1 pp |
| **Mae cynnwys BBC Radio yn teimlo'n greadigol** | +11 pp | +10 pp | +11 pp | +11 pp | +13 pp | +13 pp |
| **Mae BBC Radio yn cynnig rhywbeth gwahanol i radio masnachol** | +7 pp | +10 pp | +7 pp | +5 pp | +10 pp | +6 pp |

| | Cyfanswm | Yr Alban | Cymru | Gogledd Iwerddon | Gwrandawyr nad ydyn nhw'n gwrando ar y BBC |
|---|---|---|---|---|---|
| **Mae gan BBC Radio amrywiaeth eang o gerddoriaeth/genres i ddewis ohonyn nhw** | +7 pp | +11 pp | +9 pp | +0 pp | +19 pp |
| **Mae gan BBC Radio rywbeth i bawb** | +8 pp | +10 pp | +6 pp | +9 pp | +20 pp |
| **Mae BBC Radio yn darparu ar gyfer gwrandawyr ledled y DU** | +3 pp | +6 pp | +2 pp | +2 pp | +11 pp |
| **Mae gan BBC Radio rywbeth i mi** | +10 pp | +13 pp | +12 pp | +5 pp | +32 pp |
| **Mae BBC Radio yn cynnig gwasanaeth sain o ansawdd uchel** | +4 pp | +2 pp | +4 pp | +6 pp | +14 pp |
| **Mae BBC Radio yn darparu ar gyfer y rhan o'r DU rwy'n byw ynddi** | +0 pp | +0 pp | +4 pp | -2 pp | +8 pp |
| **Mae cynnwys BBC Radio yn teimlo'n greadigol** | +11 pp | +14 pp | +3 pp | +19 pp | +21 pp |
| **Mae BBC Radio yn cynnig rhywbeth gwahanol i radio masnachol** | +7 pp | +7 pp | +8 pp | +8 pp | +12 pp |

*Ffynhonnell: Ymchwil MTM ar gyfer y BBC*
*B2 Gan edrych ar y datganiadau isod, i ba raddau ydych chi'n cytuno â'r rhain ar gyfer BBC Radio?*
*E2 Gan edrych ar y datganiadau isod, i ba raddau ydych chi'n cytuno â'r rhain ar gyfer BBC Radio? gan dybio bod y newidiadau arfaethedig wedi cael eu gwneud*

Mae'r cynnig yn dangos naw pwynt canran o gynnydd yn yr ymagwedd ffafriol net at BBC Radio ar ôl clywed am y newidiadau arfaethedig. Yn yr un modd â'r metrigau gwerth ehangach a drafodir uchod, mae'r cynnydd hwn mewn positifrwydd net yn cael ei deimlo'n sylweddol ymysg gwrandawyr radio nad ydyn nhw'n gwrando ar y BBC yn ogystal ag ymysg cynulleidfaoedd C2DE a B.A.M.E

**Ffigur 16: Ymagwedd ffafriol net at Radio'r BBC cyn ac ar ôl clywed am y gorsafoedd newydd arfaethedig**




*Ffynhonnell: Ymchwil MTM ar gyfer y BBC*
*B2 Gan edrych ar y datganiadau isod, i ba raddau ydych chi'n cytuno â'r rhain ar gyfer BBC Radio?*
*E2 Gan edrych ar y datganiadau isod, i ba raddau ydych chi'n cytuno â'r rhain ar gyfer BBC Radio? gan dybio bod y newidiadau arfaethedig wedi cael eu gwneud*

### *6.5.2 Gwasanaethu hwyliau ac anghenion cynulleidfaoedd modern yn well*

Bydd y cynigion hyn yn cynnig dewisiadau mwy perthnasol sydd wedi eu labelu'n glir ar gyfer cynulleidfaoedd mewn radio cerddoriaeth. Fe fyddan nhw'n cael eu llunio i adlewyrchu'r anghenion a'r arferion datblygol sydd gan gynulleidfaoedd, sydd wedi dod i ddisgwyl y cynnwys personol a phenodol sy'n cael ei gynnig ar lwyfannau ffrydio fel Spotify ac Apple Music, yn ogystal ag amrywiaeth y dewis sydd ar gael mewn estyniadau brand radio masnachol. Mae cynulleidfaoedd yn disgwyl i radio cerddoriaeth ddarparu arlwy hamddenol 'rhwydd' sy'n rhoi naws gyson a chyfarwydd – boed hynny'n rhywbeth i ymlacio iddo neu'n drac sain egnïol i rywun gael ei hyn yn barod. Bydd y gwasanaethau BBC hyn yn cynnig cyd-destun a churadu unigryw gan bobl, dan arweiniad cyflwynwyr gwybodus ac angerddol, gan gynnwys rhai o leisiau mwyaf poblogaidd radio cerddoriaeth y BBC. Bydd yr amserlenni'n adlewyrchu anghenion hwyliau gwrandawyr modern – boed hynny'n deimlad da o dreiddio'n ddwfn i'w hoff gyfnod, hwb egni o gerddoriaeth ddawns fywiog neu wrando'n dawel ar gerddoriaeth glasurol ar adegau allweddol yn ystod y dydd.

Mae'r gorsafoedd wedi'u cynllunio i annog cynulleidfaoedd i ddysgu mwy oddi wrth y fformatau a'r lleisiau maen nhw'n eu caru, ac mae DAB+ yn chwarae rhan hollbwysig i gyrraedd grwpiau cynulleidfa nad ydyn nhw'n cael eu gwasanaethu'n ddigonol, mewn ffordd gost-effeithiol. Rydyn ni o'r farn y bydd DAB+ hefyd yn hybu'r newid digidol i BBC

Sounds. Yn gyntaf, mae'n gweithredu fel ffenestr siop ychwanegol ar gyfer BBC Sounds. Yn ail, gan fod oedi o hyd yn nifer y dyfeisiau sy'n gallu codi DAB+ o gymharu â DAB, gall y bwlch hwn ysgogi mwy o ddefnyddwyr i ddefnyddio BBC Sounds i ddefnyddio'r gwasanaethau newydd.[41] Bydd yr holl raglenni ar y gorsafoedd ar gael fel rhaglenni ar-alw annibynnol ar BBC Sounds. Fel hyn, bydd y gorsafoedd newydd yn gwneud cyfraniad pwysig at wella dyfodol digidol hirdymor sain yn y DU.


#### 6.5.2.1 Radio 1 Dance

Bydd Radio 1 Dance yn dod â'i arbenigedd cydnabyddedig yn y genre i DAB+ i wasanaethu cynulleidfa ehangach nag y mae'n ei wneud ar BBC Sounds ar hyn o bryd. Mae ein hymchwil yn dangos bod cynnig Dawns Radio 1 wedi cael derbyniad da ymysg ei gynulleidfa darged gyda 51% o bobl 16-34 oed yn ymateb yn ffafriol. Roedd tua thraean o'r holl ymatebwyr (34%) yn debygol o wrando ar yr orsaf arfaethedig, a chododd hyn yn sylweddol ar gyfer cynulleidfa darged yr orsaf – pobl ifanc 16-34 oed – i 43%.

> Roedd yn plesio ym mhob ffordd - yn codi fy hwyliau (rwy'n teimlo bod hynny'n hanfodol pan fyddwch chi'n gwrando ar y radio) ac yna mae gennych chi'r DJs a'r partneriaethau mwyaf yn ogystal, Trwm/Canolig, 16-18, ABC1


> Weithiau rydych chi'n gweithio ac mae angen gorsaf sy'n rhoi hwb i'ch hwyliau arnoch chi. Os oes angen llawer o egni arnoch chi - er enghraifft, os ydych chi yn y gampfa neu rywbeth felly, rydych chi'n gwybod beth rydych chi'n mynd i'w gael gan yr orsaf. Defnyddiwr ysgafn/ddim yn defnyddio 25-34 oed, C2DE

**Ffigur 17: Tebygolrwydd o wrando ar Radio 1 Dance**





[41] Defnydd cartrefi yn y DU o radio DAB+, Ofcom (2023)

**Ffigur 18: Tebygolrwydd o wrando ar Radio 1 Dance yn ôl grŵp cynulleidfa**




**Ffigur 19: Canfyddiadau o gynnig Radio 1 Dance**




### 6.5.2.2 BBC Radio 1 Anthems

Mae BBC Radio 1 Anthems yn diwallu angen gwahanol – o ysbrydoli i ymlacio – gan frand y mae pobl ifanc yn ymddiried ynddo. Mae ein hymchwil yn dangos bod cynnig BBC Radio 1 Anthems wedi cael derbyniad da ymysg ei gynulleidfa darged, gyda 62% o'r rhai


rhwng 16 a 34 oed yn ymateb yn ffafriol. Dywedodd bron i hanner yr ymatebwyr 16-34 oed (47%) eu bod yn debygol o wrando ar yr estyniad arfaethedig.

> Yn llythrennol, rydw i mewn gorsaf Radio. Felly mae'r ffaith y bydd popeth yno ac mae hefyd yn cynnwys y math o bethau y cefais fy magu yn gwrando arnyn nhw yn ogystal â'r stwff modern - i mi, mae hynny'n becyn perffaith. Defnyddiwr ysgafn/ddim yn defnyddio 25-34 oed, ABC1


> Dyna'r math o gerddoriaeth y cefais fy magu gyda hi, byddai'n braf mynd yn ôl a gwrando ar rai o'r pethau nad ydw i'n meddwl gwrando arnyn nhw ar hyn o bryd, Trwm/Canolig, 25-34, C2DE

Er mwyn sicrhau bod yr orsaf yn taro tant gyda gwrandawyr ifanc rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda'r Gymdeithas Radio Myfyrwyr a phanel bach o fyfyrwyr i gael gwybodaeth a helpu i lunio polisi cerddoriaeth.


**Ffigur 20: Tebygolrwydd o wrando ar BBC Radio 1 Anthems**



**Ffigur 21: Tebygolrwydd o wrando ar BBC Radio 1 Anthems yn ôl grŵp cynulleidfa**




**Ffigur 22:Canfyddiadau o gynnig BBC Radio 1 Anthems**




### 6.5.2.3 Estyniad Radio 2

Bydd amserlen yr estyniad newydd ar gyfer Radio 2 yn cael ei rhaglennu'n benodol i gyflawni ymdeimlad o dreftadaeth a nostalgia. Rydyn ni'n gwybod bod cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi cael ailymweld â cherddoriaeth a straeon eu hieuenctid – *Sounds of the*

*60s Radio 2* yw'r teitl cerddoriaeth ar-alw y mae pobl yn gwrando fwyaf arno ar BBC Sounds. Bydd yn apelio at chwaeth y gynulleidfa drwy fynd y tu ôl i'r gerddoriaeth gan fod ei lefel uwch o gynnwys llafar yn archwilio'r straeon y tu ôl i'r caneuon. Mae ein hymchwil yn dangos bod cynnig ymestyn Radio 2 wedi cael derbyniad da ymysg ei chynulleidfa darged, gyda 60% o'r ymatebwyr dros 55 oed a hŷn yn ymateb yn ffafriol. Dywedodd bron i hanner (48%) yr ymatebwyr yn y gynulleidfa darged eu bod yn debygol o wrando ar yr estyniad arfaethedig.


Canfu ein hymchwil ansoddol fod cynulleidfaoedd yn cefnogi'r cynigion yn gyffredinol. I gynulleidfaoedd hŷn roedd cyfle i hel atgofion ac ail-fyw yn taro tant. Codwyd hefyd deimlad o gysylltu ag aelodau o'r teulu wrth i wahanol gyfnodau gael eu cyflwyno i genedlaethau iau.

> Rydych chi'n siarad â merch a fu'n ciwio drwy'r nos i weld y Rolling Stones, a dyna pam rwy'n dal i hoffi cerddoriaeth o'r 60au. - Trwm/Canolig, 65 oed a hŷn, ABC


Roedd elfen llafar y gwasanaeth hwn hefyd yn bwysig i'r grŵp cynulleidfa hwn.

> dwi'n meddwl bod llawer o straeon y gellir eu hadrodd nad ydyn nhw wedi cael eu hadrodd am recordiau enwog a gwahanol fersiynau o'r un trac. Dwi'n meddwl bod cryn dipyn o hanes yno a allai fod yn ddiddorol gwrando arno. Defnyddiwr ysgafn/ddim yn defnyddio 65 oed a hŷn, C2DE


**Ffigur 23: Tebygolrwydd o wrando ar estyniad Radio 2**



## Ffigur 24: Tebygolrwydd o wrando ar estyniad Radio 2 yn ôl grŵp cynulleidfa




## Ffigur 25: Rhagdybiaethau o'r cynnig am estyniad ar gyfer Radio 2



### 6.5.2.4 BBC Radio 3 Unwind

Fel y dengys ymchwil ddiweddar, mae iechyd meddwl y genedl dan straen sylweddol.[42] Mae pwysau bywyd modern ynghyd â chanlyniadau'r pandemig, yr argyfwng costau byw ac iechyd corfforol gwael yn creu storm berffaith sy'n pwyso ar lesiant y genedl. Canfu ymchwil gan y Gerddorfa Ffilharmonig Frenhinol[43] effeithiau cadarnhaol cerddoriaeth gerddorfaol ar hwyliau, llesiant a ffocws.

Bydd **BBC Radio 3 Unwind** yn cynnig profiad cerddoriaeth glasurol sy'n dawel ac yn hamddenol ac yn cefnogi arferion dyddiol gwrandawyr, yn eu helpu i ddianc rhag pwysau a straen bywyd bob dydd, ac yn helpu gyda'u llesiant. Mae ein hymchwil yn dangos bod cynnig BBC Radio 3 Unwind wedi cael derbyniad da ymysg ei gynulleidfa darged, gyda 67% o'r rhai sy'n hoff o gerddoriaeth glasurol yn ymateb yn ffafriol. Dywedodd dros hanner (55%) y rhai sy'n hoff o gerddoriaeth glasurol yn ein hymchwil eu bod yn debygol o wrando ar y cynnig.

Canfu ein hymchwil ansoddol fod y gynulleidfa'n cael eu denu'n benodol at agweddau tawel ac ymlaciol yr orsaf. Teimlwyd bod gwir angen y cynnwys hwn.


> Mae rhywfaint o [Classic FM] yn ddigon anarferol a'r ffocws ar lesiant (sydd yn y syniad hwn) rydw i'n ei hoffi ... byddai rhywbeth sydd wedi ymrwymo'n llwyr i ymlacio yn apelio'n fawr ata i, yn hytrach na'r pethau clasurol mawreddog. - Defnyddiwr ysgafn/ddim yn defnyddio 35-54 oed, ABC1
>
> (Mae hyn) fel petai wedi ei greu ar fy nghyfer i. Yn syml, llesiant, cerddoriaeth glasurol, ymlaciol, sy'n fy lleddfu ac yn rhoi dihangfa i mi... Dyna'r math o bennod, yn anffodus, rydw i arni yn fy mywyd hyn o bryd, mae'n ymwneud â chadw fy mhwyll - Trwm/Canolig, 35-54, C2DE, B.A.M.E

---


[42] Jackson, SE, Brown, J, Shahab, L, McNeill, A, Munafò, MR & Brose, L 2023, 'Trends in Psychological Distress Among Adults in England, 2020-2022', JAMA Network open, vol. 6, no. 7, pp. e2321959. https://doi.org/10.1001/jamanetworkopen.2023.21959

[43] Royal Philharmonic Orchestra, 2020, RPO Report into Music and Mental Health url: https://www.rpo.co.uk/images/pdf/071020_Media_package_-_world_mental_health_day_2020.pdf


## Ffigur 26: Tebygolrwydd o wrando ar Radio 3 Unwind




## Ffigur 27: Tebygolrwydd o wrando ar Radio 3 Unwind yn ôl grŵp cynulleidfa



## Ffigur 28: Canfyddiadau o gynnig Radio 3 Unwind



### 6.5.3 *Lefel y diddordeb*

Mae defnydd y gynulleidfa yn rhan bwysig o gynhyrchu gwerth cyhoeddus, hy rhaid i unigolion wrando ar y sianel newydd er mwyn cael gwerth ohoni. Yn yr adrannau uchod, rydyn ni wedi tynnu sylw at y ffaith bod galw am y gorsafoedd newydd hyn gan y BBC. Rydyn ni wedi modelu'r cynnydd posibl ar gyfer y gorsafoedd arfaethedig. Gyda'i gilydd, gallent gynhyrchu 31.9 miliwn o oriau ychwanegol o wrando yr wythnos ar gyfartaledd, 19.0 i 21.5 miliwn yn ychwanegol at wrando ar y BBC.[44]

**Ffigur 29: cymharu'r fasged gynnydd a maint gorsafoedd**

| Estyniad | Maint gorsafoedd (miliwn awr) | Gwrando newydd ar y BBC (miliwn awr) |
|---|---|---|
| Estyniad BBC Radio 2 | 22.3 | 13.4-14.6 |
| BBC Radio 1 Dance | 4.9 | 2.0-2.6 |
| BBC Radio 1 Anthems | 3.5 | 3.0-3.4 |
| BBC Radio 3 Unwind | 1.2 | 0.7-0.9 |
| Cyfanswm | 31.9 | 19.0-21.5 |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad y BBC*

Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth hon yn awgrymu y bydd naws a chwaeth cynulleidfaoedd yn cael eu gwasanaethu'n well gan y BBC drwy'r gwasanaethau arfaethedig hyn.

## 6.6 Ystod ac amrywiaeth o gerddoriaeth

Mae ystod ac amrywiaeth yn cyfeirio at ddau beth – ystod (h.y. nifer y traciau sy'n cael eu chwarae) ac amrywiaeth (h.y. amrywiaeth o genres, ac ati). Dyma fesur o'r amrywiaeth sy'n cael ei chwarae ar yr orsaf. Bydd yr amrywiaeth honno'n cynnwys deunydd newydd, hen, o'r DU, y tu allan i'r DU, wedi'i ryddhau'n fasnachol, neu gynnwys byw/wedi'i recordio'n arbennig. Mae'r BBC yn cyfeirio'n benodol at lefel isel o ailadrodd traciau, gan anelu at fwy o amrywiaeth yn ei restr chwarae a'i raglenni.

Mae chwarae amrywiaeth eang o draciau yn bwysig i gynulleidfaoedd ac artistiaid. I gynulleidfaoedd, mae rhestr chwarae ehangach yn golygu bod modd ymgysylltu'n ddyfnach â'r gerddoriaeth. Maen nhw'n dod i gysylltiad ag amrywiaeth ehangach yn y genre ac yn fwy tebygol o glywed traciau sy'n newydd iddyn nhw neu nad ydyn nhw wedi eu clywed ers tro. Mae hyn yn rhoi gwerth gan ei fod yn ehangu repertoire cerddoriaeth cynulleidfaoedd ac yn eu hamlygu i arddulliau gwahanol (hyd yn oed mewn un genre) a allai sbarduno diddordebau newydd. Mae rhestr chwarae ehangach hefyd yn gallu rhoi sylw i ystod ehangach o artistiaid, gan gynorthwyo eu datblygiad.

Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi ei bod yn anochel y bydd hyn yn gorgyffwrdd â thraciau sy'n cael eu chwarae ar orsafoedd radio masnachol tebyg wrth ddarlledu amrywiaeth ehangach o draciau.

Bydd pob un o'r gorsafoedd newydd yn cynnwys rhaglenni cerddoriaeth o ansawdd uchel sy'n cael eu harwain gan dalent, gan chwarae amrywiaeth ehangach o gerddoriaeth na'r hyn sydd ar y farchnad, a dod â chynulleidfaoedd yn agosach at genres a chyfnodau o

[44] Gweler Pennod 7

gerddoriaeth maen nhw'n eu hoffi. Bydd y gorsafoedd DAB+ yn dangos buddsoddiad creadigol y BBC mewn cynnwys cerddoriaeth unigryw i gynulleidfa ehangach er mwyn iddyn nhw allu darganfod yn well.

Mae chwarae amrywiaeth eang o draciau yn bwysig i gynulleidfaoedd ac artistiaid. I gynulleidfaoedd, mae rhestr chwarae ehangach yn golygu bod modd ymgysylltu'n ddyfnach â'r gerddoriaeth. Maen nhw'n dod i gysylltiad ag amrywiaeth ehangach yn y genre ac yn fwy tebygol o glywed traciau sy'n newydd iddyn nhw neu nad ydyn nhw wedi eu clywed ers tro. Mae rhestr chwarae ehangach hefyd yn gallu rhoi sylw i ystod ehangach o artistiaid.

Mae'r BBC eisoes yn annog y duedd hon i ddarganfod gan fod radio cerddoriaeth y BBC eisoes yn chwarae amrywiaeth lawer ehangach o draciau na'r hyn a gynigir gan orsafoedd radio masnachol. Chwaraeodd Radio 2 15,759 o wahanol draciau yn 2023, a'r cyfartaledd ar draws 12 o orsafoedd masnachol blaenllaw oedd 2,517 yn amrywio o 757 ar Smooth; 952 ar Heart; 1,619 ar Magic; a 6,044 ar Greatest Hits.[45] Chwaraeodd Radio 1 12,248 o draciau unigryw, ac roedd dros 40% ohonyn nhw gan artistiaid o Brydain.[46]

Yn yr un modd, bydd estyniadau'r brand yn chwarae ystod lawer ehangach o draciau na'r hyn a gynigir gan orsafoedd masnachol tebyg. Gyda'r gorsafoedd hyn, bydd cynulleidfaoedd yn cael cipolwg manylach ar gerddoriaeth arbenigol, wedi'i diffinio gan genre neu gyfnod penodol o gerddoriaeth, lle byddan nhw'n dod o hyd i draciau, artistiaid a pherfformwyr cymharol anghyfarwydd, ochr yn ochr â cherddoriaeth fwy cyfarwydd. Bydd ystod uchelgeisiol y traciau sy'n cael eu chwarae hefyd yn helpu i ddod o hyd i'r is-genres yn y cyfnodau a'r genres hyn.

### *6.6.1 Radio 1 Dance*

Rydyn ni'n cynnig y bydd Radio 1 Dance yn chwarae dros 3,000 o draciau unigryw bob blwyddyn. Yn 2023, chwaraeodd ffrwd BBC Radio 1 Dance ar Sounds yn unig 3,273 o draciau unigryw, tra bod ei ddau gystadleuydd agosaf, sef Capital Dance a Heart Dance, wedi chwarae 1,423 a 376 o draciau unigryw yn y drefn honno.

Bydd Radio 1 Dance yn ymdrin â'r ystod ehangaf o genres dawns, yn amrywio o draciau *techno* a *house* mwy hygyrch, i *breakbeat*, *drum & bass*, *trance*, *EDM*, *Afro House* ac *UK Funky*.

### *6.6.2 Radio 1 Anthems*

Rydyn ni'n amcangyfrif y byddwn yn chwarae tua 4,000 o draciau unigryw bob blwyddyn: cymysgedd o ganeuon clasurol a pherlau sydd wedi mynd yn angof, nad ydyn nhw'n cael eu chwarae'n aml gan unrhyw un arall. Bydd y gymysgedd o genres yn debyg i Radio 1, gan gynnwys pop clasurol, roc, rap, R&B, dawns a thraciau indie.

Yn 2023, chwaraeodd Kisstory 2,272 o draciau unigryw.

---

[45] Dadansoddiad BBC o'r 12 gorsaf fasnachol yn 2022 – Absolute, Capital, Capital Xtra, Gold (UK), Greatest Hits, Heart, Hits (Manceinion), Kiss, Magic, Radio X, Smooth, Virgin

[46] RadioMonitor, Pob awr, 2023. D.S. Mae RadioMonitor yn diffinio artistiaid o Ogledd Iwerddon fel rhai Gwyddelig, a dyna pam y byddai'r ffigur ar gyfer artistiaid o'r DU sy'n cael eu chwarae yn uwch na'r ffigur a roddir yma.

### 6.6.3 Estyniad Radio 2

Bydd yr holl sioeau'n cael eu rhaglennu gan ddefnyddio Llyfrgell Recordiau'r BBC a BBC Radio 2 – y repertoire cerddorol mwyaf ar gyfer radio'r DU. Rydyn ni yn awr yn disgwyl chwarae o leiaf 6,000 o draciau (unigryw) y flwyddyn o'r 1950au, y 1960au a'r 1970au, gan gynnwys traciau llai adnabyddus oddi ar albymau, artistiaid a gafodd lwyddiant ag un gân yn unig, ac ati.

Yn 2023, chwaraeodd Absolute 70s 924 o draciau, Heat 70s 355 o draciau a Gold 1,402 o draciau. Fodd bynnag, chwaraeodd Boom Radio fwy na 10,000 o draciau unigryw yn 2023.

### 6.6.4 Radio 3 Unwind

Mae mesur cerddoriaeth glasurol yn cyflwyno heriau sy'n cynnwys recordiadau lluosog o'r un darn, sawl enw ar gyfer yr un darn, gwahanol symudiadau, ni fydd yr holl gerddoriaeth a ddarlledir wedi cael ei rhyddhau, ac ati. Er enghraifft, mae cannoedd o recordiadau ar wahân o Bumed symffoni Beethoven, a gellir eu rhestru mewn gwahanol ffyrdd, fel Symphony No.5, Sinfonien No.5, Symphonie No.5, neu'r *Eroica*; weithiau gydag 'yn C leiaf'. Mae ganddo bedwar symudiad ar wahân, ac mae pob un yn drac ar wahân a gellir ei chwarae'n unigol weithiau. Ac mae hyd yn oed mwy o gonfensiynau enwi ar gyfer y symudiadau unigol (boed hynny yn Saesneg neu Almaeneg, sut maen nhw'n cael eu rhifo, ac ati). Er mwyn cymhlethu materion ymhellach, nid yw archifau'r BBC o recordiadau o'i grwpiau perfformio a'r cyngherddau fel y Proms fel arfer yn recordiadau masnachol ac felly'n cael eu cofnodi ym mhob cronfa ddata. O'r herwydd, ni fydd y ffynonellau data rydyn ni wedi eu defnyddio ar gyfer dadansoddi pop (yn enwedig Radiomonitor) yn cefnogi dadansoddiad priodol o gerddoriaeth glasurol.

Felly, wrth ddisgrifio natur unigryw Radio 3 Unwind, byddwn yn defnyddio metrigau gwahanol i'r rhai a ddefnyddir ar gyfer y gorsafoedd cerddoriaeth bop lle mae diffiniadau a thechneg mesur hirsefydlog a sefydledig. Fodd bynnag, byddwn hefyd yn nodi'n glir sut rydyn ni'n diffinio ein perfformiad a sut caiff ei fesur.

Bydd Radio 3 Unwind yn cynnwys amrywiaeth eang o gerddoriaeth o'r 1500au hyd at y presennol, gan guradu darnau mwy cyfarwydd yn arbenigol ochr yn ochr â chyfansoddiadau llai adnabyddus a darganfyddiadau newydd. Bydd y polisi cerddoriaeth amrywiol yn cynnwys gweithiau cerddorfaol, unawd piano a cherddoriaeth gorawl ethereal, drwodd i repertoire finimalaidd a neoglasurol, gan arddangos amrywiaeth a natur esblygol y genre.

Yn ôl dadansoddiad a gynhaliwyd gan Loftus Media ar ran y BBC, mewn wythnos gynrychioladol, y pedwar genre mwyaf poblogaidd yn ôl y darnau a chwaraewyd ar Classic FM oedd Rhamantaidd (44%), Clasurol (17%), Cyfoes (15%) a Thraciau sain (10%), sef 86% o'r holl ddarnau a oedd yn cael eu chwarae ar Classic FM. Ar gyfer Scala Radio (Magic Classical erbyn hyn), y pedwar genre mwyaf poblogaidd oedd Rhamantaidd

(24.3%), Traciau sain (20%), Cyfoes (14%) a Clasurol (9%), sef 68% o'r holl ddarnau sy'n cael eu chwarae.[47]

Bydd Radio 3 Unwind yn chwarae ystod sylweddol ehangach o genres. Byddwn yn chwarae rhywfaint o gerddoriaeth ganoloesol/Dadeni (0.6%), Cerddoriaeth Baróc ac Ysgafn, ac o fewn Cyfoes, byddwn yn ymdrin â'r is-genres canlynol: 20fed Ganrif (e.e. Copland, Britten, Shostakovich), Clasurol Cyfoes (e.e. Sally Beamish, Stuart McRae, James McMillan), Traws-drosodd Clasurol (Paul Mealor, Eric Whitacre, Karl Jenkins) a Neo-glasurol/Amgylchynol (e.e. Max Richter, Erland Cooper, Hania Rani).

## 6.7 Cerddoriaeth newydd

Mae cerddoriaeth newydd[48] yn cyfeirio at ba mor ddiweddar mae trac yn cael ei recordio / rhyddhau; a hefyd, weithiau, a yw rhywun yn artist newydd. Mae hyn yn ymwneud â chefnogaeth gyffredinol i'r diwydiant cerddoriaeth a helpu i hyrwyddo caneuon newydd.

Mae'r BBC wedi ymrwymo i roi lle i gerddoriaeth newydd ar ei brif orsafoedd, a bydd hyn yn wir hefyd am yr estyniadau a gynigir. Mae arddangos cerddoriaeth newydd yn bwysig gan ei fod yn helpu i godi proffil artistiaid presennol a newydd, gan gefnogi eu datblygiad sy'n gyrru gwerth y diwydiant. Mae hefyd yn bwysig yn ddiwylliannol gan fod cerddoriaeth newydd yn adlewyrchu chwaeth newidiol cynulleidfaoedd a synnwyr o'n cyfnod penodol ni, gan ddarparu gwerth cymdeithasol i gynulleidfaoedd. Mae cynulleidfaoedd unigol hefyd yn cael gwerth o wrando ar y cynnwys diweddaraf. Er bod dwy o'r gorsafoedd a gynigir yn diwallu'n benodol y galw ymysg cynulleidfaoedd am gamu'n ôl i'r gorffennol ac y byddan nhw o'r herwydd yn cynnwys cerddoriaeth o ddegawdau blaenorol, bydd cerddoriaeth newydd yn chwarae rhan bwysig i Radio 1 Dance a BBC Radio 3 Unwind.

### *6.7.1 Radio 1 Dance*

Gwelwyd bod cerddoriaeth newydd yn arbennig o bwysig yn yr ymchwil ansoddol ar gyfer Radio 1 Dance.

> Does dim byd tebyg i hynny ar hyn o bryd, o ran cerddoriaeth ddawns. Mae cefnogi artistiaid newydd yn bwysig iawn ar hyn o bryd yn y sîn gerddoriaeth – Ysgafn/Dim, 19-24, C2DE

Rydyn ni'n cynnig y byddai o leiaf draean y gerddoriaeth yn ystod y dydd yn gerddoriaeth newydd, gyda rhestr chwarae helaeth o ganeuon sy'n cael eu rhyddhau o'r newydd.

Mae hyn yn cymharu â Heart Dance lle'r ydyn ni'n amcangyfrif bod 90% o'r traciau'n dod o'r 2010au neu'n gynharach, a Kisstory, sy'n chwarae rhywfaint o ddawns ond nid

---

[47] Dadansoddiad o restr chwarae Classical Music Radio, dadansoddiad a gynhaliwyd gan Loftus Media ar gyfer y BBC, Awst 2024. Roedd hyn yn seiliedig ar allbwn Classic FM a Scala Radio dros wythnos rhwng 25 Gorffennaf 2024 a 31 Gorffennaf 2024.

[48] Mae trwydded weithredu'r BBC yn diffinio cerddoriaeth newydd yn y ffordd ganlynol. *Bydd trac cerddoriaeth yn cael ei ystyried yn "Gerddoriaeth Newydd" am gyfnod o naill ai: (a) 12 mis ar ôl ei ryddhau am y tro cyntaf (boed hynny drwy ddulliau ffisegol, radio, lawrlwytho neu ffrydio), neu (b) 6 wythnos ar ôl y dyddiad y mae'n cyrraedd 20 Uchaf Siart Senglau Swyddogol y DU am y tro cyntaf, pa un bynnag yw'r cynharaf.* Mae'r diffiniad hwn yn berthnasol i allbwn BBC Radio 1 a BBC Radio 2.

cerddoriaeth ddawns newydd. Rydyn ni'n amcangyfrif bod Capital Dance yn chwarae tua 60% o gerddoriaeth newydd, ond fel y nodwyd uchod, tua hanner yr amrywiaeth o draciau a fydd yn cael eu chwarae ar Radio 1 Dance. O’r herwydd, bydd Radio 1 Dance yn chwarae amrywiaeth ehangach o gerddoriaeth newydd bob blwyddyn.

### *6.7.2 Radio 3 Unwind*

Byddai diffinio cerddoriaeth newydd ar gyfer gorsaf glasurol yn yr un ffordd ag ar gyfer cerddoriaeth boblogaidd yn cyfyngu ar y cynnwys sydd ar gael i’w chwarae. Felly, rydyn ni'n defnyddio dull ehangach o ymdrin â cherddoriaeth newydd gyda Radio 3 Unwind sy’n fwy addas ar gyfer y genre. Bydd yr estyniad yn canolbwyntio ar recordiadau diweddar, ac yn tynnu sylw at berfformwyr ac ensembles presennol a rhai sy’n dod i’r amlwg ar draws ei amserlen.

Ein bwriad yw y bydd y recordiadau sy’n cael eu darlledu ar Radio 3 Unwind wedi cael eu gwneud yn bennaf yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, gyda’r rhan fwyaf yn cael eu recordio yn ystod y pum mlynedd diwethaf. I’r gwrthwyneb, canfu dadansoddiad Loftus Media mai dim ond 36% o ddarnau Classic FM a 58% o ddarnau Scala Radio oedd wedi cael eu recordio yn ystod y 10 mlynedd flaenorol.

Ochr yn ochr â hyn, mae Radio 3 Unwind wedi ymrwymo i hyrwyddo cerddoriaeth gan gyfansoddwyr byw. Bydd yn adlewyrchu’r genhedlaeth newydd o artistiaid-cyfansoddwyr fel Erland Cooper, Hania Rani, Ólafur Arnalds ac Isobel Waller-Bridge, gyda rhaglenni’n canolbwyntio ar gyfansoddwyr cyfoes a newydd yn ogystal ag artisiaid BBC Introducing, gan gyflwyno eu cerddoriaeth i lawer mwy o wrandawyr.

Bydd cyfansoddwyr byw cyfoes yn ymddangos ar bob sioe (ar wahân i *Sleep Tracks*), gyda darnau gan gyfansoddwyr byw yn ffurfio o leiaf 50% o draciau ar *Piano Focus*. Bydd *Soundwaves* yn tynnu sylw at gerddoriaeth gan gyfansoddwyr ac artistiaid cyfoes, ac mae *The Sleeping Forecast* yn cynnwys cerddoriaeth gan gyfansoddwyr BBC Introducing yn gyfan gwbl. Mae’r *Music & Meditation Podcast* hefyd yn cynnwys darn newydd wedi’i gomisiynu’n arbennig gan gyfansoddwr ifanc, newydd o’r DU, ym mhob pennod.

Er mwyn rhoi mwy o sylw i waith newydd, bydd Radio 3 Unwind yn darlledu darnau a gomisiynwyd ar gyfer prif orsaf Radio 3, a bydd yn amlinellu cyfansoddiadau sydd wedi’u comisiynu’n arbennig ar gyfer sioeau fel *The Music & Meditation Podcast*.

## 6.8 Cerddoriaeth a thalentau o Brydain

Cefnogi talent a cherddoriaeth o Brydain – mae hyn yn ymwneud yn benodol â chefnogi diwydiant cerddoriaeth y DU. Mae’n mynd y tu hwnt i’r traciau sy’n cael eu chwarae gan ganolbwyntio ar y cyflenwad o artistiaid, cynhyrchwyr, cwmnïau cynhyrchu annibynnol a chyflwynwyr yn y DU. Mae’r BBC wedi ymrwymo i dynnu sylw at y doniau gorau yn y DU a bydd gan y gorsafoedd newydd uchelgais hefyd i ganolbwyntio ar *artistiaid* a pherfformiadau yn y DU. Mae arddangos artistiaid y DU yn hollbwysig er mwyn parhau i ddatblygu sector cerddoriaeth y DU yn ddiwylliannol ac yn economaidd. Mae

cerddoriaeth y DU yn teithio'n dda yn fyd-eang[49] ond mae hynny'n galw am farchnad gartref â chefnogaeth dda y bydd y gorsafoedd newydd yn parhau i'w chefnogi.

Ar draws yr holl wasanaethau DAB+ newydd a gynigir, byddwn yn comisiynu rhaglenni newydd. Bydd y comisiynau hyn yn rhoi cyfleoedd ychwanegol i dalentau cynhyrchu sain allu cynhyrchu cynnwys ar gyfer y BBC gyda ffenestr ddarlledu. Drwy ehangder ac amrywiaeth y gerddoriaeth a chwaraeir, byddwn yn codi proffil artistiaid o Brydain, hen a newydd, nad ydyn nhw wedi cael sylw darlledu yn y gorffennol. Bydd yr hwb hwn i'w proffil yn helpu'r artistiaid hynny i ddatblygu eu brand ac yn sbarduno mwy o lwyddiant masnachol.

### *6.8.1 Radio 1 Dance*

Bydd Radio 1 Dance yn arddangos cerddoriaeth ddawns orau Prydain.

Yn 2023, roedd 58% o'r traciau a chwaraewyd ar ffrwd BBC Radio 1 Dance Sounds yn unig gan artistiaid o'r DU, o'i gymharu â 60% ar Capital Dance (er ei fod wedi ei dynnu o restr chwarae llawer llai) a 38% ar Heart Dance.

O ystyried y newidiadau i'r amserlen o ganlyniad i gomisiynu rhaglenni newydd ac y gallai 2023 fod wedi bod yn allanolyn, rydyn ni'n cynnig y bydd o leiaf 45% o draciau Radio 1 Dance yn cael eu darlledu gan artistiaid o Brydain. O ganlyniad i restr chwarae ehangach Radio 1 Dance, mae hyn yn golygu y bydd Radio 1 Dance yn chwarae mwy o draciau dawns gan amrywiaeth ehangach o artistiaid o Brydain nag unrhyw un o'i chymaryddion agosaf.

Yn ogystal, mae Radio 1 Dance wedi comisiynu cyfres o gydweithrediadau yn y diwydiant, mewn partneriaeth â thri o frandiau blaenllaw'r diwydiant dawns yn y DU (Defected Records, HE.SHE.THEY a DnB Allstars) i arddangos doniau dawns talent newydd a chyffrous, gan dynnu sylw at rôl Radio 1 Dance o ran cefnogi ochr fwy arbenigol cerddoriaeth ddawns, a bydd yn cynnwys artistiaid a thraciau sy'n cael cefnogaeth gyfyngedig ar orsafoedd prif ffrwd. Bydd y partneriaethau hyn yn cefnogi artistiaid sy'n recordio yn niwydiant dawns y DU yn benodol, ynghyd â digwyddiadau byw.

### *6.8.2 Radio 1 Anthems*

Rydyn ni'n cynnig y bydd o leiaf 33% o'r traciau ar Radio 1 Anthems yn rhai gan artistiaid o'r DU. Mae tua 22% o'r traciau sy'n cael eu chwarae ar Kisstory yn rhai gan artistiaid o'r DU.

Yn ogystal â'r gefnogaeth i artistiaid, bydd Radio Anthems 1 yn cefnogi doniau cynhyrchu newydd. Uchelgais yr orsaf yw gweithredu fel sylfaen hyfforddi ar gyfer talent. Rydyn ni'n disgwyl y bydd mwyafrif cyflwynwyr Radio 1 Anthems yn eu rôl broffesiynol gyntaf y tu ôl i'r microffon ar y Radio. Yn y lansiad, cyfunodd Radio 1 Anthems hoff leisiau Radio 1 gyda doniau newydd sbon sydd wedi dod i'r amlwg o'r Gymdeithas Radio Myfyrwyr.

---

[49] UK Music, This is Music 202, url: https://www.ukmusic.org/wp-content/uploads/2024/06/This-Is-Music-2023-Economic-Report.pdf

Bydd yn darparu gorsaf benodol i bobl ifanc allu camu'n ôl i'r gorffennol drwy lais talent ifanc – y tu ôl i'r microffon ac o'i flaen – gan ddatblygu sgiliau curadu maen nhw'n eu defnyddio fwyfwy erbyn hyn yn y gofod digidol.

Rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda'r Gymdeithas Radio Myfyrwyr a phanel bach o fyfyrwyr dros yr haf i gael gwybodaeth a helpu i lunio polisi cerddoriaeth sy'n taro tant gyda gwrandawyr ifanc. Yn benodol, bydd Radio 1 Anthems yn gweithio gyda rhwydwaith y Gymdeithas Radio Myfyrwyr ar draws 90% o'i allbwn, gan roi cyfleoedd i fyfyrwyr gymryd rhan mewn penderfyniadau cynhyrchu a rhestrau chwarae.

Mae'r ffrwd 24/7 newydd yn cynnwys cyflwynwyr deinamig sy'n cyfuno hoff leisiau Radio 1 â thalent newydd sbon sydd wedi dod i'r amlwg o'r Gymdeithas Radio Myfyrwyr. Fe wnaeth tri o'r gwesteiwyr yn y lansiad wneud eu marc drwy rwydwaith uchel ei barch y Gymdeithas, gyda dau wedi graddio'n ddiweddar ac un yn fyfyriwr yn y brifysgol o hyd. Ein bwriad yw adeiladu ar y bartneriaeth hon i ddarparu llif datblygu ar gyfer talent ifanc – mae Radio 1 Anthems ar gyfer pobl ifanc, gan bobl ifanc.

### *6.8.3 Estyniad Radio 2*

Bydd tua 40% o'r traciau sy'n cael eu chwarae ar estyniad Radio 2 yn ganeuon gan artistiaid o'r DU. Mae hyn yr un fath ag y gwnaethom ei nodi yn ein hymgynghoriad ym mis Chwefror. Mae hyn yn cymharu ag Absolute 70s (46%) a Heart 70s (33%).

Roeddem hefyd yn bwriadu sefydlu partneriaeth rhwng estyniad Radio 2 a gorsafoedd radio lleol a chenedlaethol y BBC i ddefnyddio arbenigwyr a lleisiau lleol i adrodd stori am arwyddocâd cerddoriaeth eu rhanbarthau penodol ledled y DU.

Er bod pawb yn mwynhau cerddoriaeth, mae rhai genres ac arddull o gerddoriaeth sydd â chysylltiad agos â rhanbarth penodol yn y DU. Boed hynny y Beatles a Lerpwl neu neuaddau dawns Northern Soul yn y 70au ar draws y gogledd a chanolbarth Lloegr. Mewn partneriaeth â BBC Local Radio, bydd estyniad Radio 2 yn dod â'r lleisiau a oedd yno o bob cwr o'r DU. Bydd yn adlewyrchu straeon cymunedau rhai o'n helfennau treftadaeth gerddorol mwyaf.

### *6.8.1 Radio 3 Unwind*

I gefnogi sîn gerddoriaeth y DU, mae Radio 3 Unwind wedi ymrwymo i hyrwyddo cerddoriaeth gan ddoniau o Brydain. Er enghraifft, gyda'i ffocws ar gyfansoddwyr byw yn adlewyrchu'r genhedlaeth newydd o artistiaid-gyfansoddwyr o'r DU fel Erland Cooper ac Isobel Waller-Bridge.

Bydd holl sioeau Radio 3 Unwind, heblaw am *Cinematic Soundtracks* a *Sleep Tracks*, yn cynnwys o leiaf 25% o gerddoriaeth gan gyfansoddwyr o'r DU. Hefyd, dwy sioe a fydd yn chwarae cerddoriaeth gan gyfansoddwyr ac artistiaid o'r DU yn unig. Bydd *Soundwaves* yn tynnu sylw at gerddoriaeth gan gyfansoddwyr ac artistiaid cyfoes o'r DU ac sy'n byw yn y DU, ac mae *The Sleeping Forecast* yn cynnwys cerddoriaeth gan gyfansoddwyr BBC Introducing o'r DU yn gyfan gwbl. Mae'r *Music & Meditation Podcast* hefyd yn cynnwys darn newydd wedi'i gomisiynu'n arbennig gan gyfansoddwr ifanc, newydd o'r DU, ym mhob pennod.

Yn ôl dadansoddiad Loftus Media, roedd 18% o'r darnau a oedd yn cael eu chwarae ar Classic FM gan gyfansoddwyr o'r DU (4% yn fyw o hyd ac 14% yn hanesyddol) a 21% o'r

darnau a oedd yn cael eu chwarae ar Scala Radio gan gyfansoddwyr o'r DU (12% yn fyw o hyd a 9% yn hanesyddol).

### *6.8.1 Cefnogi'r sector cynhyrchu ledled y Deyrnas Unedig*

Mae'r BBC wedi ymrwymo i gomisiynu rhaglenni radio gan amrywiaeth eang o gynhyrchwyr sain ar sail deg, resymol, anwahaniaethol a thryloyw. Mae'r BBC hefyd wedi ymrwymo i gefnogi'r economi greadigol ar draws y Deyrnas Unedig. Yn 2021, ymrwymodd y BBC i bennu y byddai 50% o'i wariant ar radio a cherddoriaeth (gan gynnwys y grwpiau perfformio) yn cael ei wneud y tu allan i Lundain erbyn 2027/28.[50] Ar ben hynny, mae Trwydded Weithredu Ofcom yn mynnu bod y BBC yn sicrhau bod o leiaf 30% o'i wariant ar radio rhwydwaith a 28% ar gyfer Radio 3 yn cael ei wario y tu allan i ardal yr M25.

Yn 2023/24, aeth y BBC y tu hwnt i amodau ei Drwydded Weithredu, gyda 38.5% o wariant radio rhwydwaith a 31% o wariant Radio y tu allan i'r M25.[51] Rydyn ni hefyd ar y trywydd iawn i gyflawni ein hymrwymiad ar draws y DU i 50% o wariant ar radio a cherddoriaeth y tu allan i Lundain, gan gyrraedd 44% yn 2023/24.[52]

O'r 18 elfen sydd wedi cael eu comisiynu ar gyfer BBC Radio 1 Dance Sounds a dwy ffrwd Sounds-yn-unig newydd (Radio 1 Anthems a Radio 3 Unwind) mae 11 (61%) yn cael eu cyflenwi gan saith cwmni cynhyrchu sain annibynnol gwahanol.

Yn yr un modd, bydd 8 (44%) o'r llinynnau newydd yn cael eu gwneud mewn canolfannau cynhyrchu ledled y DU a thu allan i Lundain yn unig (gan gynnwys Aylesbury, Belfast, Birmingham a Brighton) gyda 3 (17%) yn cael eu lleoli ar ddau safle gyda chyfranddaliadau cynhyrchu rhwng Llundain a Manceinion. Mae holl elfennau newydd Radio 1 Anthems wedi cael eu comisiynu gan gwmnïau annibynnol y tu allan i Lundain.

Rydyn ni'n rhagweld y byddai'r rhaglenni newydd ar gyfer yr estyniad arfaethedig i Radio 2 hefyd yn cael eu comisiynu gan amrywiaeth eang o gwmnïau cynhyrchu sain annibynnol o bob rhan o'r DU.

O'r herwydd, rydyn ni o'r farn y bydd gan y gorsafoedd newydd werth sylweddol yn y diwydiant ar gyfer sector cynhyrchu sain annibynnol y DU, gan gynnwys yn y gwledydd a'r rhanbarthau yn Lloegr.

## 6.9 Cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi'i recordio'n arbennig

Yn hytrach na cherddoriaeth wedi'i recordio a'i rhyddhau'n fasnachol, mae cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth sydd wedi'i recordio'n arbennig yn golygu dod â phrofiadau unigryw i gynulleidfaoedd sydd ar gael dim ond oherwydd bod y BBC yn comisiynu neu drwy gydweithio â'i bartneriaid. Bydd y gorsafoedd newydd yn cefnogi cerddoriaeth fyw, creu perfformiadau unigryw, ac yn defnyddio archif unigryw'r BBC o gerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi'i recordio'n arbennig.

[50] The BBC Across the UK, BBC, Mawrth 2021, t.5
[51] Delivering our mission and public purposes, BBC, Gorffennaf 2024, t.81
[52] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2023/24, BBC, Gorffennaf 2024, t.32

Mae cerddoriaeth fyw ar y radio yn arbennig o bwysig gan ei bod yn ffordd o ddod â chynulleidfaoedd at ei gilydd ar adegau cyffredin. Nid yw pob gwrandäwr yn gallu cael profiad o gerddoriaeth fyw mewn lleoliad, felly mae'n rhoi cyfle iddyn nhw 'fod yno' ac ymgysylltu â pherfformiad sy'n cael ei ddarlledu ar y pryd. Yn yr un modd, mae'r archif o berfformiadau byw yn rhoi modd i gynulleidfaoedd ail-fyw digwyddiadau lle gallen nhw fod wedi bod yn bresennol ac yn rhoi cyfle i gynulleidfaoedd newydd glywed perfformiadau unigryw na fydden nhw wedi cael mynediad atyn nhw fel arall.

Ar gyfer y diwydiant cerddoriaeth, gall rhoi lle i gerddoriaeth fyw yn yr amserlen annog cynulleidfaoedd i gymryd rhan mewn digwyddiadau byw yn y dyfodol: ar ôl gwrando ar Prom neu set DJ byw ar BBC Radio, mae'n bosib y bydd ganddyn nhw gymhelliant i fynd i ddigwyddiadau yn y dyfodol eu hunain, gan gefnogi amrywiaeth eang o berfformiadau byw.

### *6.9.1 Radio 1 Dance*

Bydd cyflwyno cerddoriaeth fyw i gynulleidfaoedd yn nodwedd allweddol o Radio 1 Dance. Bydd yr orsaf yn adlewyrchu ac yn darparu cyd-destun ar gyfer digwyddiadau byw sy'n cynnwys DJs newydd ac artistiaid sy'n dod i'r amlwg yn y genre, fel Dance Weekend Radio 1: Ibiza a digwyddiadau trydydd parti eraill. Bydd BBC Introducing hefyd yn parhau i gefnogi artistiaid newydd gan gynnwys artistiaid dawns, gan ddod â nhw gerbron cynulleidfaoedd mewn digwyddiadau byw, a recordio a darlledu perfformiadau unigryw.

### *6.9.2 Radio 1 Anthems*

Estyniad newydd ar gyfer Radio 1 – bydd yr orsaf yn cynnig rhaglenni sy'n hyrwyddo darganfod cerddoriaeth 'newydd i mi' ymhlith cynulleidfaoedd o dan 35 oed, gan ddangos perfformiadau byw o archif unigryw'r BBC o artistiaid o'r 00au a'r 10au.

### *6.9.3 Estyniad Radio 2*

Bydd estyniad Radio 2 yn canolbwyntio ar ddod â chyfoeth cynnwys archif y BBC i'r gwrandawyr. Bydd tua 20% o'r amserlen yn cynnwys deunydd archif. Bydd yr orsaf yn arddangos perfformiadau byw wedi'u recordio a pherfformiadau wedi'u recordio'n arbennig. Mae'n galluogi pobl i ail-fyw digwyddiadau maen nhw wedi bod ynddyn nhw neu y gallen nhw fod wedi eu colli ac yn galluogi cynulleidfaoedd newydd i ddarganfod cynnwys unigryw nad yw'n cael ei ddarlledu yn unman arall. Nod hyn fydd ategu pen-blwyddi a dathliadau adegau allweddol o ddiwylliant poblogaidd o'r 50au, y 60au a'r 70au.

### *6.9.4 Radio 3 Unwind*

BBC Radio 3 Unwind – bob wythnos, bydd yr orsaf yn darlledu cerddoriaeth fyw wedi'i recordio'n arbennig, gan Gerddorfeydd a Chorau'r BBC, Artistiaid Cenhedlaeth Newydd y BBC, a pherfformwyr eraill.

Bob wythnos drwy gydol yr amserlen, bydd yr orsaf yn darlledu cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi'i recordio'n arbennig. Bydd yn adlewyrchu repertoire sy'n seiliedig ar hwyliau gan Gorau a Cherddorfeydd y BBC ledled y DU, ac Artistiaid Cenhedlaeth Newydd y BBC, gan roi sylw i dros 2,000 o'u perfformiadau. Bydd yr orsaf hefyd yn cefnogi gŵyl Proms y BBC drwy gymysgedd o gerddoriaeth wedi'i churadu sy'n rhoi sylw

i berfformiadau'r Proms, gan gynnwys perfformiadau Corau a Cherddorfeydd y BBC, gan ddod â'r digwyddiadau cerddorol unigryw hyn i gynulleidfa ehangach yn y DU.

## 6.10 Rhaglenni sy'n cael eu harwain gan ddeunydd llafar

Mae deunydd llafar yn nodwedd bwysig ac unigryw o orsafoedd radio cerddoriaeth presennol y BBC. Mae gan y BBC lefel uwch o ddeunydd llafar na darparwyr radio cerddoriaeth masnachol. Mae'r cynnwys llafar yn fwy na dim ond dilyniant, ac mae'n cwmpasu amrywiaeth o genres a fformatau. Er y bydd y pedair gorsaf yn seiliedig ar gerddoriaeth yn bennaf gyda chynnwys cerddoriaeth uwch, bydd eu prif orsafoedd, Radio 1 Dance, estyniad Radio 2 a Radio 3 Unwind yn cynnwys deunydd llafar sy'n ategu'r profiad o wrando ar gerddoriaeth.

Yn gyffredinol rydym yn amcangyfrif y bydd gan y gorsafoedd radio arfaethedig gyfran uwch o lefaru na gorsafoedd masnachol tebyg ar draws yr holl oriau[53]:

- Bydd Radio 1 Dance tua 15-25% yn llafar i 75%-85% o gerddoriaeth;
- Bydd Radio 1 Anthems tua 10% llafar i 90% o gerddoriaeth;
- Bydd estyniad Radio 2 tua 30% ar lafar i 70% o gerddoriaeth; a
- Bydd Radio 3 Unwind tua 10% llafar i 90% cerddoriaeth.

### *6.10.1 Radio 1 Dance*

Bydd Radio 1 Dance yn comisiynu rhywfaint o raglenni llafar i archwilio hanes a datblygiad y genre yn ogystal ag artistiaid allweddol. Enghraifft o hyn yw Essential History of Dance Music gan Pete Tong a fydd, dros 20 pennod dwy awr o hyd, yn archwilio hanes cerddoriaeth ddawns – o Techno i Dubstep, Hard House i French Touch – ar gyfer cynulleidfa ifanc. Bydd y penodau'n cael eu darlledu bob wythnos, yn edrych ar wahanol is-genres dawns, yn cynnwys rhestr chwarae ddifyr o'r traciau hanfodol o'r byd hwnnw, ac yn egluro hanes y genre dan sylw mewn ffordd ddifyr a diddorol.

### *6.10.2 Estyniad Radio 2*

Bydd yr amserlen (tua 60%) yn cael ei harwain gan ddeunydd llafar. Bydd hyn yn cynnwys rhaglenni dogfen perthnasol, difyr ac addysgol (tua 55% o gerddoriaeth, 45% o ddeunydd llafar) neu raglenni wedi'u curadu'n arbennig (tua 65% o gerddoriaeth/35% o ddeunydd llafar). Bydd tua 20% o'r amserlen yn defnyddio archif unigryw'r BBC. Rhan o hyn fydd cynnwys o'r archif sy'n cael ei arwain gan ddeunydd llafar, gan gynnwys cyfweliadau a rhaglenni dogfen arbennig ar artistiaid a digwyddiadau a gafodd effaith ar y byd pop.

---

[53] Mae mesur cynnwys llafar gwasanaethau radio eraill yn anodd ac yn ddrud ac nid ydym wedi cynnal y dadansoddiad hwn ar gyfer y broses Prawf Budd y Cyhoedd, ac nid ydym yn ystyried ei fod yn gymesur iddo gael ei wneud yn barhaus. Fodd bynnag, er enghraifft, byddem yn nodi ar draws y portffolio Radio Absolute fod rhai rhaglenni (John Richardson ar foreau Sadwrn, Jason Manford ar fore Sul, Dave Berry ar frecwast yn ystod yr wythnos a Bush a Richie ar brynhawniau yn ystod yr wythnos) sy'n ymddangos ar draws ei bortffolio o orsafoedd. defnyddio'r un lleferydd ond cerddoriaeth sy'n briodol i'r estyniad.

### *6.10.3 Radio 3 Unwind*

Bydd BBC Radio 3 Unwind yn cynnwys cyfuniadau unigryw a gafaelgar o gynnwys llafar a cherddoriaeth fel y gwelir yn nheitlau presennol BBC Sounds fel *The Music & Meditation podcast, Tearjerker* a *The Sleeping Forecast* (cyfuniadau unigryw o *Shipping Forecast* Radio 4 a cherddoriaeth glasurol gan artistiaid BBC Introducing). Bydd yr estyniad yn cynnwys sioeau sy'n canolbwyntio ar ymwybyddiaeth ofalgar, lles a chysgu mewn ffordd gwbl wahanol i unrhyw un o'n cystadleuwyr, gydag ystod o leisiau tawel a chysurlon sy'n cyd-fynd â'r gerddoriaeth.

Bydd BBC Radio 3 Unwind yn cynnwys cyfuniadau unigryw a gafaelgar o gynnwys llafar a cherddoriaeth fel y gwelir yn nheitlau presennol BBC Sounds fel *The Music & Meditation podcast, Tearjerker* a *The Sleeping Forecast* (cyfuniadau unigryw o *Shipping Forecast* Radio 4 a cherddoriaeth glasurol gan artistiaid BBC Introducing). Bydd yr estyniad yn cynnwys sioeau sy'n canolbwyntio ar ymwybyddiaeth ofalgar, lles a chysgu mewn ffordd gwbl wahanol i unrhyw un o'n cystadleuwyr, gydag ystod o leisiau tawel a chysurlon sy'n cyd-fynd â'r gerddoriaeth.

Er mwyn rhoi mwy o sylw i waith newydd, bydd Radio 3 Unwind yn darlledu darnau a gomisiynwyd ar gyfer prif orsaf Radio 3 a bydd yn amlinellu cyfansoddiadau sydd wedi'u comisiynu'n arbennig ar gyfer sioeau fel *The Music & Meditation Podcast*.

Byddwn yn blaenoriaethu perfformwyr ac ensembles Prydeinig lle bo hynny'n bosibl. Yn olaf, bydd Radio 3 Unwind yn cynnwys cerddoriaeth fyw wedi'i recordio'n arbennig gan Gorau a Cherddorfeydd y BBC, a charfan flynyddol Radio 3 o Artistiaid Cenhedlaeth Newydd.

## 6.11 Newyddion

Mae'r BBC wedi ymrwymo'n sylfaenol i newyddion radio, ar ein gorsafoedd llafar a cherddoriaeth. Mae ein gorsafoedd radio rhwydwaith yn darlledu dros 15,500 awr o newyddion a materion cyfoes bob blwyddyn, ac mae ein 39 o orsafoedd radio lleol ledled Lloegr, tair gorsaf radio'r gwledydd a gorsafoedd Cymraeg a Gaeleg yn darlledu dros 50,000 o oriau. Rydyn ni hefyd yn darparu amrywiaeth o bodlediadau newyddion a materion cyfoes drwy BBC Sounds, ac yn curadu ein newyddion sain i'r ffrwd Newyddion Byw.

Mae gan ein holl orsafoedd radio rhwydwaith presennol rwymedigaethau newyddion penodol yn Nhrwydded Weithredu Ofcom, ac yn 2023/24 roeddem wedi bodloni'r holl ofynion hyn, gan ddarparu llawer mwy na'r hyn sy'n ofynnol gan y cwota yn aml, e.e. 978 awr o newyddion a materion cyfoes ar Radio 2, gydag 199 awr yn ystod oriau brig, o'i gymharu ag 867 awr a 153 awr, yn y drefn honno; mae Radio 4 yn darlledu 3,122 awr o'i gymharu â chwota o 2,750 awr.

Yn 2023/24, roedd 48% o oedolion y DU yn gwrando ar Radio Rhwydwaith y BBC ar gyfartaledd bob wythnos i wrando ar raglenni newyddion a materion cyfoes, ac mae 8 o bob 10 defnyddiwr wythnosol yn dweud bod BBC News ar y radio yn gosod safon uchel o ran ansawdd.

Fodd bynnag, fel y nodwyd yn ein hymgynghoriad ym mis Chwefror, canfu ein hymchwil fod y BBC yn diwallu anghenion cynulleidfaoedd am gynnig mwy ymlaciol a hamddenol.

Canfu'r ymchwil hwn fod y cyflwr ymlaciol yn dibynnu ar ddiffodd unrhyw sylw neu drafodaeth sy'n debygol o godi gwrychyn gwrandawyr (gan gynnwys bwletinau newyddion). Canfu ein hymchwil, wrth holi cynulleidfaoedd am y prif resymau dros wrando ar y radio, bod 'darganfod cerddoriaeth newydd' a 'helpu fi i ddianc rhag bywyd bob dydd' yn gor-fynegeio ar gyfer cynulleidfaoedd 16-34 oed, tra bod 'codi fy hwyliau' yn gor-fynegeio ar gyfer cynulleidfaoedd C2DE. Mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau Adolygiad Ofcom o'r Gynulleidfa a ganfu fod teledu a radio yn aml yn cael eu defnyddio fel arfau ar gyfer dihangfa a chysur, a bod yn well gan y grwpiau hyn wrando ar gerddoriaeth, a'u bod yn llai tebygol o fod eisiau gwrando ar radio llafar.[54]

### *6.11.1 Radio 1 Anthems a Radio 1 Dance*

Fel y nodwyd uchod, bwriad y gorsafoedd arfaethedig yw darparu gwasanaeth i gynulleidfaoedd nad ydyn nhw'n cael eu gwasanaethu'n ddigonol ar hyn o bryd, h.y. grwpiau economaidd-gymdeithasol is a phobl iau. O'r herwydd, fe wnaethom gynnig na fyddai'r gorsafoedd newydd hyn yn cynnwys bwletinau newyddion gan mai gorsafoedd cerddoriaeth sy'n seiliedig ar hwyliau yw'r rhain yn bennaf, ac mae ymchwil yn dweud wrthym nad yw gwrandawyr sy'n chwilio am raglen ysgafn ac ymlaciol eisiau unrhyw beth yn torri ar draws y dôn a'r naws.

Fodd bynnag, mae angen i ni gydnabod nad newyddion radio yw'r ffynhonnell newyddion bwysicaf i gynulleidfaoedd iau. Yn ôl arolwg cael gafael ar newyddion Ofcom, dim ond 23% o bobl 16-24 oed oedd yn nodi radio fel ffynhonnell eu defnydd o newyddion. Dyma'r isaf o lwyfannau sy'n cael eu mesur gan Ofcom o'i gymharu ag ar-lein (88%), cyfryngau cymdeithasol (82%) papurau newydd print ac ar-lein (24%) a darlledu teledu a fideo ar-alw (49%). Ar gyfer y rhai 25-34 oed, roedd y ffigurau ar-lein (83%), cyfryngau cymdeithasol (70%), darlledu teledu a fideo ar-alw (55%), radio (34%) a phapurau newydd print ac ar-lein (26%).[55]

O'r herwydd, nid yw cynlluniau'r BBC i ddarparu newyddion a gwybodaeth i gynulleidfaoedd iau yn seiliedig ar ein gwasanaethau radio. Yn hytrach, gan gydnabod twf TikTok a gwasanaethau fideo ffurf fer eraill, mae BBC News wedi ceisio tyfu'r brand newyddion gyda chynulleidfaoedd iau ar draws yr apiau hyn. Rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2023, mae cyfartaledd misol treigl y niferoedd a fu'n gwylio cyfrif BBC News ar TikTok wedi tyfu 113% o 48.7 miliwn i 103.7 miliwn. Ers dechrau 2024, mae 45% o'r gynulleidfa ddyddiol gyfartalog y cyrhaeddodd cyfrif TikTok BBC News nhw rhwng 18 a 24 oed.

### *6.11.2 Radio 3 Unwind*

Yn ein hymgynghoriad ym mis Chwefror, fe wnaethom nodi'n glir ein bwriad i Radio 3 Unwind ddarparu profiad cerddoriaeth glasurol sy'n tawelu ac yn ymlacio rhywun, ac sy'n cefnogi arferion dyddiol gwrandawyr, gan eu helpu i ddianc rhag pwysau a straen bywyd bob dydd a hyrwyddo eu llesiant. Drwy gydol y dydd, cynigir cynnwys sy'n hyrwyddo ffocws, yn helpu gwrandawyr i fwrw eu blinder, ymlacio a chael cyfle i ddianc i fyd arall yn ogystal â helpu i orffwyso a chysgu. Fe wnaethom ddweud y byddai'r orsaf

[54] Adolygiad Cynulleidfaoedd y BBC: Deall pa ffactorau allai ysgogi lefelau bodlonrwydd is ymysg grwpiau economaidd-gymdeithasol D ac E, Ofcom, 30 Tachwedd 2023, t.12, 17
[55] Pobl yn cael gafael ar newyddion yn y Deyrnas Unedig, Ofcom, Medi 2024, ffigur 2.

arfaethedig yn cynnwys sioeau sy'n defnyddio ymwybyddiaeth ofalgar, llesiant a lle cysgu, gyda cherddoriaeth yn cael ei hategu gan amrywiaeth o leisiau tawel a chysurus.

Felly, yn unol â'n hymchwil ac adolygiad Ofcom o gynulleidfaoedd, rydyn ni o'r farn y byddai presenoldeb bwletinau newyddion ar Radio 3 Unwind yn tanseilio bwriad penodol a gwerth cyhoeddus y cynnig yn sylfaenol.

### *6.11.3 Estyniad Radio 2*

Ar gyfer cynulleidfaoedd hŷn, mae radio yn dal yn ffynhonnell bwysig o newyddion, sy'n cael ei defnyddio gan 48% o oedolion 55 oed a hŷn, a dim ond y tu ôl i ar-lein (54%) a theledu (85%).[56] Felly, yn dilyn adborth gan randdeiliaid, gan ystyried ein cynulleidfa darged, ac adolygu ein cynnig yng nghyd-destun y newidiadau rydyn ni wedi'u gwneud i'n cynnig ar gyfer estyniad Radio 2 i gynyddu ei natur unigryw, rydyn ni wedi penderfynu y dylai estyniad Radio 2 gael bwletinau newyddion.

Yn ogystal â'r cynnwys llafar wedi ei arwain gan gerddoriaeth, bydd yr Orsaf yn cynnwys bwletinau newyddion. Bydd y bwletinau newyddion drwy gydol y dydd ar ddechrau pob rhaglen ar yr amserlen. Bydd y bwletinau hyn yn cael eu cyd-ddarlledu ar yr un pryd ar Radio 2. Rydyn ni'n rhagweld o leiaf 10 bwletin y dydd, sy'n dod i gyfanswm o tua 70 yr wythnos.

## 6.12 Cefnogi arloesi technolegol mewn darllediadau radio

Mae'r Siarter yn nodi " bod yn rhaid i'r BBC hyrwyddo arloesi technolegol" a "chanolbwyntio ar arloesi technegol i gefnogi darparu Gwasanaethau Cyhoeddus y DU".[57] Yn fwy penodol, mae'r Cytundeb yn mynnu bod y BBC yn "gwneud pob ymdrech resymol i gefnogi'r newid o radio analog i radio digidol".[58]

Mae'r BBC wedi ymrwymo i radio digidol ers ei lansio ac mae wedi gwneud buddsoddiad sylweddol i barhau i adeiladu ar ddarpariaeth DAB ar lefel genedlaethol a lleol. Mae'r BBC, radio masnachol a'r Llywodraeth wedi cydweithio i gyd-ariannu'r broses o ehangu'r ddarpariaeth i 90% o'r boblogaeth. Mae ymestyn darpariaeth yn rhan bwysig o adeiladu dyfodol digidol ar gyfer radio.

Roedd lansio gorsafoedd DAB yn unig yn rhoi mwy o ddewis i gynulleidfaoedd yn ogystal hefyd â chynnig cynnyrch newydd, fforddiadwy, hawdd eu defnyddio iddyn nhw wrando arnyn nhw. Wrth lansio DAB yn gynnar, gwelwyd cynnydd yn nifer y setiau radio a werthwyd ac, yn bwysig, mewn gwerth i wneuthurwyr yn y DU. Dylai nifer y gwasanaethau DAB+ cenedlaethol sy'n cael eu cyflwyno gan radio masnachol a'r nifer cynyddol o orsafoedd sy'n defnyddio DAB+ ar lwyfannau bach gynyddu'r nifer sy'n defnyddio dyfeisiau wedi eu galluogi i chwarae DAB+. Rydyn ni'n credu y bydd bwriad y BBC i lansio gorsafoedd DAB+ yn cefnogi'r datblygiadau hyn ymhellach.

Ar ben hynny, bydd ein cynigion yn cefnogi'r broses o drawsnewid radio'r DU yn ddigidol. Bydd cynulleidfaoedd yn cael eu hannog i wrando hefyd drwy BBC Sounds lle mae swyddogaethau gwrando byw ychwanegol (er enghraifft, rhewi a mynd yn ôl, gweld y

---

[56] Pobl yn cael gafael ar newyddion yn y Deyrnas Unedig, Ofcom, Medi 2024, ffigur 3.
[57] Siarter Frenhinol y BBC, Erthygl 15
[58] Cytundeb Fframwaith y BBC, Cymal 45

trac sy’n chwarae) a pharhau â’u teithiau gwrando i ganfod rhagor o benodau a chynnwys mwy perthnasol sydd ar gael ar-alw, mewn profiad gwell a mwy personol.

## 6.13 Gwerth cyhoeddus sy'n cael ei ildio

Fel y nodwyd yn yr adran flaenorol (6.5.3) ar y nifer sy’n gwrando, bydd tua thraean o’r gwrando ar y gorsafoedd newydd yn dod o wasanaethau presennol y BBC. Bydd cynulleidfaoedd sy’n defnyddio’r gwasanaethau hyn yn cael gwerth cyhoeddus o’u defnydd presennol o gynnwys y BBC. Yn yr un modd, mae newid cynulleidfaoedd o wasanaethau masnachol yn debygol o fod yn deillio o’r defnydd hwnnw.

P’un ai o wasanaethau’r BBC ynteu wasanaethau masnachol y bydd cynulleidfaoedd yn newid, bydd hyn oherwydd eu bod yn cael gwerth unigol uwch o’r gwasanaeth newydd na’r gwasanaeth blaenorol. Fel arall, ni fydden nhw’n newid. Byddem yn disgwyl y byddai gwerth unigol cyfyngedig gyda’r cynnig. Mae hyn yn arbennig o wir gan fod newid rhwng gorsafoedd radio yn gymharol ddi-gost.

Yn yr un modd â gwerth unigol, mae’r gwerth cymdeithasol net yn debygol o fod yn sylweddol. Bydd yn cael ei gymedroli gan golli gwrandawyr ar wasanaethau eraill y BBC lle mae gwerth cymdeithasol sylweddol yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd. Y prif fudd o ran gwerth cymdeithasol gwrando ar ddarpariaeth arall yn y BBC fydd adlewyrchu cymunedau’r DU yn well. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer BBC Radio 1 Dance, o gofio’r cynnydd yn yr amlygrwydd a ddaw yn sgil y gwasanaeth. Mae BBC Radio 3 Unwind hefyd yn debygol o hybu gwerth cymdeithasol oherwydd manteision llesiant ychwanegol y tu hwnt i gynnwys safonol y BBC.

O wrando’n fasnachol, bydd manteision ehangach cynigion y BBC yn cael eu teimlo yn llawnach gan nad yw’r agweddau hyn yn cael sylw ar radio masnachol, neu sy'n cael sylw i raddau mwy cyfyngedig, fel sy’n cael ei ddangos uchod. Bydd hyn yn cynnwys y mwyaf, Ehangder ac amrywiaeth o gerddoriaeth; Cerddoriaeth newydd; cerddoriaeth a thalent o Brydain; cerddoriaeth fyw neu gerddoriaeth wedi’i recordio’n arbennig; Llafar; a Newyddion sy'n rhan annatod o’r gwasanaethau.

Mae’r cynyddran gwerth diwydiannol yn debygol o fod yn is gan fod y BBC yn ailflaenoriaethu adnoddau i fuddsoddi yn y gwasanaethau newydd. Mae’r cyllid yn cael ei ailgyfeirio i ffwrdd sy’n cefnogi cynaliadwyedd hirdymor y BBC yn well gan ei fod yn darparu cynnig wedi’i dargedu’n well i ddiwallu anghenion defnyddio modern ac yn targedu cynulleidfaoedd nad ydyn nhw’n cael eu gwasanaethu’n ddigonol. Bydd cefnogi’r newid o AM/FM i ddefnydd digidol yn arwain at fanteision tymor hwy i’r diwydiant na fydd o bosibl yn cael ei wireddu heb y buddsoddiad.

Yn gyffredinol, rydyn ni felly’n disgwyl ar sail net y bydd y cynnig yn unigol ac ar y cyd yn darparu gwerth cyhoeddus sylweddol.

## 6.14 Dal y BBC i gyfrif am ei berfformiad

Mae gan Ofcom ddyletswydd i ddal y BBC i gyfrif am gyflawni ei gylch gwaith ar ran gwylwyr a gwrandawyr. Mae Ofcom yn gwneud hyn drwy’r Drwydded Weithredu, sydd wedi’i dylunio i sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei Genhadaeth yn effeithiol ac yn hyrwyddo ei Ddibenion Cyhoeddus. Ym mis Mawrth 2023, cyhoeddodd Ofcom yr hyn a ddisgrifiwyd ganddo fel Trwydded Weithredu wedi’i moderneiddio a oedd yn dibynnu ar

lai o gwotâu allbwn ac yn rhoi ymrwymiadau tryloywder mwy dibynadwy a oedd yn mynnu bod y BBC yn nodi ymrwymiadau yn ei Gynllun Blynyddol ac yn adrodd ar ei berfformiad ar yr ymrwymiadau hyn yn ei

Hyd yn oed o dan y Drwydded Weithredu wedi'i moderneiddio, mae gan Radio 1 a Radio 2 gwotâu helaeth.

**Ffigur 30: Crynodeb o amodau Drwydded Weithredu Radio 1 a Radio 2**

| | **Radio 1** | **Radio 2** |
|---|---|---|
| Newyddion | 280 awr y flwyddyn, gyda dau fwletin estynedig bob diwrnod o'r wythnos | 867 awr o newyddion/materion cyfoes (153 yn ystod oriau brig) |
| Artistiaid o'r DU (yn ystod y dydd) | 45% o gerddoriaeth | 40% o gerddoriaeth |
| Cerddoriaeth newydd (yn ystod y dydd) | 50% o gerddoriaeth | 50% o gerddoriaeth |
| Cerddoriaeth arbenigol | 3,129 awr y flwyddyn | 1,100 awr y flwyddyn |
| Cerddoriaeth fyw / cerddoriaeth wedi'i recordio'n arbennig | 175 sesiwn newydd y flwyddyn | 68 awr y flwyddyn o gerddoriaeth fyw neu wedi'i recordio'n arbennig |
| Ehangder ac amrediad | Amrywiaeth ehangach o gerddoriaeth na darparwyr tebyg, gan ystyried nifer y dramâu a maint y rhestr chwarae, yn ystod yr Oriau Gwrando Brig ac yn ystod y Dydd | |

Mae gan Radio 3 lai o rwymedigaethau uniongyrchol, h.y. rhwymedigaeth i ddarparu bwletinau newyddion rheolaidd ac aml; bod o leiaf 45% o'i allbwn cerddorol yn gerddoriaeth fyw neu gerddoriaeth wedi'i recordio'n arbennig; a'i fod yn comisiynu ac yn darlledu gweithiau cerddorol newydd.

Fodd bynnag, o ran maint tebygol yr orsaf a'r berthynas â gweddill portffolio radio rhwydwaith y BBC, y gorsafoedd mwyaf tebyg i'r rhai mae'r BBC yn eu cynnig ar hyn o bryd yw'r gorsafoedd digidol a lansiwyd yn 2002, h.y. 1Xtra, BBC 6 Music, 4 Extra, 5 Sports Extra ac Asian Network. Ar hyn o bryd, dim ond mewn perthynas â newyddion a materion cyfoes mae cwotâu Trwydded Weithredu yn berthnasol i'r gorsafoedd hyn. Mae cwota Radio 1 Xtra yr un fath â Radio 1, mae'n rhaid i 6 Music ddarlledu 306 awr o newyddion y flwyddyn, ac mae gan Asian Network 1,224 awr o newyddion a materion cyfoes; Nod oes gan 4 Extra a 5 Sports Extra gwotâu.

### *6.14.1 Sut bydd y BBC yn mesur ei berfformiad?*

Mae'r BBC – fel unrhyw gwmni cyfryngau modern – yn monitro perfformiad ei holl wasanaethau'n barhaus gan ddefnyddio llu o fetrigau. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio arian y diwydiant fel RAJAR, ein systemau dadansoddi a'n harolygon ein hunain, ac ati. Bydd y gwaith monitro hwn yn cynnwys:

- Cyrhaeddiad a nifer y bobl sy'n gwrando ar y gwasanaethau newydd;

- Perfformiad y gwasanaethau newydd gyda gwahanol ddemograffeg, yn enwedig mewn perthynas â'r cynulleidfaoedd targed a nodwyd uchod;
- Perfformiad y gwahanol wasanaethau ar wahanol lwyfannau; a
- Pherfformiad o ran yr ymrwymiadau gwerth cyhoeddus rydyn ni wedi'u gwneud uchod.

### *6.14.2 Pa amodau Trwydded Weithredu ddylai fod yn berthnasol i'r gorsafoedd arfaethedig?*

Mae'r cwestiwn ynghylch pa amodau Trwydded Weithredu ddylai fod yn berthnasol i'r gorsafoedd newydd yn gwestiwn i Ofcom yn hytrach na'r BBC.

Fodd bynnag, rydyn ni o'r farn y dylai Ofcom fod yn gyson ac yn gymesur wrth osod amodau'r Drwydded Weithredu. Rydyn ni o'r farn mai'r dull mae Ofcom wedi'i fabwysiadu mewn perthynas â'r gorsafoedd digidol-yn-unig presennol yw'r model mwyaf priodol ar gyfer y gorsafoedd arfaethedig. Dylai Ofcom hefyd sicrhau nad yw'r amod yn effeithio ar uniondeb golygyddol y cynnig.

### *6.14.3 Pa ymrwymiadau fyddai'r BBC yn eu gwneud mewn perthynas â phob gorsaf?*

Rydyn ni wedi nodi'n fanwl y cynlluniau sydd gennym ar gyfer pob gorsaf. Pe bai Ofcom yn cymeradwyo'r gorsafoedd hyn a'u bod wedi cael eu lansio yn ystod 2025, byddem yn bwriadu adrodd ar eu perfformiad yn ystod 2025/26 o ran y cynlluniau rydyn ni wedi'u nodi yn y ddogfen hon mewn perthynas ag ehangder ac amrywiaeth cerddoriaeth, cerddoriaeth newydd, cerddoriaeth o'r DU, cerddoriaeth wedi'i recordio'n arbennig, ac ati, yn amodol ar amodau mae Ofcom wedi'u cynnig.

Yn y blynyddoedd dilynol, byddem yn cyflawni amodau tryloywder a osodwyd ar y gorsafoedd gan Ofcom yn y Drwydded Weithredu ac yn penderfynu o flwyddyn i flwyddyn pa ymrwymiadau meintiol ac ansoddol penodol ychwanegol y byddem yn eu gwneud ar gyfer y flwyddyn honno. Mae hyn yn cyd-fynd â'r fframwaith rheoleiddio mae Ofcom wedi'i sefydlu a sut rydyn ni wedi mynd ati'n ddidwyll i fynd i'r afael â'r dull gweithredu o ran ymrwymiad a thryloywder dros y ddwy flynedd diwethaf.

## 6.15 Casgliad ar werth cyhoeddus

Mae'r manylion a nodir uchod yn dangos bod y gorsafoedd arfaethedig hynny'n debygol o gynhyrchu Gwerth Cyhoeddus sylweddol. Mae hyn yn bennaf oherwydd gwerth ychwanegol i gynulleidfaoedd wrth ail-lunio'r hyn mae'r BBC yn ei gynnig i gynulleidfaoedd nad ydyn nhw'n cael eu gwasanaethu'n ddigonol a chwaethau modern.

Rydyn ni wedi dylunio'r gwasanaethau'n benodol i fod yn berthnasol i gynulleidfaoedd ifanc a C2DE. Mae ein tystiolaeth yn awgrymu y bydd BBC Radio 1 Dance, BBC Radio 1 Anthems a BBC Radio 3 Unwind yn apelio at gynulleidfaoedd ifanc, a bydd y pedwar estyniad arfaethedig yn boblogaidd gyda chynulleidfaoedd C2DE. Er nad oedden nhw'n cael eu targedu'n benodol gan y cynigion hyn, roedd cynulleidfaoedd Du a lleiafrifoedd ethnig hefyd yn gweld bod y cynigion yn atyniadol, yn enwedig BBC Radio 1 Dance a BBC Radio 1 Anthems. Gallai'r gorsafoedd felly wneud cyfraniad sylweddol at ailennyn diddordeb y cynulleidfaoedd hyn yng ngwasanaethau radio'r BBC.

Er mai gorsafoedd genre ydyn nhw, maen nhw wedi cael eu dylunio i ysgogi amrywiaeth yn y rhestrau chwarae a’r amserlen. Bydd pob gorsaf yn cyfrannu at ehangder ac amrywiaeth cyffredinol cerddoriaeth ar y BBC. Yn unigol, defnyddio rhestrau chwarae eang sy'n seiliedig ar genre i gynnig cymysgedd ehangach o gerddoriaeth ac i chwarae amrywiaeth ehangach o draciau na'r hyn sydd ar gael ar wasanaethau masnachol.

Bydd Radio 1 Dance a Radio 3 Unwind yn cefnogi cerddoriaeth newydd yn eu genres. Bydd y pedair gorsaf yn cefnogi cerddoriaeth a thalent o Brydain. Mae ffocws penodol ar dalent ar BBC Radio 1 Anthems gyda phartneriaeth y Gymdeithas Radio Myfyrwyr a’i huchelgeisiau o ran cyflwynwyr newydd, a fydd yn helpu i adeiladu llif talent yn y dyfodol.

Ar ben hynny, bydd pob gorsaf yn rhoi modd o gael amrywiaeth o gerddoriaeth fyw neu gerddoriaeth wedi’i recordio’n arbennig. Bydd BBC Radio 1 Anthems ac estyniad BBC Radio 2 yn gyfle i ailymweld â digwyddiadau tra bydd BBC Radio 1 Dance a BBC Radio 3 Unwind yn cynnig sesiynau mwy cyfoes ochr yn ochr â pherfformiadau o’r archif.

Mae deunydd llafar yn ddangosydd amlwg o ran cynnwys y BBC, ac mae’r gorsafoedd yn dal i gael eu harwain gan gerddoriaeth. Bydd estyniad BBC Radio 2 a BBC Radio 3 Unwind yn rhoi dewis llafar am ddim i helpu cynulleidfaoedd i fynd y tu hwnt i’r gerddoriaeth. Bwriedir i BBC Radio 1 Dance hefyd gynnwys amrediad mwy cyfyngedig o gynnwys llafar sy’n archwilio’r genre Dawns. Yn ogystal, bydd estyniad BBC Radio 2 yn cynnwys bwletinau newyddion.

Bydd sicrhau bod mwy o wasanaethau’r BBC ar gael ar lwyfannau digidol yn hybu’r defnydd o’r gwasanaethau hyn a’r defnydd ohonyn nhw.

**Ffigur 31: Crynodeb o ddarpariaeth arfaethedig y gorsafoedd yn erbyn damcaniaethau gwerth cyhoeddus**

| | BBC Radio 1 Dance | BBC Radio 1 Anthems | Estyniad BBC Radio 2 | BBC Radio 3 Unwind |
|---|---|---|---|---|
| Gwell gwerth i bob cynulleidfa: Ieuenctid | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Gwell gwerth i bob cynulleidfa: C2DE | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Ystod ac amrywiaeth o gerddoriaeth | 3,000 o draciau unigryw | 4,000 o draciau unigryw | 6,000 o draciau unigryw | Polisi cerddoriaeth eang |
| Cerddoriaeth newydd | Bydd o leiaf 1/3 o'r traciau yn newydd | | | Canolbwyntio ar gyfansoddwyr byw a recordiadau diweddar |
| Cerddoriaeth a thalentau o Brydain | 45% o draciau | 33% o draciau, Partneriaeth y Gymdeithas Radio Myfyrwyr, Cyflwynwyr newydd | 40% o draciau, Partneriaeth ar leisiau lleol | Canolbwyntio ar gyfansoddwyr ac artistiaid o'r DU ac sy'n preswylio yn y DU, gyda sioeau sydd wedi'u comisiynu yn cynnwys o leiaf 25% o gyfansoddwyr o'r DU |
| Cerddoriaeth fyw neu gerddoriaeth wedi'i recordio'n arbennig | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Llafar | ✓ | | ✓ | ✓ |
| Newyddion | | | ✓ | |
| Cefnogi arloesi technolegol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

# 7. Effaith bosib ar gystadleuaeth deg ac effeithiol

## 7.1 Amcangyfrifon o'r cynnydd cychwynnol

Yn ystod yr ymgynghoriad, roeddem wedi amcangyfrif maint y gorsafoedd yn unol â'r tabl isod. Mae pob un o'r gorsafoedd estyniad yn llai na'r rhiant-orsaf.

**Ffigur 32: Amcangyfrif o'r gynulleidfa bosib wythnosol a gyrhaeddir a'r oriau gwrando**

| | Y gynulleidfa a gyrhaeddir yn fras (m) | Oriau Bras (m) | Oriau /gwrandäwr |
|---|---|---|---|
| Radio 1 Dance | 0.96 | 5 | 5 |
| BBC Radio 1 Anthems | 0.86 | 3 | 3 ½ |
| Estyniad Radio 2 | 2.09 | 21 | 10 |
| BBC Radio 3 Unwind | 0.24 | 1 | 5 |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad y BBC*

Ar adeg yr ymgynghoriad, nid oeddem eto wedi nodi o ble byddai'r gwrandawyr hynny'n dod. Fe wnaethon ni nodi ei bod yn debygol y daw'r gwrando ychwanegol i'r gorsafoedd DAB+ newydd arfaethedig o gyfuniad o'r canlynol:

- Gorsafoedd radio eraill y BBC (gan gynnwys prif orsaf berthnasol pob estyniad) a chynnwys arall sydd ar gael ar BBC Sounds;
- Gorsafoedd cerddoriaeth Radio Masnachol a'u gwasanaethau ar-lein;
- Llwyfannau ffrydio cerddoriaeth – fel Spotify, Apple Music, Amazon Music; a
- Twf organig, hynny yw, pobl na fyddent, fel arall, wedi gwrando ar unrhyw un o'r uchod.

Bydd cynnydd graddol i'r cyfanswm sy'n gwrando ar radio'r BBC, ac felly bydd maint effaith ein gorsafoedd arfaethedig ar y sector masnachol yn dibynnu ar i ba raddau mae'r gwrando ar y gorsafoedd newydd yn digwydd yn lle gwrando ar wasanaethau presennol y BBC neu wasanaethau nad ydyn nhw'n wasanaethau'r BBC. Fe wnaethom ragweld y bydd cyfran sylweddol o'r gwrandawyr ar bob gorsaf yn deillio o gymryd gwrandawyr o wasanaethau eraill y BBC, er enghraifft, bydd llawer a fydd yn gwrando ar estyniad Radio 2 yn arfer gwrando ar Radio 2, y brif orsaf.

Ar adeg yr ymgynghoriad, nid oeddem o'r farn y byddai'r newid yn arwain at unrhyw oblygiadau arwyddocaol i eraill yng nghadwyn gwerth sain ddigidol. Ac eithrio artistiaid sy'n recordio a allai fynd yn fwy poblogaidd wrth gael mwy o sylw ar wasanaethau radio ychwanegol. Er bod amser hamdden yn gystadleuol, nid oedden ni'n disgwyl unrhyw effeithiau uniongyrchol ar weithgareddau eraill fel defnydd clyweledol oherwydd y newidiadau.

## 7.2 Adborth rhanddeiliaid

Yn yr adran hon rydyn ni'n rhoi sylw i rywfaint o adborth gan randdeiliaid ar effaith ein gorsafoedd. Rydyn ni'n canolbwyntio yn yr adran hon ar faterion sy'n ymwneud â'n modelu o faint y gorsafoedd a'u heffaith gystadleuol sy'n deillio o hynny.

### 7.2.1 Radiocentre

Rhoddodd Radiocentre ymateb cynhwysfawr ar effaith lansio'r gorsafoedd. O ran yr effaith ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, roedd eu dadleuon yn seiliedig ar ddadansoddiad a gynhaliwyd gan Compass Lexecon. Deliodd gwaith Compass Lexecon â'r cynnydd a'r effaith ar refeniw hysbysebu. Mae'r cyntaf yn seiliedig ar arolwg cynrychiolaeth genedlaethol a'r olaf ar fodelu econometrig.

Daeth eu dadansoddiad i'r casgliad bod y BBC yn tanbrisio'n sylweddol y posibilrwydd o wrando ar y gwasanaethau. Nodir canlyniadau'r gwaith hwn yn y tabl isod. Yn syml, mae'r amcangyfrifon gwrando arfaethedig yn anymarferol o'u cymharu â gorsafoedd eraill sydd wedi hen ennill eu plwyf ac sydd â chymunedau ffyddlon a chyllidebau cynhyrchu llawer mwy:

- Byddai dwy estyniad arfaethedig BBC Radio 1 yn denu gwrandawiad tebyg yr un i'r gwrando digidol ar BBC Radio 5 live (23m), BBC Radio 6 Music (26m) a BBC Radio 1 (26m).
- Byddai estyniad Radio 2 yn fwy na'r rhai a nodwyd uchod a Heart (36.8m), Capital (30m) a Greatest Hits (43m).
- Byddai BBC Radio 3 Unwind yn denu gwrandawiad digidol fwy na dwywaith ei riant ar BBC Radio 3 (8m, sydd yn codi i 13m yn unig os yw AM/FM yn cael ei gynnwys) a dim ond ychydig yn is na Classic FM (23m)

**Ffigur 33: Amcangyfrifon maint estyniad y BBC fel y'u cyflwynwyd gan Radiocentre**

| | Amcangyfrif o ymgynghoriad y BBC | Amcangyfrif Radiocentre |
|---|---|---|
| Radio 1 Dance | 5,193 | 22, 845 |
| Radio 1 Anthems | 3,118 | 28,497 |
| Estyniad Radio 2 | 21,834 | 46,447 |
| Radio 3 Unwind | 1,046 | 18,133 |

*Ffynhonnell: Radiocentre*

Rydyn ni o'r farn bod hyn yn tynnu sylw at yr anawsterau o ran defnyddio arolygon meintiol i amcangyfrif defnydd yn y gofod sain a radio yn benodol. Dyna pam nad ydyn ni'n dibynnu arnyn nhw, gan ganolbwyntio ar fesurau seiliedig ar y farchnad o ran maint ac effaith. Mae Compass Lexecon yn addasu'r data ar gyfer gor-hawlio drwy ddewis y rhai sydd fwyaf tebygol o wrando yn unig. Credwn fod hyn yn annigonol ar gyfer y dasg ac y byddai croeswirio o ran perfformiad y diwydiant wedi tynnu sylw at hyn. Maen nhw'n gwneud hyn ar ffurf graffig ond dim ond i ddangos y newid, ac nid ydyn nhw'n trafod ei oblygiadau.

Nid ydyn ni wedi gweld yr arolwg cyfan ond rydyn ni o'r farn y gallai'r pwyslais a roddir yn y disgrifiadau ar '*Ni fyddai gan y gorsafoedd radio hysbysebion'* fod wedi cyfrannu at y gorddatganiad hwn, gan y byddai wedi gyrru hyn fel pwynt amlwg, er bod cynulleidfaoedd yn gyfarwydd â'r diffyg hysbysebu ar wasanaethau'r BBC. Gwyddom fod ymatebwyr yn siarad yn gadarnhaol am wasanaethau heb hysbysebu mewn ymchwil ond nid yw hyn bob amser yn cael ei adlewyrchu yn eu hymddygiad a thrwy hynny mewn perfformiad gwasanaeth.

Mae Compass Lexecon yn mynd ymlaen i honni y gallai'r amcangyfrifon hyn danamcangyfrif effaith y gorsafoedd oherwydd amlygrwydd DAB, trawshyrwyddo a chynefindra. Nid yw'r un ohonyn nhw'n faterion unigryw i'r BBC.

O ran amlygrwydd DAB, mae Compass Lexecon yn awgrymu y gallai safle'r gorsafoedd arfaethedig ar y rhestr DAB gynyddu'r nifer sy'n gwrando. Rydyn ni'n cytuno bod hyn yn amlwg yn wir gyda chanllawiau rhaglenni electronig teledu ac y gallai, mewn theori, weithredu yn yr un modd ar DAB. Fodd bynnag, gorsafoedd cyntaf y BBC ar DAB yw Asian Network a Radio 1Xtra a'r rhain yw'r rhai lleiaf o lawer o orsafoedd radio rhwydwaith y BBC. Ar ben hynny, rydyn ni o'r farn bod effaith amlygrwydd eisoes yn cael ei chofio yn ein dull gweithredu, gan fod y data gwrando rydyn ni'n ei ddefnyddio eisoes yn cael ei effeithio gan amlygrwydd DAB, h.y. mae ffigurau gwrando BBC Radio 1 yn ystyried ei safle ar y rhestr DAB. Ar ben hynny, wrth i ni edrych ar y berthynas gymharol rhwng rhiant-orsaf a'i hymestyniad, bydd eu safle cymharol ar y rhestr hefyd yn cael ei adlewyrchu yn y data gwrando. DAB. Byddai gwneud addasiadau ychwanegol ar gyfer hyn yn arwain at gyfri ddwywaith. Yn olaf, mae'n bwysig nodi mai dim ond tua 60% o gyfanswm y gwrando digidol sydd gan DAB yn ein model, gyda'r gweddill yn wrando ar y radio drwy IP yn bennaf, sy'n cael ei effeithio'n llai dwys gan amlygrwydd.

O ran trawshyrwyddo gan orsafoedd radio'r BBC, rydyn ni'n cytuno y bydd gweithgarwch hyrwyddo sy'n hybu ymwybyddiaeth yn cynyddu'r nifer sy'n gwrando ar orsaf. Fodd bynnag, yn yr un modd â thrawshyrwyddo (h.y. hunanhysbysebu) ar radio masnachol, mae cost cyfle o ran hyrwyddiadau eraill a chynnwys craidd. Hynny yw, prin yw'r slotiau sydd ar gael ac mae'r galw am drawshyrwyddo sioeau a gwasanaethau eraill angen lle. Nid ydyn ni'n bwriadu cynyddu lefel gyffredinol yr hyrwyddiadau gwasanaeth cyhoeddus ar draws ein llwyfannau teledu/iPlayer a Radio/Sounds. Rydyn ni hefyd o'r farn, drwy amcangyfrif maint y gorsafoedd arfaethedig drwy gyfeirio at y nifer sy'n gwrando ar wasanaethau masnachol a gwasanaethau'r BBC, bod effaith trawshyrwyddo eisoes wedi'i chynnwys yn ein dull gweithredu, h.y. wedi'i sbarduno gan y lefelau presennol o drawshyrwyddo o fewn y BBC a gwasanaethau masnachol.

Fel y dangosir yn glir yn adroddiadau'r BBC ar hyrwyddiadau gwasanaeth cyhoeddus, mae'r rhan fwyaf o hyrwyddiadau ar yr awyr ar orsafoedd radio rhwydwaith y BBC ar eu cyfer eu hunain, e.e. hyrwyddiadau ar gyfer Radio 3 ar Radio 3. Mae'r tabl isod yn nodi hyrwyddiadau gwasanaeth cyhoeddus y BBC a fynegir mewn munudau bob dydd ar deledu/ iPlayer a Radio/Sounds (ac eithrio'r orsaf sy'n cael ei hyrwyddo). Fel y gwelir isod, mae 39 munud y dydd o drawshyrwyddo gorsafoedd radio cerddoriaeth rhwydwaith y BBC ar gyfartaledd ar draws ein sianeli teledu a'n gorsafoedd radio, ac mae 23 munud o'r munudau hynny ar deledu'r BBC neu iPlayer ac 16 munud ar radio'r BBC neu Sounds. Hyd yn oed petaem yn tybio mai dim ond ar BBC One, BBC Two, BBC Three a'r gorsafoedd radio cerddoriaeth rhwydwaith rhwng 6am ac 11pm (neu eu horiau darlledu pa un bynnag yw'r byrraf) mae hynny'n digwydd, mae cyfanswm yr hyrwyddiadau'n cynrychioli llai na 0.5% o gyfanswm yr amser ar yr awyr.

**Ffigur 34: Hyrwyddo gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer gorsafoedd radio cerddoriaeth rhwydwaith y BBC (munudau / diwrnod)**

| | Teledu a BBC iPlayer | Radio a BBC Sounds |
|---|---|---|
| Radio 1 | 4 | 2 |
| 1Xtra | 4 | 2 |
| Radio 2 | 6 | 4 |
| Radio 3 | 2 | 3 |
| BBC 6 Music | 3 | 4 |
| Asian Network | 4 | 2 |
| Cyfanswm | 23 | 16 |

*Ffynhonnell: Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC, 2023/24, t.138*

Yn olaf, o ystyried eu graddfa a'u hapêl fwy penodol, bydd lefelau hyrwyddo'r gorsafoedd arfaethedig yn is na'u 'rhiant' orsafoedd.

O ran bod yn gyfarwydd â'r orsaf, er ein bod yn cytuno y bydd cynefindra â'r gorsafoedd ar ôl iddyn nhw gael eu lansio yn ysgogi pobl i wrando ar yr orsaf, nid ydyn ni'n cytuno y bydd hyn yn arwain at oramcangyfrif y gwrando, ac mae'n gyson â'r ffordd mae radio masnachol yn mynd ati i enwi gorsafoedd.

Mae Compass Lexecon hefyd yn rhoi amcangyfrif i Radiocentre o'r effaith ar wariant refeniw hysbysebu ac yn cyflwyno model econometrig sy'n asesu'r effaith. Mae hwn yn ddull mwy soffistigedig na'r hyn sydd ar gael i'r BBC. Mae'n cynnig effaith refeniw o 10% ar y sector yn sgil lansio'r gwasanaethau newydd. Mae hyn yn seiliedig ar faint afrealistig gorsafoedd a gyfrifwyd gan Compass. Mae cyfanswm ein hamcangyfrif o orsafoedd yn 26% o'r hyn maen nhw'n ei ragweld, a fyddai'n cyfateb i effaith refeniw o tua 2.6% os yw'r newid yn gymesur.

Mae Compass Lexecon yn mynd ymlaen i wneud cyfres o ddatganiadau ar yr effaith ar wasanaethau a buddsoddi. Mae hyn yn seiliedig eto ar faint y gorsafoedd arfaethedig a'r farn na fydd y cynigion yn unigryw yn y farchnad. Rydyn ni'n dadlau nad yw'r cynigion yn unigryw, ac rydyn ni wedi gweld radio masnachol yn parhau i fuddsoddi wrth i'r BBC ddatblygu ei wasanaethau. Mae'r enghreifftiau a ddarperir lle mae gorsafoedd llai yn cael eu heffeithio yn bryder i ni. Fodd bynnag, nid yw Scala (Magic Classical erbyn hyn) yn orsaf annibynnol ond yn rhan o bortffolio Bauer, ac felly mae mewn sefyllfa wahanol i Boom Radio fel endid gwirioneddol annibynnol.

Mae Compass Lexecon hefyd yn nodi y gallai costau gorsafoedd radio masnachol gynyddu oherwydd bod y BBC yn targedu'r un gronfa dalent ar gyfer cyflwynwyr. Maen nhw'n rhoi enghraifft Ken Bruce, gan nodi yr adroddir bod ei gyflog yn Greatest Hits Radio oddeutu £1 miliwn. Fodd bynnag, yn ei flwyddyn olaf (a'r flwyddyn â'r tâl uchaf) yn y BBC, cafodd Ken Bruce rhwng £390,000 a £394,999 o dâl yn 2022/23.[59] Nid yw hyn yn ategu barn Compass Lexecon mai ymddygiad y BBC fyddai'n cael effaith chwyddiannol ar gyflog talent.

[59] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2022/23, BBC, Gorffennaf 2023, t.99

### *7.2.2 Ymatebwyr eraill*

Cyflwynodd Boom Radio sylwadau ar effaith estyniad Radio 2 ar eu busnes. Rydyn ni'n delio â'r rhain yn benodol wrth drafod estyniad Radio 2 isod.

Gofynnodd Advertising UK i ni ystyried effaith mwy o gystadleuaeth yn y farchnad radio masnachol o ganlyniad i ffrydio a datblygiadau'r BBC. Rydyn ni'n trafod cystadleuaeth o fewn radio masnachol yn yr adrannau isod. Nodwn fod y model ffrydio yn effeithio ar bob darparwr radio gan gynnwys y BBC. Bydd angen i gwmnïau, gan gynnwys y BBC, barhau i addasu i hyn dros amser.

Gofynnodd News UK am ddadansoddiad mwy manwl o'r effaith gan y BBC ar lefel gorsaf. Rydyn ni'n cyflwyno dadansoddiad manylach yn ein nodiadau isod.

## 7.3 Cynnydd yn y nifer sy'n gwrando

Y gorsafoedd cerddoriaeth newydd fydd y gorsafoedd DAB cyntaf mae'r BBC wedi'u lansio ers dros 20 mlynedd. Yn y cyfamser, mae radio masnachol wedi gweld twf sylweddol yn nifer ei orsafoedd, yn enwedig ymysg gwasanaethau ymestyn fel y rhai sy'n cael eu cynnig gan y BBC. Rydyn ni wedi defnyddio'r estyniadau radio masnachol hyn fel meincnod yn y farchnad ar gyfer yr hyn y gallai gorsafoedd y BBC ei gyflawni. Ar gyfer pob gorsaf a ddewiswyd, rydyn ni wedi creu basged o estyniadau radio gyda pholisi cerddoriaeth tebyg. Rydyn ni wedi cyfrifo maint yr estyniadau mewn perthynas â maint y rhiant-orsaf. Yna, rydyn ni wedyn pennu'r cyfartaledd ar draws y bwndel hwn i roi amcangyfrif o faint y gorsafoedd DAB+ llawn. Roedd y basgedi hynny fel a ganlyn:[60]

- BBC Radio 1 Dance –Capital Xtra, Capital Reloaded, Capital Dance a Heart Dance.
- Estyniad BBC Radio 1 – Virgin Chilled, Virgin Anthems, Heart 00's, Absolute 00's ac Absolute 10's
- Estyniad BBC Radio 2 – Virgin Anthems, Heart 70s, Absolute 60's, Absolute 70's, Absolute Classic Rock, Magic Soul a Mellow Magic
- BBC Radio 3 Unwind – Virgin Chilled, Smooth Chilled, Capital Chill, Magic Chill a Magic Mellow.

Yn wahanol i'r gorsafoedd eraill, nid oes cymaryddion estyniad uniongyrchol ar gyfer BBC Radio 3 Unwind. Gan hynny, rydyn ni wedi llunio'r amcangyfrif ar sail pum cystadleuydd nad ydyn nhw'n rhannu'r un polisi cerddoriaeth (gan ganolbwyntio mwy ar gerddoriaeth boblogaidd yn hytrach na cherddoriaeth glasurol) ond sy'n defnyddio brandio neu ddisgrifyddion chill/mellow/winddown sy'n cyd-fynd ag ethos ein hestyniad arfaethedig. Ni wnaeth ein hasesiad o'r gwaelod i fyny arwain at orsaf o raddfa gredadwy i'w phrofi. Drwy'r dull basged, byddai'r orsaf ychydig yn llai na Scala (Magic Classical erbyn hyn), sef yr orsaf glasurol ddiweddaraf i'w lansio, bum mlynedd yn ôl, ac sy'n denu llai na 2 filiwn o oriau'r wythnos, sydd, yn ein barn ni, yn gyraeddadwy.

---

[60] Roeddem wedi ystyried methodoleg o'r gwaelod i fyny ar sail poblogrwydd y genre. Fodd bynnag, roedd y dull hwn yn arwain at feintiau llawer llai o orsafoedd nad oedden nhw'n cael eu hystyried fel rhai ymarferol o ystyried cryfder brand y BBC.

Gan mai BBC Radio 2 yw'r orsaf radio cerddoriaeth fwyaf yn ôl oriau yn y DU – fwy na dwywaith maint BBC Radio 1 neu Heart gan Global – rydyn ni o'r farn y gallai ei estyniad berfformio'n wahanol i'r hyn a welir ar hyn o bryd yn y farchnad; mae'n bosibl y bydd maint Radio 2 yn galluogi'r estyniad i ddarparu cyfran fwy o wrandawyr nag y byddai fel arall. I roi cyfrif am y pŵer brand posibl hwn, rydyn ni wedi defnyddio ffactor ar gyfer anelu i fyny.

**Ffigur 35: cymharu'r fasged gynnydd a maint gorsafoedd**

| Estyniad | Maint cyfartalog | Maint mwyaf | Maint lleiaf | Oriau canlyniadol ('000) |
|---|---|---|---|---|
| Pob gorsaf | 11.4% | 47.9% | 1.3% | - |
| R2E | 13.7% | 30.5% | 4.8% | 18,590 |
| R2E - anelu i fyny | 16.4% | 30.5% | 4.8% | 22,308 |
| R1D | 10.8% | 17.2% | 4.2% | 4,946 |
| R1E | 7.6% | 11.3% | 1.6% | 3,480 |
| R3E | 8.8% | 16.4% | 1.3% | 1,161 |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad y BBC*


Yn gyffredinol, mae maint y gynulleidfa'n fwy yn y gorsafoedd hŷn yn eu grŵp, o ganlyniad i adeiladu'r brand dros amser. Mae hyn yn arbennig o wir gyda'r estyniadau Absolute sydd wedi bod yn gweithredu ers sawl blwyddyn. Mae gan orsafoedd mwy newydd fel Heart 00's a Capital Chill lai o chwarteri yn y set ddata RAJAR ac maen nhw'n llawer llai.

## 7.4 Risg y bydd ein cynigion yn gwthio cystadleuwyr o'u lle

I asesu'r risg y bydd y gorsafoedd arfaethedig yn gwthio cystadleuaeth i ffwrdd, rydyn ni wedi datblygu model syml o wrando ar y radio. Mae'r model yn seiliedig ar ddata RAJAR hyd at Ch4 2023[61] ac mae'n canolbwyntio ar wrando digidol yn unig, a thrwy hyn rydyn ni'n golygu gwrando sy'n cael ei ddal gan RAJAR nad yw ar AM/FM. Mae'r model yn gwneud rhagolygon llinol o batrymau gwrando presennol dros y tair blynedd nesaf ar lefel y cwmni (y BBC, Global, Bauer, News UK Broadcasting ac eraill) i ddarparu barn wrthffeithiol ynghylch gwrando heb ystyried gorsafoedd newydd y BBC. Mae'r model wedyn yn neilltuo'r cynnydd a gyfrifwyd sy'n gwrando ar y BBC ac yn dileu'r gwrando o'r grwpiau radio masnachol. Mae rhagor o fanylion am y gwaith modelu ar gael yn atodiad #. Fel sy'n cael ei weld yn ffigur #, rydyn ni'n rhagweld y bydd newid parhaus yn y nifer sy'n gwrando oddi wrth y BBC tuag at radio masnachol.

[61] Rydyn ni wedi penderfynu peidio â diweddaru'r modelu i'r data RAJAR diweddaraf. O ystyried ailsefydlu'r boblogaeth yn set ddata Ch2 2024, rydyn ni'n poeni am ei chydnawsedd â chwarteri RAJAR blaenorol, ac a yw symudiadau a welir yn y data yn deillio o newidiadau gwirioneddol ynteu dim ond ailsefydlu'r boblogaeth. Ar ben hynny, mae Ch4 23 yn rhoi modd i ni ddod â'r modelu i ben ar flwyddyn galendr gyflawn.

**Ffigur 36: newidiadau a ragwelir yng nghyfran y nifer sy'n gwrando'n ddigidol heb gynigion y BBC**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad y BBC*

Yn unol â'n hymgynghoriad, rydyn ni o'r farn bod pedair prif ffynhonnell o wrando ar gyfer y cynigion radio. Fodd bynnag, mae ein dadansoddiad ar orlenwi yn canolbwyntio ar effaith dim ond dau o'r rhain, sef gwasanaethau radio'r BBC a gwasanaethau radio masnachol, fel darparwyr y gwasanaeth tebyg agosaf. Mae hwn yn ddull ceidwadol oherwydd mae'n bosibl y bydd lansio gwasanaethau radio newydd yn effeithio ar ddarparwyr sain eraill, fel ffrydio cerddoriaeth neu YouTube, ond i raddau llai o lawer yn ein barn ni.[62] Mae gwasanaethau sain eraill yn cynnig mwy o hyblygrwydd a phersonoli i gynulleidfaoedd na'r hyn a gynigir gan radio. O ganlyniad i'r gwahaniaethau hyn, rydyn ni wedi gweld cynulleidfaoedd yn symud oddi wrth radio llinol gan wrando ar wasanaethau ar-alw mwy hyblyg. Gan hynny, ni fyddem yn disgwyl i unigolion newid yn ôl o wasanaethau ffrydio i wasanaethau radio, ond mae'n bosibl y bydd gwasanaethau radio newydd yn dal cynulleidfaoedd â radio am fwy o amser.

Er bod ein model llinol yn dangos rhywfaint o dwf mewn gwrando ar radio digidol, tybir bod hyn yn deillio o unigolion yn newid o wrando ar AM/FM. Nid ydyn ni'n modelu twf mewn gwrando digidol yn sgil lansio'r gorsafoedd newydd o unrhyw ffynhonnell.

Yn yr adrannau isod felly, dim ond canibaleiddio gorsaf y BBC a dargyfeirio o orsafoedd radio masnachol y byddwn yn ei ddangos. Oherwydd y tybiaethau sy'n cyfyngu ar wrando dirprwyol o'r ddwy ffynhonnell hyn, mae'r rhain yn goramcangyfrif yr effaith ar ddarparwyr radio masnachol. Y dull rydyn ni'n ei ffafrio ar gyfer asesu'r effaith ar sain yw

[62] Er enghraifft, roedd ein hymchwil MTM yn dangos y byddai 31-39% o'r ymatebwyr yn treulio rhywfaint o oriau o lwyfannau ffrydio ac y byddai 8-11% o'r ymatebwyr yn dod o hyd i amser ychwanegol yn ystod eu diwrnod i wrando.

drwy'r gyfran sy'n gwrando (fel sy'n cael ei ddangos yn ffigur # uchod). Mae hyn yn adlewyrchu ymddygiad gweladwy yn y farchnad. Rydyn ni o'r farn bod natur oddefol gwrando ar sain (h.y. y radio ymlaen yn y cefndir wrth weithio neu wneud tasgau eraill) yn golygu ei fod yn llai addas ar gyfer dadansoddiad safonol sy'n seiliedig ar arolygon.[63] Rydyn ni'n cyflwyno rhai o ganfyddiadau ymchwil MTM isod. Ar gyfer pob gorsaf, fe wnaethom ofyn gan bwy fyddai'r gorsafoedd hynny'n debygol o ddenu gwrandawyr. Does dim modd darllen hwn fel gwyriad gan fod modd dewis mwy nag un ateb. Fodd bynnag, mae'n rhoi syniad a yw ein hasesiad o ddargyfeirio yn briodol. Dangosodd ymchwil MTM y byddai 31-39% o'r ymatebwyr yn treulio rhywfaint o oriau o lwyfannau ffrydio ac y byddai 8-11% o'r ymatebwyr yn dod o hyd i amser ychwanegol yn ystod eu diwrnod i wrando.

Rydyn ni'n nodi bod tystiolaeth yr arolwg a gyflwynwyd gan Radiocentre yn awgrymu cyfradd cannibaleiddio gwasanaethau'r BBC, sef tua [30%]. Byddai hyn yn is na'r amcangyfrifon a gawn o batrymau gwrando a arsylwyd ar lefel grŵp.

Rydyn ni wedi cynnal y dadansoddiad effaith ar y naill a'r llall gan ddefnyddio cyfrannau gwrando ar lefel grŵp a chyfrannau sy'n deillio o batrymau gwrando'r orsaf gymharol. Ar gyfer y dadansoddiad o orsafoedd cymharol, rydyn ni wedi edrych ar y gorsafoedd masnachol hynny sydd fwyaf cydnaws â pholisi cerddoriaeth yr estyniadau arfaethedig yn unol â chyngor ein timau golygyddol a chynulleidfa. Mae'r rhain yn rhoi darlun ar sail genre o effaith y gorsafoedd arfaethedig. Rydyn ni'n trafod pob un o'r rhain yn unigol.

### *7.4.1 BBC Radio 1 Dance*

Roedd yr ymchwil a gynhaliwyd gan MTM yn awgrymu y byddai'r gwrandawyr yn cael eu denu o amrywiaeth eang o orsafoedd. Roedd hyn yn cynnwys prif orsafoedd cyffredinol fel Capital (16%), Heart (14%) a Greatest Hits Radio (9%), yn ogystal â gorsafoedd arbenigol. Ymysg y gynulleidfa ddawns graidd, roedd lefelau'r amnewidiadau gwrando honedig yn uwch ar draws pob gorsaf ac yn fwy dwys mewn brandiau sy'n cael eu harwain gan ddawns.

[63] Arolwg sampl yw RAJAR, ond gyda sampl blynyddol o 100,000 o ymatebwyr. Roedd hefyd yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau fel dyddiaduron a mesuryddion i'w alluogi i gasglu cynrychiolaeth deg o wrando.

**Ffigur 37: o ble bydd yr ymatebwyr yn denu gwrandawyr ar gyfer Radio 1 Dance, gorsafoedd dethol**

| | Pob Ymatebydd | Gwrandawyr BBC Radio 1 | Cystadleuwyr dawns[64] |
|---|---|---|---|
| **Radio'r BBC (net)** | **33%** | **45%** | **41%** |
| BBC Radio 1 | 13% | 23% | 16% |
| BBC Radio 2 | 9% | 11% | 11% |
| **Radio Masnachol (net)** | **64%** | **71%** | **78%** |
| Capital | 16% | 19% | 21% |
| Capital Dance | 10% | 16% | 23% |
| Greatest Hits Radio | 9% | 11% | 12% |
| Heart | 14% | 15% | 18% |
| Heart Dance | 7% | 10% | 15% |
| KISS | 12% | 15% | 17% |
| KISSTORY | 8% | 11% | 14% |
| Magic | 9% | 11% | 13% |
| Smooth | 9% | 11% | 11% |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad meintiol Prawf Budd y Cyhoedd BBC Radio MTM (Gwaith maes a gynhaliwyd rhwng 24 Ionawr a 1 Chwefror 2024) Nodiadau: D5_03 Fe ddywedoch eich bod yn debygol o wrando ar wasanaeth Dawns. O ba orsaf neu gyfryngau eraill fyddech chi'n cymryd yr amser gwrando hwnnw? Nid yw cyfanswm ymatebion sawl bocs yn cyfateb i 100. Roedd hefyd yn cynnwys opsiynau ar gyfer gwasanaethau ffrydio, gwrando newydd a ddim yn gwybod. Pawb sy'n debygol o wrando (n = 1459), yn gwrando ar BBC Radio 1 (n = 632), cystadleuwyr Dawns (n = 543). Soniwyd am ystod ehangach o orsafoedd, a dim ond gorsafoedd sydd â chanmoliaeth uwch na'r cyfartaledd a chystadleuwyr agos y mae'r tabl yn eu dangos.*

Mae cyfran y gwrando yn gyson, gyda radio masnachol y brif ffynhonnell o wrando ar gyfer Radio 1 Dance, ond wedi'i rannu ar draws amrywiaeth eang o orsafoedd anarbenigol. Isod, rydyn ni'n nodi ein hamcangyfrifon o'r effaith ar sail cyfran y gwrando.

Mae'r set gymharol ar gyfer BBC Radio 1 Dance yn cynnwys: BBC Radio 1, KISSTORY, Heart Dance, Capital Dance a Capital XTRA a Capital XTRA Reloaded.

Mae BBC Radio 1 yn cyfrannu'n sylweddol at gerddoriaeth ddawns yn y DU ond nid yw'n gerddoriaeth ddawns 100%. Mae gorsafoedd cymharol Radio 1 Dance yn cynnwys, yn bennaf, gorsafoedd sy'n chwarae'r genre dawns. Er y byddem yn rhagweld canibaleiddio o genres eraill ac, fel y dangosir uchod, gorsafoedd eraill y BBC o bosibl, mae defnyddio maint llawn BBC Radio 1 yn gorddatgan canibaleiddio ar gyfer y dadansoddiad cymharydd. I gyfrif am hyn yn ein dadansoddiad cymharydd, rydyn ni wedi lleihau maint BBC Radio 1 i 25% wrth asesu cyfran y gwrandawyr ar gyfer dargyfeirio. Mae hyn yn

[64] Y cystadleuwyr dawns oedd y rhai a ddywedodd eu bod wedi gwrando ar Heart Dance neu Capital Dance.

adlewyrchu cyfran y sioeau a'r gerddoriaeth Ddawns sy'n cael eu chwarae ar BBC Radio 1.[65]

**Ffigur 38: Cyfan gwrando gorsafoedd genre dawns**

| Gorsaf | Cyfran gwrando | Cyfran y rhai sy'n gwrando wedi ei addasu [TBD] |
|---|---|---|
| BBC Radio 1 | 64.4% | 31.1% |
| KISSTORY | 14.8% | 28.5% |
| Heart Dance | 4.5% | 8.6% |
| Capital Dance | 5.6% | 10.8% |
| Capital XTRA (UK) | 8.7% | 16.8% |
| Capital XTRA Reloaded | 2.1% | 4.1% |

*Ffynhonnell: RAJAR Ch3 2024, Dadansoddiad y BBC*

**Ffigur 39: Dargyfeiriad gwrandawyr ar gyfer Radio 1 Dance**

| | | Holl gyfran y gwrandawyr sain | | Cymaryddion agos | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Maint yr orsaf Oriau '000 | colli/ennill oriau '000 | % cyfanswm yr oriau | colli/ennill oriau '000 | % yr oriau perthnasol |
| BBC | 4,946 | 2,961 | 0.37% | 3,407 | 4.44% |
| Global | | -1,259 | -0.16% | -1,995 | -2.60% |
| Bauer | | -1,173 | -0.15% | -1,412 | -1.84% |
| NewsUK | | -302 | -0.04% | | 0.00% |
| Arall | | -227 | -0.03% | | 0.00% |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad y BBC*

Mae'r dadansoddiad yn ffigur 39 yn dangos effaith Radio 1 Dance ar ddarparwyr masnachol. Mae'r set gyntaf o ganlyniadau'n cyfeirio at ddargyfeirio a chymryd gwrandawyr yn seiliedig ar holl gyfran y gwrandawyr sain; mae'r ail set o ganlyniadau'n cyfeirio at gyfran y cymaryddion agos sydd wedi'u cyfrifo yn ffigur 38. Mae'r dadansoddiad cymharydd hwn yn symud yr effaith oddi wrth y grwpiau gorsafoedd bach ac at Global sydd â chynnig dawns sy'n fwy.

### *7.4.2 BBC Radio 1 Anthems*

Roedd yr ymchwil a gynhaliwyd gan MTM yn awgrymu bod gan BBC Radio 1 Anthems apêl eang ac y byddai gwrandawyr yn cael eu denu o amrywiaeth eang o orsafoedd. Roedd hyn yn cynnwys y prif orsafoedd cyffredinol yn ogystal â gorsafoedd arbenigol. Ymysg y gynulleidfa anthemau graidd, roedd lefelau'r amnewidiadau gwrando honedig yn uwch ar draws pob gorsaf ac yn fwy dwys ymysg brandiau allweddol.

[65] Rydyn ni'n amcangyfrif bod 22% o'r allbwn sy'n seiliedig ar raglenni ar BBC Radio 1 yn ddawns wedi'i amserlennu'n bennaf y tu allan i oriau'r dydd. O ran allbwn yn ystod y dydd, mae 20% i 25% yn ddawns.

**Ffigur 40: o ble bydd yr ymatebwyr yn denu gwrandawyr ar gyfer BBC Radio 1 Anthems, gorsafoedd dethol**

| | Pob Ymatebydd | Gwrandawyr BBC Radio 1 | Gwrandawyr cystadleuwyr[66] |
|---|---|---|---|
| Radio'r BBC (net) | 32% | 45% | 39% |
| BBC Radio 1 | 14% | 25% | 17% |
| BBC Radio 2 | 8% | 11% | 11% |
| Radio Masnachol (net) | 61% | 68% | 75% |
| Absolute Radio | 8% | 9% | 12% |
| Absolute Radio 00s/10s | 5% | 8% | 12% |
| Capital | 15% | 19% | 19% |
| Capital Dance | 6% | 10% | 11% |
| Classic FM | 7% | 8% | 9% |
| Greatest Hits Radio | 8% | 10% | 14% |
| Heart | 16% | 19% | 21% |
| Heart Dance | 5% | 9% | 10% |
| Hits radio | 6% | 9% | 13% |
| KISS | 10% | 13% | 16% |
| KISSTORY | 7% | 9% | 11% |
| Magic | 8% | 9% | 13% |
| Smooth | 9% | 10% | 13% |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad meintiol Prawf Budd y Cyhoedd BBC Radio MTM (Gwaith maes a gynhaliwyd rhwng 24 Ionawr a 1 Chwefror 2024) Nodiadau: D5_02 Fe ddywedoch eich bod yn debygol o wrando ar wasanaeth Anthemau. O ba orsaf neu gyfryngau eraill fyddech chi'n cymryd yr amser gwrando hwnnw? Nid yw cyfanswm ymatebion sawl bocs yn cyfateb i 100. Roedd hefyd yn cynnwys opsiynau ar gyfer gwasanaethau ffrydio, gwrando newydd a ddim yn gwybod. Pawb sy'n debygol o wrando (n = 1718), yn gwrando ar BBC Radio 1 (n = 724), cystadleuwyr BBC Radio 1 Anthems (n = 645). Soniwyd am ystod ehangach o orsafoedd, a dim ond gorsafoedd sydd â chanmoliaeth uwch na'r cyfartaledd a chystadleuwyr agos y mae'r tabl yn eu dangos.*

Yn ogystal â'n hymchwil ein hunain, cyflwynodd News UK dystiolaeth i ni a oedd yn awgrymu y byddai tua 26% o wrandawyr rhwydwaith Virgin Radio 18-34 oed yn gwrando llai ar y gwasanaeth hwnnw o ganlyniad i lansio BBC Radio 1 Anthems. Mae hyn yn codi i 33% ar gyfer y grŵp oedran 35 oed a hŷn.

Mae cyfran y gwrando yn gyson, gyda radio masnachol y brif ffynhonnell o wrando ar gyfer BBC Radio 1 Anthems, ond wedi'i rannu ar draws ystod eang o orsafoedd anarbenigol. Isod, rydyn ni'n nodi ein hamcangyfrifon o'r effaith ar sail y gyfran sy'n gwrando.

Cyflwynodd News UK dystiolaeth i ni a oedd yn awgrymu y byddai tua 26% o wrandawyr rhwydwaith Virgin Radio 18-34 oed yn gwrando llai ar y gwasanaeth hwnnw o ganlyniad i

[66] Cystadleuwyr Anthems oedd y rhai a oedd yn dweud eu bod wedi gwrando ar Hits Radio, Virgin Radio Anthems ac Absolute 00s a 10s.

lansio BBC Radio 1 Anthems. Mae hyn yn codi i 33% ar gyfer y grŵp oedran 35 oed a hŷn.

Mae'r set gymharol ar gyfer BBC Radio 1 Anthems yn cynnwys: BBC Radio 1, Absolute Radio 00s, Absolute Radio 10s, Heart, Heart 00s, KISSTORY, Hits Radio, , Capital Network (UK), KISS, Virgin Radio Chilled a Virgin Radio Anthems.

**Ffigur 41: Cyfran gwrandawyr gorsafoedd genre BBC Radio 1 Anthems**

| Gorsaf | Cyfran gwrando |
|---|---|
| BBC Radio 1 | 26.3% |
| Absolute Radio 00s | 0.4% |
| Absolute Radio 10s | 0.1% |
| Heart | 32.6% |
| Heart 00s | 1.6% |
| KISSTORY | 6.0% |
| Hits Radio | 4.0% |
| Virgin Radio Chilled | 0.6% |
| KISS Network | 11.9% |
| Capital | 15.7% |
| Virgin Radio Anthems | 0.6% |

*Ffynhonnell: RAJAR Ch3 2024, Dadansoddiad y BBC*

**Ffigur 42: Dargyfeiriad gwrandawyr ar gyfer BBC Radio 1 Anthems**

| | | Holl gyfran y gwrandawyr sain | | Cymaryddion agos | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Maint yr orsaf Oriau '000 | colli/ennill oriau '000 | % cyfanswm yr oriau | colli/ennill oriau '000 | % yr oriau perthnasol |
| BBC | 3,480 | 2,083 | 0.26% | 2,563 | 1.32% |
| Global | | -886 | -0.11% | -1,737 | -0.89% |
| Bauer | | -825 | -0.10% | -782 | -0.40% |
| NewsUK | | -213 | -0.03% | -44 | -0.02% |
| Arall | | -160 | -0.02% | | 0.00% |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad y BBC*

Mae'r dadansoddiad yn Ffigur 42 yn dangos effaith BBC Radio 1 Anthems ar ddarparwyr masnachol. Mae'r set gyntaf o ganlyniadau'n cyfeirio at ddargyfeirio a chymryd gwrandawyr yn seiliedig ar holl gyfran y gwrandawyr sain; mae'r ail set o ganlyniadau'n cyfeirio at gyfran y cymaryddion agos sydd wedi'u cyfrifo yn ffigur 41. O dan y senario cymharydd agos, mae canibaleiddiad y BBC yn is.

### *7.4.3 Estyniad BBC Radio 2*

Roedd yr ymchwil a gynhaliwyd gan MTM yn awgrymu bod gan Estyniad Radio 2 apêl eang ac y byddai gwrandawyr yn cael eu denu o amrywiaeth eang o orsafoedd. Roedd hyn yn cynnwys y prif orsafoedd cyffredinol fel, yn ogystal â gorsafoedd arbenigol. Ymysg cynulleidfa graidd Estyniad Radio 2, roedd lefelau'r amnewidiadau gwrando honedig yn uwch ar draws pob gorsaf ac yn fwy dwys ymysg brandiau allweddol.

Mae'r set gymharol ar gyfer Estyniad BBC Radio 2 yn cynnwys: BBC Radio 2, Absolute Radio, Absolute Radio 60s, Absolute Radio 70s, Absolute Classic Rock, Boom Radio,

Gold, Greatest Hits Radio, Heart, Heart 70s, Magic, Magic Soul, Mellow Magic, Smooth Radio, Virgin Radio a Virgin Radio Anthems.

**Ffigur 43: o ble bydd yr ymatebwyr yn denu gwrandawyr ar gyfer Estyniad Radio 2, gorsafoedd dethol**

| | Pob Ymatebydd | Gwrandawyr BBC Radio 2 | Cystadleuwyr Estyniad Radio 2[67] |
|---|---|---|---|
| Radio'r BBC (net) | 32% | 47% | 35% |
| BBC Radio 1 | 10% | 13% | 10% |
| BBC Radio 2 | 12% | 26% | 13% |
| Radio Masnachol (net) | 59% | 59% | 69% |
| Absolute Radio | 7% | 8% | 10% |
| Absolute Radio 60s/70s | 6% | 7% | 11% |
| Boom Radio | 2% | 2% | 3% |
| Capital | 10% | 11% | 12% |
| Classic FM | 7% | 7% | 8% |
| Gold | 6% | 8% | 8% |
| Greatest Hits Radio | 9% | 10% | 15% |
| Heart | 13% | 13% | 16% |
| Heart 70s | 6% | 8% | 11% |
| KISS | 6% | 7% | 8% |
| Magic | 8% | 9% | 9% |
| Smooth | 10% | 10% | 12% |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad meintiol Prawf Budd y Cyhoedd BBC Radio MTM (Gwaith maes a gynhaliwyd rhwng 24 Ionawr a 1 Chwefror 2024) Nodiadau: D5_04 Fe ddywedoch eich bod yn debygol o wrando ar wasanaeth Nostalgia. O ba orsaf neu gyfryngau eraill fyddech chi'n cymryd yr amser gwrando hwnnw? Nid yw cyfanswm ymatebion sawl bocs yn cyfateb i 100. Roedd hefyd yn cynnwys opsiynau ar gyfer gwasanaethau ffrydio, gwrando newydd a ddim yn gwybod. Pawb sy'n debygol o wrando (n = 1895), yn gwrando ar BBC Radio 2 (n = 752), cystadleuwyr Estyniad Radio 2 (n = 895). Soniwyd am ystod ehangach o orsafoedd, a dim ond gorsafoedd sydd â chanmoliaeth uwch na'r cyfartaledd a chystadleuwyr agos y mae'r tabl yn eu dangos.*

Mynegodd Boom Radio eu bod yn cael eu heffeithio'n benodol gan yr Estyniad arfaethedig i Radio 2 oherwydd bod y cynnig yn agos at eu darpariaeth nhw. Yn eu dadansoddiad o'r effaith, fe wnaethon nhw lwfans ychwanegol yn benodol ar gyfer yr effaith ychwanegol hon. Rydyn ni wedi ystyried hyn fel rhan o'n dadansoddiad. Rydyn ni wedi defnyddio pwysoliad ar gyfer agosrwydd ar sail y gorsafoedd hynny sydd, yn ein barn ni, yn gorgyffwrdd fwyaf, yn olygyddol, â'r estyniadau arfaethedig. Fe wnaethon ni ddewis pwysoliad sylfaenol o ddau yn ein cyfrifiadau, gan neilltuo effaith i bob pwrpas fel pe bai'r gorsafoedd yn dyblu eu maint. Mae hyn yn lleihau'r effaith ar orsafoedd eraill.

Roedd Ofcom, mewn ymateb i'n hasesiad perthnasedd, yn cynnig dau ddull pwysoli: un yn seiliedig ar faint cynulleidfa 55 oed a hŷn; ac un arall yn seiliedig ar ddadansoddiad

[67] Cystadleuwyr Estyniad Radio 2 oedd y rhai a ddywedodd eu bod wedi gwrando ar Greatest Hits Radio, Heart 70s ac Absolute 60s a 70s a gorsaf radio Boom

Radio Monitor o gyfran y degawd i ddarparu amrediad pob gorsaf.[68] Ni wnaeth Ofcom ddefnyddio'r dull hwn gyda chynulleidfa bresennol BBC Radio 2, gan gymryd ein cyfran cynulleidfa wedi'i phwysoli fel canibaleiddio (tua 35%) ac ail-bwysoli'r gwrando masnachol.

Rydyn ni'n parhau i ddefnyddio ein dull symlach am ambell reswm. Yn gyntaf, rydyn ni wedi dewis y gorsafoedd yn y grŵp cymharydd ar sail gwybodaeth ein timau golygyddol ac ymateb o'r ymgynghoriad. Mae cadw'r agwedd olygyddol at agosatrwydd yn gyson â hyn. Yn ail, mae ein hagwedd olygyddol at agosatrwydd yn arwain at ganlyniadau tebyg i ddulliau gweithredu Ofcom. Yn drydydd, rydyn ni o'r farn bod rhai problemau technegol gyda data'r Monitor Radio sy'n ychwanegu cymhlethdodau – er enghraifft, dywedodd Boom wrthym ni nad yw Monitor Radio yn casglu gwybodaeth ddigonol am eu rhestr chwarae.

Rydyn ni'n cael y canlyniadau a ganlyn ar sail cyfran y gwrando:

**Ffigur 44: Cyfran gwrandawyr gorsafoedd genre Estyniad BBC Radio 2**

| Gorsaf | Cyfran gwrando | Cyfran gwrando wedi'i phwysoli a ddefnyddir ar gyfer dargyfeirio |
|---|---:|---:|
| BBC Radio 2 | 36.8% | 34.6% |
| Absolute Radio | 3.8% | 3.6% |
| Absolute Radio 60s | 0.1% | 0.3% |
| Absolute Radio 70s | 0.2% | 0.4% |
| Absolute Classic Rock | 1.3% | 1.2% |
| Boom Radio | 1.9% | 3.5% |
| Gold | 3.6% | 6.7% |
| Greatest Hits Radio | 15.6% | 14.6% |
| Heart | 15.4% | 14.5% |
| Heart 70s | 0.7% | 1.3% |
| Magic Network | 6.6% | 6.2% |
| Magic Soul | 0.9% | 0.8% |
| Mellow Magic | 0.6% | 0.6% |
| Smooth Radio | 9.8% | 9.2% |
| Virgin Radio Anthems | 0.3% | 0.3% |
| Virgin Radio | 2.5% | 2.5% |

*Ffynhonnell: RAJAR Ch3 2024, Dadansoddiad y BBC*

Mae cyfran y gwrando yn gyson, gyda radio masnachol y brif ffynhonnell o wrando ar gyfer Estyniad Radio 2, ond wedi'i rannu ar draws amrywiaeth eang o orsafoedd anarbenigol. Isod, rydyn ni'n nodi ein hamcangyfrifon o'r effaith ar sail y gyfran sy'n gwrando.

[68] I gael rhagor o fanylion, gweler Atodiad 1

**Ffigur 45: Dargyfeiriad gwrandawyr ar gyfer Estyniad Radio 2**

| | | Holl gyfran y gwrandawyr sain | | Cymaryddion agos | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Maint yr orsaf Oriau '000 | colli/ennill oriau '000 | % cyfanswm yr oriau | colli/ennill oriau '000 | % yr oriau perthnasol |
| BBC | 22,308 | 13,355 | 1.68% | 14,600 | 3.69% |
| Global | | -5,678 | -0.71% | -7,069 | -1.78% |
| Bauer | | -5,289 | -0.67% | -6,170 | -1.55% |
| NewsUK | | -1,363 | -0.17% | -618 | -0.16% |
| Arall | | -1,025 | -0.13% | -782[69] | -0.20% |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad y BBC*

Mae'r dadansoddiad yn nhabl 43 yn dangos effaith Estyniad Radio 2 ar ddarparwyr masnachol. Mae'r set gyntaf o ganlyniadau'n cyfeirio at ddargyfeirio a chymryd gwrandawyr yn seiliedig ar holl gyfran y gwrandawyr sain; mae'r ail set o ganlyniadau'n cyfeirio at gyfran y cymaryddion agos sydd wedi'u cyfrifo yn ffigur 44. O dan y senario cymharydd agos, mae canibaleiddio gan y BBC yn llai nag yn y gyfran gyffredinol o wrandawyr. Newid yr effaith i Global a Bauer oddi wrth News UK Broadcasting ac eraill. Fodd bynnag, mae'r categori arall yn canolbwyntio ar Boom yn yr asesiad hwn.

### *7.4.4 Radio 3 Unwind*

Roedd yr ymchwil a gynhaliwyd gan MTM yn awgrymu bod gan BBC Radio 3 Unwind apêl eang ac y byddai'r gwrando'n cael ei gymryd o amrywiaeth eang o orsafoedd. Roedd hyn yn cynnwys y prif orsafoedd cyffredinol fel, yn ogystal â gorsafoedd arbenigol. Ymysg cynulleidfa graidd BBC Radio 3 Unwind, roedd lefelau'r amnewidiadau gwrando honedig yn uwch ar draws pob gorsaf ac yn fwy dwys ymysg brandiau allweddol. Roedd y rhan fwyaf o'r brandiau y soniwyd amdanyn nhw yn perthyn i Global Radio.

Mae'r cymharydd a osodwyd ar gyfer Radio 3 Unwind yn cynnwys: Radio 3, Classic FM a Scala.

[69] Sylwch fod y cymharydd agos arall ar gyfer Estyniad Radio 2 yn cyfeirio at Boom Radio yn unig.

**Ffigur 46: o ble bydd yr ymatebwyr yn denu gwrandawyr ar gyfer BBC Radio 3 Unwind, gorsafoedd dethol**

| | Pob Ymatebydd | Gwrandawyr BBC Radio 3 | Gwrandawyr cystadleuwyr[70] |
|---|---|---|---|
| Radio'r BBC (net) | 34% | 52% | 38% |
| BBC Radio 1 | 12% | 19% | 13% |
| BBC Radio 2 | 10% | 17% | 12% |
| BBC Radio 3 | 4% | 11% | 6% |
| BBC Radio 4 | 5% | 11% | 7% |
| BBC Radio 5 Live | 6% | 14% | 9% |
| Radio Masnachol (net) | 62% | 77% | 72% |
| Capital | 10% | 17% | 12% |
| Capital Dance | 5% | 11% | 7% |
| Classic FM | 12% | 18% | 21% |
| Greatest Hits Radio | 8% | 10% | 9% |
| Heart | 13% | 13% | 13% |
| KISS | 8% | 15% | 9% |
| Magic | 10% | 13% | 12% |
| Scala Radio | 3% | 5% | 4% |
| Smooth | 13% | 14% | 16% |
| Smooth Chill | 5% | 8% | 9% |
| Smooth Relax | 6% | 9% | 10% |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad meintiol Prawf Budd y Cyhoedd BBC Radio MTM (Gwaith maes a gynhaliwyd rhwng 24 Ionawr a 1 Chwefror 2024) Nodiadau: D5_01 Fe ddywedoch eich bod yn debygol o wrando ar wasanaeth Ymlacio a Dihangfa. O ba orsaf neu gyfryngau eraill fyddech chi'n cymryd yr amser gwrando hwnnw? Nid yw cyfanswm ymatebion sawl bocs yn cyfateb i 100. Roedd hefyd yn cynnwys opsiynau ar gyfer gwasanaethau ffrydio, gwrando newydd a ddim yn gwybod. Pawb sy'n debygol o wrando (n = 1608), yn gwrando ar radio 3 y BBC (n = 384), cystadleuwyr Ymlacio a Dihangfa (n = 731). Soniwyd am ystod ehangach o orsafoedd, a dim ond gorsafoedd sydd â chanmoliaeth uwch na'r cyfartaledd a chystadleuwyr agos y mae'r tabl yn eu dangos.*

Mae cyfran y gwrando yn gyson, gyda radio masnachol y brif ffynhonnell o wrando ar gyfer BBC Radio 3 Unwind, ond wedi'i rannu ar draws ystod eang o orsafoedd heb fod yn arbenigol. Isod, rydyn ni'n nodi ein hamcangyfrifon o'r effaith.

Mae ffigur # yn dangos dargyfeiriad ar sail y gyfran o'r gwrando. Dydyn ni ddim wedi addasu'r cyfrannau gwrando ar gyfer BBC Radio 3 Unwind. Classic FM sydd â'r gynulleidfa glasurol fwyaf yn y DU o bell ffordd. Yn ein hymchwil MTM, dyma'r orsaf a fwyaf a enwyd hefyd. Fel y nodwyd uchod, brandiau Global oedd y rhan fwyaf o'r brandiau a grybwyllwyd.

[70] Cystadleuwyr BBC Radio 3 Unwind oedd y rhai a ddywedodd eu bod wedi gwrando arnyn nhw Classic FM a Scala Radio.

**Ffigur 47: Cyfran gwrandawyr gorsafoedd genre BBC Radio 3 Unwind**

| Gorsaf | Cyfran gwrando |
|---|---|
| BBC Radio 3 | 23.7% |
| Classic FM | 73.2% |
| Scala Radio | 3.1% |

*Ffynhonnell: RAJAR Ch3 2024, Dadansoddiad y BBC*

**Ffigur 48: Dargyfeiriad gwrandawyr ar gyfer Radio 3 Unwind**

| | | Holl gyfran y gwrandawyr sain | | Cymaryddion agos | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Maint yr orsaf Oriau '000 | colli/ennill oriau '000 | % cyfanswm yr oriau | colli/ennill oriau '000 | % yr oriau perthnasol |
| BBC | 1,161 | 695 | 0.09% | 886 | 1.42% |
| Global | | -296 | -0.04% | -850 | -1.36% |
| Bauer | | -275 | -0.03% | -36 | -0.06% |
| NewsUK | | -71 | -0.01% | - | 0.00% |
| Arall | | -53 | -0.01% | - | 0.00% |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad y BBC*

Mae'r dadansoddiad yn nhabl yn dangos effaith BBC Radio 3 Unwind ar ddarparwyr masnachol. Mae'r set gyntaf o ganlyniadau'n cyfeirio at ddargyfeirio a chymryd gwrandawyr yn seiliedig ar holl gyfran y gwrandawyr sain; mae'r ail set o ganlyniadau'n cyfeirio at gyfran y cymaryddion agos sydd wedi'u cyfrifo yn ffigur 47. O dan y senario cymaryddion agos, ychydig o wrandawyr mae'r BBC yn eu cymryd, ac cyfran fwy sy'n gwrando yn dod o Global. Mae hyn yn cael ei yrru gan faint Classic FM, sef yr orsaf gerddoriaeth glasurol fwyaf.

## 7.5 Effaith statig ar refeniw a phroffidioldeb

Yn yr adran hon rydyn ni'n ystyried effaith statig y newidiadau ar refeniw. Rydyn ni'n cyflwyno rhywfaint o effaith ar broffidioldeb y rheini yr effeithir arnyn nhw.

### *7.5.1 Refeniw a phroffidioldeb radio masnachol*

Cynhyrchodd Radio Masnachol werth £75.5m o refeniw yn 2023. Mae'r refeniw wedi bod yn uwch na £700m dros y tair blynedd diwethaf.[71] Darperir dros hanner y refeniw drwy hysbysebion cenedlaethol, ond mae hefyd cyfraniadau sylweddol o Gynnwys â Brand (21%), Hysbysebion lleol (16%) a hysbysebion digidol (10%). Yn ein sefyllfa wrthffeithiol mae hyn yn codi i £754.6m yn 2026 sy'n cael ei ysgogi gan dwf mewn gwrandawyr.

Yn 2023, cynhyrchodd Global £426m o refeniw o'r radio, ychydig yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. Er bod Global yn adrodd ar refeniw radio, nid yw'n dadgyfuno cost. Mae'n nodi gorswm EBITDA o tua 25% ar gyfer eu busnes cyffredinol.

[71] https://www.radiocentre.org/the-audio-market/ad-revenues-and-forecasts/

Mae cyfrifon diweddaraf ar gyfer News UK broadcasting[72] y cwmni gweithredol ar gyfer gorsafoedd radio News UK, yn dangos twf mewn refeniw ac elw. Yn 2023, cofnodwyd ychydig o dan £81m mewn refeniw ac ychydig llai na £11.5m EBITDA. Roedd hyn yn llai o elw nag yn 2022 ar ôl adrodd ar golled yn 2021, oherwydd effaith COVID ar hysbysebu a chwaraeon. Dros y ddwy flynedd, yr elw cyfartalog oedd 15%.

Nid yw'r holl radio masnachol yn cyhoeddi cyfrifon i'r manylder a geir gan News UK Broadcasting neu Global. Felly, rydyn ni wedi dibynnu ar ffigurau lefel diwydiant Radiocentre. Rydyn ni wedi neilltuo'r refeniw hwn i'r tri phrif grŵp ac 'eraill' ar sail cyfanswm eu amser gwrando fel y'i mesurir gan RAJAR. Mae'r amcangyfrifon yn yr adran hon yn seiliedig ar refeniw'r model.

Radiocentre Rydyn ni'n cyflwyno rhywfaint o ddadansoddiad proffidioldeb dangosol ar sail y data sydd ar gael i ni ar gyfer Global a News UK Broadcasting. Cyflwynir hyn ar lefel grŵp, a dim ar lefel gorsafoedd unigol. Does gennym ni ddim gwybodaeth am broffidioldeb ar lefel gorsafoedd ac, hyd yn oed petai gennym ni, dydyn ni ddim yn credu bod hynny'n ffordd briodol o asesu'r effaith ar broffidioldeb. Er y gall rhai gorsafoedd fod yn cael rhai pecynnau a nawdd penodol, y norm yn y farchnad mewn radio masnachol yw buddsoddi ar draws portffolio o genres a brandiau i werthu hysbysebion drwyddyn nhw.

Mae llai o ofynion rheoleiddio ar radio masnachol dros y degawdau blaenorol wedi galluogi'r diwydiant i gyfuno'n dri phrif grŵp radio masnachol, sy'n cynrychioli ychydig o dan 90% o'r holl wrando masnachol. Ychydig o orsafoedd annibynnol sydd yna, a does dim un ar raddfa fawr. Mae ein hasesiad o'r effaith ar refeniw a phroffidioldeb yn cael ei gynnal ar lefel grŵp i adlewyrchu hyn.

Yr unig eithriad i hyn yn ein dadansoddiad yw Boom Radio, lle rydyn ni wedi cynnal asesiad penodol i'r orsaf. Mae Boom yn orsaf radio annibynnol sy'n canolbwyntio ar gynulleidfaoedd hŷn ac mae'n bosibl y bydd Estyniad Radio 2 yn effeithio arni. Fodd bynnag, dydy model gweithredu Boom ddim yn nodweddiadol o'r farchnad. Does gan Boom ddim amrywiaeth ar draws gwahanol genres ac yn hytrach mae gan yr orsaf gynnig penodol, sy'n hysbysebu pethau'n benodol sy'n seiliedig ar ddemograffeg hŷn. Rydyn ni'n deall bod hysbysebwyr, yn gyffredinol, yn ystyried cynulleidfaoedd iau fel rhai mwy gwerthfawr.

### *7.5.2 Proffidioldeb statig ac effaith ar refeniw*

Mae'r tablau isod yn nodi'r effeithiau y pedair gorsaf arfaethedig ar refeniw. Yn unigol, rydyn ni'n disgwyl y bydd Radio 1 Dance a gorsaf newydd Radio 1 a BBC Radio 3 Unwind yn cael effaith ymylol ar refeniw neu elw Radio Masnachol. Dydyn nhw ddim yn debygol o effeithio ar gymhellion i fuddsoddi. Gyda'i gilydd, dydy'r tair gorsaf hyn hefyd ddim yn debygol o gael effaith sylweddol, gyda llai na 2% o refeniw'r diwydiant pan fyddan nhw'n

[72] Dyma'r cwmni a restrir fel talkSPORT Limited ar Dŷ'r Cwmnïau, a'i brif weithgaredd yw "darlledu radio masnachol cenedlaethol trwy AM, DAB/DAB+ a dyfeisiau sy'n galluogi'r rhyngrwyd", gan gynnwys talkSPORT, talkSPORT2, TalkRadio, Times Radio, Virgin Radio, Virgin Anthems, Virgin Wedi oeri, Virgin Groove. Er mwyn osgoi dryswch rydym yn cyfeirio at News Broadcasting drwyddi draw, a ddisgrifir fel "yr enw cyfunol a roddir i weithrediadau gorsafoedd radio'r DU".

gwbl weithredol. Gan gymryd cysylltiad un i un rhwng refeniw a maint yr elw, gallai hyn leihau maint elw Global 7.3% ond effaith fach iawn fyddai'n ei chael ar News UK, gyda gostyngiad o lai na 1% ym maint yr elw.

Mae effaith bosibl estyniad Radio 2 ar refeniw, sef 2.6%, yn uwch na'r gorsafoedd eraill gyda'i gilydd. Gallai hyn leihau maint yr elw 11.4% i Global a gostyngiad o 8.3% ym maint yr elw i News UK yn seiliedig ar ein dadansoddiad o gystadleuwyr agos.

Gyda'i gilydd, mae'n bosibl y gall y gorsafoedd gael effaith o 3.8% ar refeniw. Gallai hyn leihau maint yr elw 19.0% i Global a gostyngiad o 8.9% ym maint yr elw i News UK yn seiliedig ar ein dadansoddiad o gystadleuwyr agos.

**Ffigur 49: Effaith Radio 1 Dance ar refeniw cystadleuwyr**

| | Holl gyfran y gwrandawyr sain | | Cymaryddion agos | |
|---|---|---|---|---|
| | Refeniw (£'000) | Refeniw (%) | Refeniw (£'000) | Refeniw (%) |
| Global | -£1,709 | -0.5% | -£2,707 | -0.8% |
| Bauer | -£1,591 | -0.5% | -£1,916 | -0.6% |
| NewsUK | -£410 | -0.6% | | 0.0% |
| Arall | -£308 | -0.6% | | 0.0% |
| Cyfanswm | -£4,018 (0.5%) | -0.5% | -£4,623 (0.6%) | -0.6% |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad y BBC*

**Ffigur 50: Effaith BBC Radio 1 Anthems ar refeniw cystadleuwyr**

| | Holl gyfran y gwrandawyr sain | | Cymaryddion agos | |
|---|---|---|---|---|
| | Refeniw (£'000) | Refeniw (%) | Refeniw (£'000) | Refeniw (%) |
| Global | -£1,202 | -0.4% | -£2,357 | -0.7% |
| Bauer | -£1,119 | -0.4% | -£1,061 | -0.3% |
| NewsUK | -£289 | -0.4% | -£60 | -0.1% |
| Arall | -£217 | -0.4% | | 0.0% |
| Cyfanswm | -£2,827 (0.4%) | -0.4% | -£3,478 (0.5%) | -0.4% |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad y BBC*

**Ffigur 51: Effaith Estyniad Radio 2 ar refeniw cystadleuwyr**

| | Holl gyfran y gwrandawyr sain | | Cymaryddion agos | |
|---|---|---|---|---|
| | Refeniw (£'000) | Refeniw (%) | Refeniw (£'000) | Refeniw (%) |
| Global | -£7,706 | -2.3% | -£9,593 | -2.9% |
| Bauer | -£7,176 | -2.4% | -£8,372 | -2.8% |
| NewsUK | -£1,850 | -2.8% | -£838 | -1.2% |
| Arall | -£1,391 | -2.7% | -£1,061 | -2.0% |
| Cyfanswm | -£18,123 | -2.4% | -£19,864 | -2.6% |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad y BBC*

**Ffigur 52: Effaith BBC Radio 3 Unwind ar refeniw cystadleuwyr**

| | Holl gyfran y gwrandawyr sain | | Cymaryddion agos | |
|---|---|---|---|---|
| | Refeniw (£'000) | Refeniw (%) | Refeniw (£'000) | Refeniw (%) |
| Global | -£401 | -0.1% | -£1,153 | -0.3% |
| Bauer | -£374 | -0.1% | -£49 | 0.0% |
| NewsUK | -£96 | -0.1% | £- | 0.0% |
| Arall | -£72 | -0.1% | £- | 0.0% |
| Cyfanswm | -£944 (0.1%) | -0.1% | -£1,203 (0.2%) | -0.2% |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad y BBC*

**Ffigur 53: Effaith y pedwar cynnig ar refeniw cystadleuwyr**

| | Holl gyfran y gwrandawyr sain | | Cymaryddion agos | |
|---|---|---|---|---|
| | Refeniw (£'000) | Refeniw (%) | Refeniw (£'000) | Refeniw (%) |
| Global | -£11,017 | -3.3% | -£15,693 | -4.7% |
| Bauer | -£10,261 | -3.4% | -£11,346 | -3.8% |
| NewsUK | -£2,645 | -3.9% | -£895 | -1.3% |
| Arall | -£1,989 | -3.8% | -£1,061 | -2.0% |
| Cyfanswm | -£25,911 | -3.4% | -28,994 | -3.8% |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad y BBC*

## 7.6 Effeithiau deinamig

Yn yr adran hon rydyn ni'n ystyried effaith ddeinamig bosibl y newid. Fel rhan o'r broses gystadleuol arferol, rydyn ni'n disgwyl i wasanaethau cystadleuwyr ymateb i newidiadau a wneir gan y BBC i liniaru effaith y newid ar eu busnes. Gall hyn arwain at fuddsoddiad ychwanegol neu gwtogi costau, yn dibynnu ar fanylion y busnes a'r sector. Mae mesur effeithiau deinamig yn ansicr iawn a dydyn ni ddim yn ceisio gwneud hynny yn yr adran hon. Yn hytrach, rydyn ni'n nodi'r hyn rydyn ni'n ei ystyried yn ymatebion credadwy gan weithredwyr masnachol.

### *7.6.1 Lle i ymateb*

Un o'r ffactorau allweddol o ran a yw ymateb deinamig yn bosibl yw amser: a oes gan weithredwyr masnachol ddigon o amser i addasu i'r newid, ynteu a fydd y newid yn digwydd yn rhy gyflym?

Rydyn ni o'r farn bod digon o amser i radio masnachol ymateb ac, yn wir, mae'n bosibl fod y gorsafoedd wedi gwneud hynny'n barod. O ran amseru, mae'r cynigion wedi bod yn hysbys tua naw mis ers cyhoeddi'r adroddiad hwn a bydd gan Ofcom chwe mis arall i ddod i'w benderfyniad. Bydd cyfnod arall hefyd ar gyfer lansio'r gorsafoedd ar DAB oherwydd dydy'r BBC ddim yn gallu buddsoddi yn hyn nes bydd Ofcom wedi cymeradwyo Prawf Budd y Cyhoedd. Gallai hyn olygu o leiaf 18 mis rhwng clywed am y cynigion a lansio unrhyw wasanaeth. Hefyd, bydd cyfnod pellach o amser nes i gynulleidfaoedd ddod yn ymwybodol o'r gwasanaeth ar DAB.

Mae ymwybyddiaeth cynulleidfaoedd yn debygol o fod yn uwch ar gyfer Radio 1 Dance gan ei fod yn ffrwd sydd ar BBC Sounds yn barod. Bwriedir lansio BBC Radio 1 Anthems a BBC Radio 3 Unwind fel ffrydiau ar BBC Sounds cyn unrhyw gymeradwyaeth DAB. Fodd bynnag, dydy Radio 1 Dance ddim yn cyfrif am gyfran sylweddol o'r gwrando ar BBC Sounds ar hyn o bryd, a dydyn ni ddim yn rhagweld y bydd y ffrydiau newydd yn newid hynny. Felly, rydyn ni o'r farn nad yw presenoldeb ffrwd Sounds yn effeithio'n sylfaenol ar ymwybyddiaeth cynulleidfaoedd cyn lansio ar DAB. Ni chafodd y BBC ganiatâd i lansio estyniad Radio 2 ar BBC Sounds cyn y gwasanaeth DAB llawn.

Yn yr amserlen honno, bydd gan radio masnachol ddigon o awdurdod i ymateb i'r cynigion, drwy newid ac arloesi ei amserlen a'i weithrediadau ei hun. Er enghraifft, rydyn ni wedi gweld ymateb o'r blaen pan, yn fuan ar ôl i Radio 1 Dance ddod yn ffrwd amser llawn ar BBC Sounds, lansiodd Global Capital Dance fel gorsaf radio ddigidol.

### *7.6.2 Y gallu i addasu*

Mae Radio Masnachol yn ddeinamig ac yn gyflym i newid gwasanaethau pan nad ydyn nhw'n perfformio a/neu pan fyddan nhw'n lansio gwasanaethau newydd. Capital Dance yw un yn unig o'r estyniadau a'r gwasanaethau newydd mae radio masnachol wedi eu lansio dros y blynyddoedd diwethaf. Dyma enghreifftiau:

- 2019: Heart 70s, Heart 90's, Heart Dance a Capital XTRA Reloaded
- 2020: Capital Dance
- 2022: Heart 00s, Virgin Radio 80s a mwy
- 2023: Capital Chill

Mae radio masnachol yn addasu ei fodel busnes mewn ffyrdd eraill hefyd. Ym mis Gorffennaf 2024, lansiodd Bauer Rayo gan ddod â holl orsafoedd radio'r DU at ei gilydd am y tro cyntaf mewn un ap.[73] Mae Rayo yn adeiladu ar fodel radio tanysgrifio Bauer, ac am £3.99 y mis gall defnyddwyr gael gafael ar ffrydiau gorsafoedd heb hysbysebion a mynediad at gannoedd o ffrydiau cerddoriaeth sy'n cynnig profiad tebyg i radio drwy Rayo Premium. Yn yr un modd, yn ei ddatganiad diweddaraf i'r wasg ar berfformiad, nododd News UK gryfder y gweithredu o ran darparu IP a'u bod yn arweinydd yn y farchnad mewn meysydd fel darlledu drwy YouTube[74].

Mae gan frandiau a chynnwys sefydledig hyblygrwydd amlwg hefyd i addasu i newidiadau mewn arferion ac ymddygiad. Er enghraifft, adroddwyd bod Bauer yn ail-frandio Scala a Magic Chilled i wneud defnydd gwell o'r brandiau. Bydd Scala yn dod yn Magic Classical a bydd Magic Chilled yn symud i'r brand Hits.[75]

Yn gyffredinol, mae gallu radio masnachol i weithredu'n gyflymach na'r BBC a'i allu i gael mantais drwy fod o flaen y BBC gyda'i ddatblygiadau, yn golygu ei bod yn debygol y bydd rhan sylweddol o unrhyw effaith yn cael ei lliniaru.

---

[73] Gweler: https://www.bauermedia.co.uk/news/say-hello-to-rayo-2/
[74] Fel y nodwyd yn natganiad i'r wasg 1 Awst 2024 https:///www.news.co.uk/latest-news/another-record-breaking-round-rajer-results-for-new-broadcasting/
[75] Gweler: https://radiotoday.co.uk/2024/07/bauer-plans-rebrands-for-scala-radio-and-magic-chilled/

Ar 12 Medi 2024, gan dynnu sylw at yr ystwythder hwn, lansiodd Global 12 gorsaf radio newydd, a ddisgrifiodd fel y lansiad mwyaf erioed yn hanes radio'r DU.[76] Roedd dwy o'r rhain yn orsafoedd cenedlaethol – Capital Anthems a Smooth 80s. Mae'r 10 arall ar gael ar DAB yn Llundain. Mae'r holl orsafoedd ar gael yn genedlaethol drwy ap ar-lein Global Player. Dyma'r gorsafoedd newydd:

- Capital Anthems
- Classic FM Calm
- Classic FM Movies
- Heart 10s
- Heart Love
- Heart Musicals
- Radio X Chilled
- Radio X 90s
- Radio X 00s
- Smooth 70s
- Smooth 80s
- Smooth Soul

Ar yr un diwrnod, fe wnaeth Global ailenwi Gold yn Gold Radio, a lansio gwefan, logo, jinglau ac is-bennawd newydd ('All Time Classics' yn lle 'Greatest Hits of All Time').[77]

Bedwar diwrnod yn ddiweddarach ar 16 Medi 2024, lansiodd Bauer Greatest Hits Radio 60s, sydd ar gael yn genedlaethol ar DAB a'i ap Rayo.

Nid ydyn ni wedi modelu effaith y lansiadau hyn, ond maen nhw'n debygol o fod yn arwyddocaol gan eu bod ar gael yn eang, wedi cael eu hyrwyddo'n sylweddol ar y diwrnod lansio yn ogystal â'u trawshyrwyddo ar eu rhiant-rwydweithiau. Fel y disgrifir mewn man arall yn y papur hwn, mae strategaeth estyniadau radio masnachol wedi llwyddo i ddenu a chadw cynulleidfaoedd.

Rydyn ni o'r farn bod y lansiadau diweddaraf hyn yn cael eu sbarduno'n bennaf gan gystadleuaeth gynyddol o fewn radio masnachol h.y. Global yn ymateb i lwyddiannau diweddar Bauer. Mae rhai o'r lansiadau o fewn y genres y mae'r BBC yn eu targedu gyda'r cynigion hyn h.y. Classic FM Calm a BBC Radio 3 Unwind arfaethedig. Fodd bynnag, dydyn ni ddim yn credu bod hyn yn ddigon o dystiolaeth ei fod yn ymateb uniongyrchol i gynnig y BBC. Bydd nawr yn anoddach i'r BBC ddenu cynulleidfaoedd yn y genres hyn sy'n gorgyffwrdd, wrth i lefel y ddarpariaeth gynyddu. Mae radio masnachol wedi cryfhau ei sefyllfa o'i gymharu â'r BBC.

### *7.6.3 Boom Radio*

Mae Boom Radio yn eithriad i rai o'r dadleuon uchod ac, yn wahanol i'r grwpiau radio, mae ganddynt lai o lwybrau i liniaru'r effaith. Fodd bynnag, mae angen ystyried hyn yng nghyd-destun cynaliadwyedd cyffredinol model busnes Boom Radio o ystyried ei fod yn annodweddiadol i'r diwydiant. Mae dadreoleiddio wedi gweld cydgrynhoi sylweddol yn y

[76] 12 brand new stations go live today!, Global, 12 Medi 2024 url: https://global.com/global-launches-12-brand-new-radio-stations/
[77] Gold gets new branding, Radio Today, 12 Medi 2024

diwydiant. Mae Global a Bauer wedi prynu a lansio nifer o orsafoedd cenedlaethol, yn ogystal â phrynu amrywiaeth o orsafoedd lleol a'u hailfrandio'n rhwydweithiau â brand cenedlaethol. Mae'r dull hwn yn dod â manteision sylweddol ar raddfa o ran darpariaeth radio o ran costau cyflenwi'r gwasanaeth yn ogystal â chynhyrchu refeniw trwy hysbysebu ar raddfa fawr.

Yn ei ymateb i ymgynghoriad y BBC, mae Boom Radio wedi dweud mai eu huchelgais tymor canolig yw cyrraedd miliwn o wrandawyr gan diwnio i mewn am 10 awr miliwn yr wythnos erbyn diwedd 2025. Dywedodd Boom Radio hefyd fod ei ddadansoddiad yn dangos y byddai'n dioddef 39 % y gynulleidfa a gollwyd o ganlyniad uniongyrchol i lansio estyniad Radio 2, a'i fod yn rhagweld gostyngiad o 51% mewn refeniw o fewn tair blynedd o gymharu â'i gynlluniau presennol. Dywedodd Boom Radio y byddai ei wasanaethau deilliedig - Boom Light a Boom Rock - yn dod yn anghynaladwy yn gyflym ac yn cael eu gorfodi i gau. Mae'n nodi y bydd hyn yn dinistrio gwerth Boom Radio fel busnes.

Rhannodd Boom Radio rai o fanylion y dadansoddiad hwn â'r BBC yn gyfrinachol. Rydym wedi asesu'r dadansoddiad hwn. Er ein bod yn anghytuno â'i hamcangyfrifon o faint yr estyniad arfaethedig i Radio 2 ac felly maint yr effaith, mae ein hailfodelu o'r dadansoddiad hwn yn cadarnhau y byddai cystadleuaeth sylweddol – fel y byddai'n cael ei chreu gan lansiad yr estyniad arfaethedig i Radio 2 – yn amharu'n sylweddol ar hynny. Perfformiad ariannol Boom Radio.

Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod mae angen twf parhaus a sylweddol ar uchelgeisiau Boom Radio. Ym mis Medi 2024, cyrhaeddiad wythnosol Boom Radio oedd 701,000 a'i oriau gwrando wythnosol cyfartalog oedd 7.7 miliwn; roedd hyn yn cynrychioli twf o flwyddyn i flwyddyn o 6% a 0.1% yn y drefn honno. [78]

Rydym hefyd yn nodi bod y ddau fis diwethaf wedi gweld cynnydd yn nwyster cystadleuaeth fasnachol yn y rhan hon o'r farchnad. Ym mis Medi 2024, lansiodd Bauer Greatest Hits Radio 60s, gorsaf DAB genedlaethol a arweinir gan ystod o dalentau blaenllaw gan gynnwys Joanna Lumley, Paul Gambaccini, Ken Bruce a Simon Mayo. Tua'r un pryd, ail-lansiodd Global Gold Radio a'r Smooth 70s a lansiwyd, sydd ar gael yn Llundain ar DAB ac yn genedlaethol ar siaradwyr craff a Global Player. Rydym o'r farn bod y lansiadau hyn gan Bauer and Global yn golygu bod yr amgylchedd cystadleuol ar gyfer Boom Radio wedi dwysáu'n sylweddol waeth beth fo'r estyniad arfaethedig i Radio 2. Os bydd y gwasanaethau newydd hyn yn llwyddiannus, byddant yn ei gwneud yn anoddach i Boom ddenu'r cynulleidfaoedd sydd eu hangen arno i gefnogi'r gwasanaeth.

## 7.7 Effeithiau posib ar y gadwyn gyflenwi fertigol

Yn yr adran hon rydyn ni'n ystyried a oes effeithiau tebygol yn y gadwyn gyflenwi yn dilyn ehangu ein gorsafoedd radio cerddoriaeth. Yma rydyn ni'n ystyried yr effeithiau ar gwmnïau cynhyrchu, talent a deiliaid hawliau. Yn gyffredinol, rydyn ni'n credu bod y gorsafoedd yn cael effaith gadarnhaol fach ar y gadwyn gyflenwi. Mae hyn ychydig yn uchel ar BBC Radio 1 Anthems oherwydd ei gynigion o ran talent.

[78] RAJAR Ch3 2023 and Ch3 2024

Mae lansio'r gorsafoedd yn arwain at wariant comisiynu ychwanegol bach a chostau caffael hawliau cysylltiedig. Bydd hyn yn cael effaith fach ar gymhellion buddsoddi cynhyrchwyr gan ei fod yn cynnig cyfleoedd ychwanegol na fyddai fel arall wedi bod ar gael ar wasanaeth darlledu llawn.

Mae BBC Radio 1 Anthems yn darparu cyfleoedd ychwanegol ar gyfer talent cyflwyno newydd. Bydd hyn yn creu rhywfaint o gyfleoedd ar gyfer cenhedlaeth newydd o gyflwynwyr. Bydd hyn yn cael effaith tymor hwy ar y BBC a'r diwydiant ehangach gan ei fod yn gweithredu fel sylfaen hyfforddi ychwanegol ar gyfer talent newydd. Bydd hyn yn cryfhau'r llif o dalent yn y diwydiant.

Ar gyfer cynnwys sydd eisoes wedi cael ei gomisiynu, mae ehangu i DAB yn arwain at gynulleidfa ehangach i raglenni. Mae hyn yn debygol o godi proffil cynhyrchwyr a thalent ar yr awyr sy'n gysylltiedig â'r cynnwys.

## 7.8 Casgliadau ynghylch effaith bosib y BBC ar gystadleuaeth deg ac effeithiol

### *7.8.1 Radio 1 Dance, BBC Radio 1 Anthems, a BBC Radio 3 Unwind*

Mae'r dadansoddiad uchod yn dangos bod y cynigion ar gyfer Radio 1 Dance, BBC Radio 1 Anthems a BBC Radio 3 Unwind, yn unigol ac ar y cyd, yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Er eu bod yn debygol o ddenu gwrandawyr o weithredwyr masnachol, mae maint tebygol y gorsafoedd yn awgrymu mai dim ond tua 1.2% o ostyngiad y bydd yn ei gael mewn refeniw ar draws y diwydiant. Ar sail statig, dydy gostyngiad o'r fath mewn refeniw ddim yn debygol o effeithio ar gymhellion buddsoddi. Mae ystyried yr effeithiau deinamig yn lleihau'r effaith hon ymhellach. Mae'r gadwyn gyflenwi yn debygol o elwa o'r cynigion hyn.

### *7.8.2 Estyniad Radio 2*

Mae ein dadansoddiad uchod yn dangos y gall estyniad Radio 2 gael effaith ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Mae ei effaith debygol ar refeniw radio masnachol yn fwy na dwywaith effaith y tair gorsaf arall gyda'i gilydd, sef 2.6%.

Yn yr un modd, mae gan ei effaith ar broffidioldeb y potensial i effeithio ar gymhellion buddsoddi ar sail asesiad statig. Bydd effeithiau deinamig yn cymedroli hyn i raddau, ond dydy hi ddim yn bosibl dweud a fydd yn cael ei liniaru'n llawn.

Ar gyfer Boom Radio yn benodol, sy'n annodweddiadol i'r diwydiant, mae'r newid yn debygol o ychwanegu rhagor o bwysau o ystyried y newidiadau diweddar a roddwyd ar waith gan Global a Bauer sy'n targedu demograffeg debyg. Mae'r pwysau hynny gan radio masnachol yn debygol o gael effaith niweidiol cyn lansio unrhyw estyniad Radio 2.

Gyda'i gilydd, felly, mae'r gorsafoedd yn debygol o gael effaith ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, ond mae hyn yn cael ei sbarduno bron yn gyfan gwbl gan effaith arfaethedig estyniad Radio 2.

# 8. Prawf Budd y Cyhoedd

## 8.1 Y Cefndir

Mae'r Siarter a'r Cytundeb yn gosod nifer o rwymedigaethau ar y BBC pan fyddai'n dymuno gwneud newidiadau i'w wasanaethau cyhoeddus yn y DU. Yn benodol, mae'r Cytundeb[79] yn mynnu mai dim ond ar yr amodau canlynol caiff y BBC wneud newid sylfaenol i'w wasanaethau cyhoeddus yn y DU:

- Mae'r BBC wedi cynnal Prawf Budd y Cyhoedd ar y newid arfaethedig;
- Mae'r BBC wedi penderfynu bod Prawf Budd y Cyhoedd wedi'i fodloni;
- Mae Ofcom yn penderfynu y caiff y BBC gyflawni'r newid arfaethedig.

Mae newid sylfaenol wedi'i ddiffinio i gynnwys y canlynol:

(a) cyflawni unrhyw weithgaredd fel Gwasanaeth Cyhoeddus newydd yn y DU;

(b) unrhyw newid i Wasanaeth Cyhoeddus yn y DU a allai gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

Mae'r Cytundeb[80] hefyd yn esbonio beth sy'n rhan o Brawf Budd y Cyhoedd. Yn benodol, rhaid i'r BBC fod yn fodlon:

- Bod y newid arfaethedig i wasanaethau cyhoeddus yn y DU yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni'r Genhadaeth ac o hyrwyddo un neu fwy o Ddibenion Cyhoeddus y BBC;
- Ei fod wedi cymryd camau rhesymol i wneud yn siŵr na chaiff y newid arfaethedig unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol lle nad yw hynny'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus yn effeithiol;
- Bod gwerth cyhoeddus y newid arfaethedig yn cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

Ar ben hynny, mae'r Cytundeb[81] hefyd yn mynnu bod y BBC, wrth gynnal Prawf Budd y Cyhoedd, yn ystyried hyd a lled a thebygolrwydd unrhyw werth cyhoeddus o'i gymharu â hyd a lled a thebygolrwydd unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Ceir cydnabyddiaeth y bydd y gwaith o benderfynu yn ei gwneud hi'n ofynnol cynnal asesiadau ansoddol, ac efallai na fydd hi'n bosibl cymharu'r ffactorau sy'n ymwneud â gwerth i'r cyhoedd yn uniongyrchol â'r ffactorau sy'n ymwneud â chystadleuaeth deg ac effeithiol.

Rydyn ni wedi cynnal Prawf Budd y Cyhoedd ynghylch ein cynigion i lansio pedair gorsaf gerddoriaeth newydd i sicrhau mwy o werth i gynulleidfaoedd, gan gynnwys cynulleidfaoedd nad ydyn nhw'n cael eu gwasanaethu'n ddigonol, cefnogi creadigrwydd cynhenid a chefnogi'r BBC i symud i ddyfodol digidol yn gyntaf. Isod, rydyn ni wedi nodi

---

[79] Cymal 7, Cytundeb y BBC, Rhagfyr 2016.
[80] Cymal 8(1), Cytundeb y BBC, Rhagfyr 2016.
[81] Cymal 8(2), Cytundeb y BBC, Rhagfyr 2016.

canfyddiadau ein Prawf Budd y Cyhoedd yng ngoleuni'r broses ymgynghori a'r ymchwil a'r dadansoddiad rydyn ni wedi'u cynnal.

## 8.2 A yw'r newid arfaethedig yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni'r Genhadaeth ac o hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus?

Mae'r BBC yn fodlon y bydd ein cynigion yn sicrhau gwerth uchel i'r cyhoedd ac yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni'r Genhadaeth ac o hyrwyddo nifer o'r Dibenion Cyhoeddus. Mae ein dadansoddiad, sy'n seiliedig ar ein hymchwil cynulleidfa, yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r model defnydd yn dangos y canlynol:

### *8.2.1 BBC Radio 1 Dance*

Fel y nodir yn adran 6, mae ein dadansoddiad – sy'n seiliedig ar ein hymchwil cynulleidfa a gynhaliwyd gan MTM, ymatebion i'n hymgynghoriad, a gwaith modelu o'r defnydd – yn dangos y bydd gwerth cyhoeddus ein cynigion yn amlwg yn uchel – gwerth personol, gwerth cymdeithasol a gwerth i ddiwydiant. Yn benodol, bydd yr orsaf newydd, Radio 1 Dance, yn galluogi'r BBC i gyflawni ein Cenhadaeth ac i hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus yn well drwy wneud y canlynol:

- Gwella gwerth i bob cynulleidfa, gan gynnwys cynulleidfaoedd iau (16-34 oed) a C2DE, sy'n cael llai o werth gan y BBC ar hyn o bryd, yn ogystal â diwallu hwyliau ac anghenion cynulleidfaoedd modern yn well.
- Cynnwys rhaglenni cerddoriaeth o ansawdd uchel sy'n cael eu harwain gan dalent, sy'n chwarae amrywiaeth ehangach o gerddoriaeth na'r hyn sydd ar y farchnad, gan gyflwyno cynulleidfaoedd i amrywiaeth ehangach o gerddoriaeth o amrywiaeth eang o genres.
- Tynnu sylw cynulleidfaoedd at gerddoriaeth newydd a chefnogi datblygiad artistiaid presennol a newydd gyda rhestr chwarae lle bydd o leiaf traean o'r traciau yn gerddoriaeth newydd.
- Cynnwys cerddoriaeth ddawns orau Prydain gydag ymrwymiad i o leiaf 45% o'r traciau sy'n cael eu chwarae fod gan artistiaid o Brydain.
- Tynnu sylw at y gerddoriaeth fyw orau i gynulleidfaoedd gan roi sylw i ddigwyddiadau byw ar draws y byd fel Dance Weekend: Ibiza Radio 1 a digwyddiadau trydydd parti eraill. Bydd BBC Introducing hefyd yn parhau i roi sylw i artistiaid newydd, gan gynnwys artistiaid dawns, gan ddod â mwy o gerddoriaeth fyw wedi'i recordio'n arbennig i gynulleidfaoedd yr orsaf.
- Cefnogi'r broses o drawsnewid radio'r DU yn ddigidol drwy lansio ar DAB+ ac annog cynulleidfaoedd i wrando drwy BBC Sounds ar gyfer swyddogaethau gwrando byw ychwanegol (e.e. rhewi a mynd yn ôl, rhestr o'r traciau).

Felly, mae'r BBC yn fodlon y bydd gwerth cyhoeddus Radio 1 Dance yn uchel, ac y bydd y cynigion yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni Cenhadaeth ac o hyrwyddo holl Ddibenion Cyhoeddus perthnasol y BBC.

### *8.2.2 BBC Radio 1 Anthems*

Fel y nodir yn adran 6, mae ein dadansoddiad – sy'n seiliedig ar ein hymchwil cynulleidfa a gynhaliwyd gan MTM, ymatebion i'n hymgynghoriad, a gwaith modelu o'r defnydd – yn dangos y bydd gwerth cyhoeddus ein cynigion yn amlwg yn uchel – gwerth personol, gwerth cymdeithasol a gwerth i ddiwydiant. Yn benodol, bydd gorsaf radio newydd,

Radio 1 Anthems, yn galluogi'r BBC i gyflawni ein Cenhadaeth ac i hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus yn well drwy wneud y canlynol:

- Gwella gwerth i bob cynulleidfa, yn enwedig i gynulleidfaoedd iau (16-34 oed) a C2DE sydd ar hyn o bryd yn cael llai o werth gan y BBC ond sy'n fwy tebygol o wyro tuag at y cynnwys a gynigir, yn ogystal â diwallu hwyliau ac anghenion cynulleidfaoedd modern yn well.
- Darparu ystod eang o gerddoriaeth sy'n cyflwyno cynulleidfaoedd i amrywiaeth ehangach o gerddoriaeth a genres nag sydd ar gael ar hyn o bryd yn y farchnad fasnachol.
- Hyrwyddo cerddoriaeth a thalentau o Brydain, gan gynnwys o leiaf 33% o artistiaid o Brydain a bod yn lleoliad hyfforddi ar gyfer talent newydd o Brydain.
- Cynnwys rhaglenni byw neu wedi'u recordio'n arbennig, gan gynnwys rhaglenni i wella'r broses o ganfod cerddoriaeth i gynulleidfaoedd o dan 35 oed.
- Cefnogi'r broses o drawsnewid radio'r DU yn ddigidol drwy lansio ar DAB+ ac annog cynulleidfaoedd i wrando drwy BBC Sounds ar gyfer swyddogaethau gwrando byw ychwanegol (e.e. rhewi a mynd yn ôl, rhestr o'r traciau).

Felly, mae'r BBC yn fodlon y bydd gwerth cyhoeddus Radio 1 Anthems yn uchel, ac y bydd y cynigion yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni'r Genhadaeth ac o hyrwyddo'r holl Ddibenion Cyhoeddus perthnasol.

### *8.2.3 Estyniad BBC Radio 2*

Fel y nodir yn adran 6, mae ein dadansoddiad – sy'n seiliedig ar ein hymchwil cynulleidfa a gynhaliwyd gan MTM, ymatebion i'n hymgynghoriad, a gwaith modelu o'r defnydd – yn dangos y bydd gwerth cyhoeddus ein cynigion yn amlwg yn uchel – gwerth personol, gwerth cymdeithasol a gwerth i ddiwydiant. Yn benodol, bydd estyniad newydd gorsaf radio Radio 2 yn galluogi'r BBC i gyflawni ein Cenhadaeth ac i hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus yn well drwy wneud y canlynol:

- Gwella gwerth i bob cynulleidfa gan gynnwys cynulleidfaoedd C2DE sydd ar hyn o bryd yn cael llai o werth gan y BBC, yn ogystal â gwasanaethu hwyliau ac anghenion cynulleidfaoedd modern yn well, gan gynnwys cynulleidfaoedd hŷn, sef cynulleidfa darged yr orsaf.
- Darparu ystod a dyfnder ehangach o gerddoriaeth i gynulleidfaoedd, yn enwedig o'i gymharu â gorsafoedd radio masnachol tebyg.
- Tynnu sylw at y gorau o gerddoriaeth o Brydain gydag o leiaf 40% o'r gerddoriaeth ar yr orsaf yn gerddoriaeth gan artistiaid o Brydain.
- Darparu cynnwys llafar unigryw ac arbennig sy'n berthnasol i gynulleidfaoedd, yn ddifyr ac o werth addysgol.
- Darparu newyddion i'r gynulleidfa drwy gydol y dydd.
- Cyflwyno cynnwys byw wedi'i recordio'n arbennig i gynulleidfaoedd o bob rhan o amrywiaeth eang o gynnwys cerddoriaeth archif y BBC, gan alluogi cynulleidfaoedd i ail-fyw digwyddiadau roedden nhw wedi'u mwynhau yn y gorffennol, neu y gallen nhw fod wedi eu methu, a thynnu sylw cynulleidfaoedd newydd atyn nhw.
- Cefnogi'r broses o drawsnewid radio'r DU yn ddigidol drwy lansio ar DAB+ ac annog cynulleidfaoedd i wrando drwy BBC Sounds ar gyfer swyddogaethau gwrando byw ychwanegol (e.e. rhewi a mynd yn ôl, rhestr o'r traciau).

Ar ôl ystyried hyn, mae'r BBC yn fodlon y bydd gwerth cyhoeddus estyniad Radio 2 yn uchel, ac y bydd y cynigion yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni Cenhadaeth ac o hyrwyddo holl Ddibenion Cyhoeddus perthnasol y BBC.

### *8.2.4 BBC Radio 3 Unwind*

Fel y nodir yn adran 6, mae ein dadansoddiad – sy'n seiliedig ar ein hymchwil cynulleidfa a gynhaliwyd gan MTM, ymatebion i'n hymgynghoriad, a gwaith modelu o'r defnydd – yn dangos y bydd gwerth cyhoeddus ein cynigion yn amlwg yn uchel – gwerth personol, gwerth cymdeithasol a gwerth i ddiwydiant. Yn benodol, bydd gorsaf radio newydd, BBC Radio 3 Unwind, yn galluogi'r BBC i gyflawni ein Cenhadaeth ac i hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus yn well drwy wneud y canlynol:

- Gwella gwerth i bob cynulleidfa, gan gynnwys cynulleidfaoedd iau (16-34 oed) a C2DE, sy'n cael llai o werth gan y BBC ar hyn o bryd, yn ogystal â diwallu hwyliau ac anghenion cynulleidfaoedd modern yn well, drwy gynnig profiadau ymlaciol a hamddenol o wrando ar gerddoriaeth glasurol.
- Darparu ystod a dyfnder ehangach o gerddoriaeth i gynulleidfaoedd a dod â chynulleidfaoedd yn agosach at genres a chyfnodau o gerddoriaeth maen nhw'n eu caru.
- Chwarae darnau o gerddoriaeth glasurol newydd i gynulleidfaoedd. Bydd yr orsaf yn hyrwyddo cerddoriaeth gan gyfansoddwyr byw a'r genhedlaeth newydd o artistiaid-gyfansoddwyr. Bydd hefyd yn cefnogi cyfansoddwyr a pherfformwyr amrywiol nad ydyn nhw'n cael eu cynrychioli'n ddigonol, gan gynnwys menywod ac artistiaid o gefndiroedd ethnig amrywiol.
- Hyrwyddo hen gerddoriaeth a cherddoriaeth newydd o Brydain, gan gynnwys artistiaid newydd BBC Introducing. Bydd yn adlewyrchu perfformiadau gan Gorau a Cherddorfeydd y BBC o bob cwr o'r DU. Chwarae amrywiaeth eang o draciau i gynulleidfaoedd gan amrywiaeth o gyfansoddwyr o Brydain.
- Darlledu cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi'i recordio'n arbennig bob wythnos drwy ddigwyddiadau blaenllaw fel gŵyl Proms y BBC, Cerddorfeydd a Chorau'r BBC, Artistiaid Cenhedlaeth Newydd y BBC a pherfformwyr eraill.
- Yn cynnwys cyfuniadau unigryw a diddorol o ddeunydd llafar a cherddoriaeth drwy gynnwys unigryw a neilltuol o bob rhan o'r BBC, gan gynnwys sioeau sy'n canolbwyntio ar ymwybyddiaeth ofalgar, lles a chwsg mewn ffordd nad oes unrhyw ddarparwyr masnachol yn ei wneud ar hyn o bryd.
- Cefnogi'r broses o drawsnewid radio'r DU yn ddigidol drwy lansio ar DAB+ ac annog cynulleidfaoedd i wrando drwy BBC Sounds ar gyfer swyddogaethau gwrando byw ychwanegol (e.e. rhewi a mynd yn ôl, rhestr o'r traciau).

Felly, mae'r BBC yn fodlon y bydd gwerth cyhoeddus gorsaf newydd Radio 3 Unwind yn uchel, ac y bydd y cynigion yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni Cenhadaeth ac o hyrwyddo holl Ddibenion Cyhoeddus perthnasol y BBC.

### *8.2.5 Y gorsafoedd radio newydd gyda'i gilydd*

Ar ôl ystyried ymchwil cynulleidfa, ymatebion i'n hymgynghoriad, dadansoddiad economeg ac asesiad o'n damcaniaethau gwerth cyhoeddus, rydyn ni o'r farn y byddai'r cynigion ar gyfer y gorsafoedd newydd yn creu gwerth cyhoeddus sylweddol, yn unigol ac ar y cyd, ac yn cyfrannu at gyflawni'r Genhadaeth a hyrwyddo ei Ddibenion

Cyhoeddus. Bydd y gorsafoedd yn cyflawni hyn drwy wella gwerth i bob cynulleidfa, ymestyn ehangder ac amrywiaeth cerddoriaeth ar y radio, tynnu sylw at gerddoriaeth newydd a cherddoriaeth Brydeinig o bob cwr o'r DU, darparu cynnwys llafar o ansawdd uchel ac effeithiol a newyddion perthnasol i gynulleidfaoedd, ac yn y pen draw, cefnogi arloesedd technolegol mewn darlledu radio.

## 8.3 A yw'r BBC wedi cymryd camau rhesymol i wneud yn siŵr na chaiff y newid arfaethedig unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol lle nad yw hynny'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus yn effeithiol?

### *8.3.1 Effaith niweidiol bosibl ar gystadleuaeth deg ac effeithiol*

I benderfynu pa gamau rhesymol y mae angen eu cymryd o bosibl er mwyn osgoi unrhyw effaith niweidiol ddiangen ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, rhaid dweud pa effeithiau niweidiol allai ddeillio o'r newidiadau arfaethedig (ac os oes rhai, a ydyn nhw'n angenrheidiol er mwyn cyflawni Cenhadaeth y BBC a hyrwyddo ei Ddibenion Cyhoeddus yn effeithiol).

#### 8.3.1.1 BBC Radio 1 Dance

Fel y nodir yn Adran 7, mae ein dadansoddiad yn dangos mai dim ond effaith weddol fach (-0.6%) fydd gorsaf newydd Radio 1 Dance yn ei chael ar refeniw cystadleuwyr masnachol, ac y bydd gan gystadleuwyr masnachol ddigon o awdurdod i ymateb ac y byddan nhw'n sicr yn gallu ymateb mewn ffordd ddeinamig a chryf. Felly, mae'r orsaf radio newydd, Radio 1 Dance, yn annhebygol o gael effaith niweidiol ar strwythur cystadleuaeth ac ar gymhellion cystadleuwyr i fuddsoddi mewn rhaglenni a gwasanaethau, yn gyffredinol neu'n fwy penodol ar gyfer y gynulleidfa darged.

#### 8.3.1.2 BBC Radio 1 Anthems

Fel y nodir yn Adran 7, mae ein dadansoddiad yn dangos mai dim ond effaith weddol fach (-0.4%) fydd gorsaf newydd Radio 1 Anthems yn ei chael ar refeniw cystadleuwyr masnachol, ac felly ei bod yn annhebygol o gael effaith niweidiol ar strwythur cystadleuaeth ac ar gymhellion cystadleuwyr i fuddsoddi mewn rhaglenni a gwasanaethau, yn gyffredinol neu'n fwy penodol ar gyfer y gynulleidfa darged.

#### 8.3.1.3 Estyniad BBC Radio 2

Fel y nodir yn Adran 7, mae ein dadansoddiad yn dangos y gall estyniad Radio 2 gael effaith ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Yn benodol, yn achos un darlledwr masnachol sydd (yn annodweddiadol yn y diwydiant) â llwybrau cyfyngedig y mae'n gallu eu defnyddio i liniaru'r effaith yn ddeinamig. Rydyn ni wedi cymryd camau sylweddol i liniaru'r effaith yn yr achos hwn ac rydyn ni'n credu bod y gwerth cyhoeddus a gynhyrchir gan y newid yn cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol (gweler isod).

#### 8.3.1.4 BBC Radio 3 Unwind

Fel y nodir yn Adran 7, mae ein dadansoddiad yn awgrymu mai dim ond effaith weddol fach (-0.2%) fydd gorsaf radio newydd Radio 3 Unwind yn ei chael ar refeniw cystadleuwyr masnachol, ac y bydd cystadleuwyr masnachol bron yn sicr yn gallu ymateb mewn ffordd ddeinamig a chryf; ac felly ei bod yn annhebygol y bydd gorsaf

radio newydd Radio 3 Unwind yn cael effaith niweidiol ar strwythur cystadleuaeth ac ar gymhellion cystadleuwyr i fuddsoddi mewn rhaglenni a gwasanaethau, yn gyffredinol neu'n fwy penodol ar gyfer y gynulleidfa darged.

#### 8.3.1.5 Y gorsafoedd radio newydd gyda'i gilydd

Fel y nodir yn Adran 7, mae ein dadansoddiad yn dangos mai dim ond effaith weddol fach fydd y gorsafoedd radio newydd yn ei chael ar refeniw cystadleuwyr masnachol, gyda'r unig effaith sylweddol ar gystadleuydd unigol o ganlyniad i estyniad Radio 2, y mae modd ei gyfiawnhau, yn ein barn ni, gan y gwerth cyhoeddus sylweddol sy'n deillio o'r newid (fel y nodir yn Adran 6). Fodd bynnag, gyda'i gilydd, dydy hi ddim yn debygol y bydd y newidiadau yn cael effaith niweidiol ar strwythur y gystadleuaeth nac ar gymhellion cystadleuwyr i fuddsoddi mewn rhaglenni a gwasanaethau, yn gyffredinol neu'n fwy penodol ar gyfer y gynulleidfa darged.

### *8.3.2 Ystyried camau rhesymol i wneud yn siŵr na chaiff y newid arfaethedig unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol lle nad yw hynny'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r Genhadaeth yn effeithiol a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus*

Yng ngoleuni ymatebion rhanddeiliaid a'r dystiolaeth rydyn ni wedi'i chasglu drwy ymchwil cynulleidfa a dadansoddiad economeg, mae'r BBC wedi ystyried a oes unrhyw gamau rhesymol y mae angen i'r BBC eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, lle nad yw hynny'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus yn effeithiol.

#### 8.3.2.1 BBC Radio 1 Dance

O ran y graddau y gallai ein cynigion gael rhywfaint o effaith ar ein cystadleuwyr, mae'r BBC yn fodlon mai bach fyddai'r effaith hon ac ni ellir ei lleihau ymhellach heb beryglu'r cynigion i Radio 1 Dance a'r gwerth i'r cyhoedd a fydd yn deillio o'i lansio yn ôl ein dadansoddiad.

#### 8.3.2.2 BBC Radio 1 Anthems

O ran y graddau y gallai ein cynigion gael rhywfaint o effaith ar ein cystadleuwyr, mae'r BBC yn fodlon mai bach fyddai'r effaith hon ac ni ellir ei lleihau ymhellach heb beryglu'r cynigion ar gyfer Radio 1 Anthems a'r gwerth i'r cyhoedd a fydd yn deillio o'i lansio yn ôl ein dadansoddiad.

#### 8.3.2.3 Estyniad BBC Radio 2

Fel y nodir yn Adran 7, mae ein dadansoddiad yn dangos y gall estyniad Radio 2 gael effaith ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

Mewn ymateb i'r adborth hwn, ac er mwyn adlewyrchu adborth rhanddeiliaid, rydyn ni wedi ailddatblygu ein cynnig ar gyfer estyniad Radio 2 yn sylweddol.

Yn benodol, rydyn ni wedi ailddatblygu amserlen yr orsaf i fod yn fwy o rwydwaith sy'n cael ei arwain gan ddeunydd llafar, gyda thua 60% o'r amserlen yn gynnwys difyr ac addysgol, sydd hefyd yn cynnwys bwletinau newyddion drwy gydol y dydd ar ddechrau pob rhaglen ar yr amserlen.

Caiff y newidiadau hyn eu disgrifio yn Adran 5, a'u crynhoi isod:

- Egluro cenhadaeth yr orsaf i apelio at gynulleidfa darged o bobl 55 oed a hŷn a C2DE (nad ydyn nhw'n cael eu gwasanaethu'n ddigonol gan y BBC) a sicrhau bod y BBC yn cynnig mwy o werth i'r cynulleidfaoedd hynny drwy gynnwys y gynulleidfa darged hon yn y weledigaeth ar gyfer yr orsaf.
- Ailddatblygu'r cynnig i gael ei arwain gan ddeunydd llafar, gydag amserlen sy'n cynnwys rhaglenni dogfen perthnasol, difyr ac addysgol a rhaglenni wedi'u curadu'n dda sy'n cyflawni gweledigaeth y gorsafoedd i roi cipolwg unigryw ar hen ganeuon pop a defnyddio archif hanesyddol unigryw'r BBC yn helaeth.
- Cynnwys bwletinau newyddion drwy gydol yr orsaf i sicrhau bod cynulleidfaoedd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y newyddion diweddaraf, gydag o leiaf 10 bwletin newyddion bob dydd.
- Bod yn glir ynghylch ein cynlluniau comisiynu ar gyfer yr orsaf, gyda nod golygyddol i ddarparu rhaglenni cerddoriaeth sy'n cynnig profiadau cerddoriaeth unigryw ac eang i gynulleidfaoedd a sicrhau eu bod yn cael mwynhau repertoire eang o gerddoriaeth o'r 50au, y 60au a'r 70au.
- Sefydlu cefnogaeth i greadigrwydd cynhenid yng nghenhadaeth y gorsafoedd, gyda tharged i sicrhau bod o leiaf 40% o'r traciau sy'n cael eu chwarae yn yr orsaf yn dod gan artistiaid o'r DU.
- Gweithio mewn partneriaeth â gorsafoedd radio lleol a chenedlaethol y BBC i ddatblygu doniau a chreadigrwydd cynhenid o bob cwr o wledydd a rhanbarthau'r DU.
- Ymrwymiad i tua 20% o'r amserlen newydd yn fod yn gyfweliadau, sesiynau a chaneuon wedi'u recordio o archif unigryw'r BBC

#### 8.3.2.4 BBC Radio 3 Unwind

O ran y graddau y gallai ein cynigion gael rhywfaint o effaith ar ein cystadleuwyr, mae'r BBC yn fodlon mai bach fyddai'r effaith hon ac ni ellir ei lleihau ymhellach heb beryglu'r cynigion i Radio 3 Unwind a'r gwerth i'r cyhoedd a fydd yn deillio o'i lansio yn ôl ein dadansoddiad.

#### 8.3.2.5 Y gorsafoedd radio newydd gyda'i gilydd

Felly, o ran y graddau y gallai ein cynigion gael rhywfaint o effaith ar ein cystadleuwyr, yn ei chrynswth, mae'r BBC yn fodlon mai bach fyddai'r effaith hon ac ni ellir ei lleihau ymhellach heb beryglu'r gwelliannau i bortffolio radio'r BBC a'r gwerth i'r cyhoedd a fydd yn deillio o'r gwelliannau hyn yn ôl ein dadansoddiad.

## 8.4 A yw gwerth cyhoeddus y newidiadau arfaethedig yn cyfiawnhau'r effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol?

### *8.4.1 BBC Radio 1 Dance*

Yn sgil ein canfyddiadau ynghylch gwerth cyhoeddus y cynnig a'r effaith debygol ar y farchnad, rydyn ni felly'n fodlon bod ein cynnig ar gyfer gorsaf radio newydd, Radio 1 Dance, yn dangos gwerth clir i gynulleidfaoedd drwy gynnig gwell gwasanaeth i gynulleidfa nad yw'n cael ei gwasanaethu'n ddigonol ar hyn o bryd, a thynnu sylw at gerddoriaeth newydd ac artistiaid o Brydain ar y radio, a thrwy hynny sicrhau gwell gwerth am ffi'r drwydded, gan beidio â chyfyngu ar allu'r farchnad ehangach i gynhyrchu

refeniw ac i arloesi. Dydy hyn ddim yn arwain at lefel o risg o effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol sy'n golygu ei bod yn rhaid i ni asesu ymhellach bwys cymharol y naill a'r llall, fel y mae'r elfen hon o'r prawf yn mynnu.

### *8.4.1 BBC Radio 1 Anthems*

Yn sgil ein canfyddiadau ynghylch gwerth cyhoeddus y cynnig a'r effaith debygol ar y farchnad, rydyn ni felly'n fodlon bod ein cynnig ar gyfer gorsaf radio newydd, Radio 1 Anthems, yn sicrhau'r cydbwysedd priodol rhwng cynnig gwell gwasanaeth i gynulleidfa nad yw'n cael ei gwasanaethu'n ddigonol ar hyn o bryd (cynulleidfaoedd 16-34 oed a C2DE), a thrwy hynny sicrhau gwell gwerth am ffi'r drwydded, gan beidio â chyfyngu ar allu'r farchnad ehangach i gynhyrchu refeniw ac i arloesi. Dydy hyn ddim yn arwain at lefel o risg o effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol sy'n golygu ei bod yn rhaid i ni asesu ymhellach bwys cymharol y naill a'r llall, fel y mae'r elfen hon o'r prawf yn mynnu.

### *8.4.2 Estyniad BBC Radio 2*

Fel y nodir uchod, mae ein dadansoddiad o'r effaith ar y farchnad ar estyniad Radio 2 (a nodir yn Adran 7) yn dangos y gall yr estyniad arfaethedig gael effaith ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Mewn ymateb i'r adborth hwn, ac er mwyn adlewyrchu adborth rhanddeiliaid, rydyn ni wedi ailddatblygu ein cynnig ar gyfer estyniad Radio 2 yn sylweddol (fel y nodir yn Adran 5).

Gan ystyried ein cynnig sydd wedi'i ailddatblygu, ein hymchwil i'r farchnad, adborth rhanddeiliaid a'n hailasesiad o'r canfyddiadau ar werth cyhoeddus y cynnig, rydyn ni'n fodlon bod ein cynnig ar gyfer gorsaf radio newydd estyniad Radio 2 yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng cynhyrchu gwerth cyhoeddus sylweddol i rheini sy'n talu ffi'r drwydded a gallu'r farchnad ehangach i gynhyrchu refeniw ac arloesi. Er ei fod yn dangos tystiolaeth o gynnydd posibl mewn risg o effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, rydyn ni'n credu bod y gwerth cyhoeddus a gynhyrchir yn cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol bosibl a allai godi. Felly, rydyn ni'n dod i'r casgliad bod y prawf budd y cyhoedd yn cael ei fodloni ac nad yw'n ofynnol i ni asesu pwysau cymharol pob un fel sy'n ofynnol gan y rhan hon o'r prawf.

### *8.4.3 BBC Radio 3 Unwind*

Yn sgil ein canfyddiadau ynghylch gwerth cyhoeddus y cynnig a'r effaith debygol ar y farchnad, rydyn ni felly'n fodlon bod ein cynnig ar gyfer gorsaf radio newydd, Radio 3 Unwind, yn sicrhau'r cydbwysedd priodol rhwng cynnig gwell gwasanaeth i gynulleidfa iau a C2DE drwy dynnu sylw'r gynulleidfa at gerddoriaeth glasurol newydd a chyfansoddwyr o Brydain. Yn ogystal â darlledu mwy o gerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi'i recordio'n arbennig bob wythnos i gynulleidfaoedd a chynnwys unigryw ac arbennig o bob rhan o'r BBC. Felly, bydd yr orsaf newydd yn darparu gwell gwerth am ffi'r drwydded, heb gyfyngu ar allu'r farchnad ehangach i gynhyrchu refeniw ac arloesi. Felly, dydy'r estyniad ddim yn arwain at lefel o risg o effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol sy'n golygu ei bod yn rhaid i ni asesu ymhellach bwys cymharol y naill a'r llall, fel y mae'r elfen hon o'r prawf yn mynnu.

### *8.4.4 Y gorsafoedd radio newydd gyda'i gilydd*

Ar ôl ystyried ymchwil cynulleidfa, ymatebion i'n hymgynghoriad, dadansoddiad economeg ac asesiad o'n damcaniaethau gwerth cyhoeddus, rydyn ni o'r farn y byddai'r cynigion ar gyfer y gorsafoedd newydd yn creu gwerth cyhoeddus sylweddol, yn unigol ac ar y cyd, ac yn cyfrannu at gyflawni'r Genhadaeth a hyrwyddo ei Ddibenion Cyhoeddus.

Mae ein dadansoddiad o'r farchnad yn Adran 7 yn dangos bod y cynigion ar gyfer Radio 1 Dance, yr estyniad newydd i Radio 1 a'r estyniad i Radio 3, yn unigol ac ar y cyd, yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Ar gyfer Estyniad Radio 2, fel y nodwyd uchod, mae ein dadansoddiad yn dangos y gall yr estyniad arfaethedig gael effaith ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, ond rydyn ni'n credu bod y gwerth cyhoeddus y mae'n ei gynhyrchu yn cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol a allai godi.

## 8.5 Casgliad

Fel sy'n cael ei nodi'n fanwl yn y ddogfen hon, ac yn cael ei grynhoi uchod, mae'r BBC yn fodlon bod holl elfennau'r Prawf Budd y Cyhoedd yn cael eu bodloni mewn perthynas â phob un o'r gorsafoedd radio newydd arfaethedig –Radio 1 Dance, Radio 1 Anthems, yr estyniad newydd i Radio 2 a Radio 3 Unwind, a gyda'i gilydd ar gyfer pob un o'r gorsafoedd. Rydyn ni o'r farn y bydd y gorsafoedd newydd yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni'r genhadaeth a hyrwyddo'r dibenion cyhoeddus, yn creu gwerth cyhoeddus uchel, ac yn cael effaith weddol fach, fan bellaf, ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.